Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Ymchwilio Addysg Ddwyieithog yn Ysgolion Cymru: Amrywiaeth Caleidosgopig

Jones, Bryn

Award date:
2017

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

Link to publication

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 27. Apr. 2024

Prifysgol Bangor

Ymchwilio Addysg Ddwyieithog yn Ysgolion Cymru: Amrywiaeth Caleidosgopig

Bryn Jones

Adroddiad critigol a gyflwynwyd i'r Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor,
yn rhan o gymhwyster Gradd PhD ar sail Cyhoeddiadau

In between basically monolingual Welsh and monolingual English schools in Wales, there is the widest variety of practice of bilingual education. The kaleidoscopic variety of bilingual educational practice in Wales makes the production of a simple typology inherently dangerous.

Baker (1993: 15)

…bilingual curricula have to consider language *allocation* and language *arrangements*, and allow for translanguaging practices.

García (2009: 308)

Cynnwys

i. Datganiadau a Chaniatâd 5

ii. Cydnabyddiaeth 8

1. Rhagymadrodd i'r adroddiad 9

2. Cefndir ymchwil yr adroddiad 26

3. Cyfraniad y cyhoeddiadau i'r maes: 34

3.1 **Cyhoeddiad 1**: Jones, B. (2010). Amrywiaeth Caleidosgopig: addysg ddwyieithog yng Nghymru heddiw. *Gwerddon,* Rhifyn 5, Ionawr 2010, tt.9-26.

3.2 **Cyhoeddiad 2**: Jones, B., & Lewis, W.G. (2014). Language Arrangements within Bilingual Education. In Thomas, E.M. & Mennen, I. (eds.), *Advances in the Study of Bilingualism* (pp. 143-172). Bristol: Multilingual Matters.

3.3 **Cyhoeddiad 3**: Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2013). 100 Bilingual Lessons: Distributing two languages in classrooms. In Abello-Contesse, C., Chandler, P. M., López-Jiménez, M. D., & Chacón-Beltrán, R, (eds.), *Bilingual and Multilingual Education in the 21st Century* (pp. 107-135). Bristol: Multilingual Matters.

3.4 **Cyhoeddiad 4**: Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2012a). Translanguaging: origins and development from school to street and beyond. *Educational Research and Evaluation*, 18 (7), 641-654.

3.5 **Cyhoeddiad 5**: Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2012b). Translanguaging: developing its conceptualisation and contextualisation. *Educational Research and Evaluation,* 18 (7), 655-670.

3.6 **Cyhoeddiad 6**: Jones, B. (2017). Translanguaging in Bilingual Schools in Wales. *Journal of Language, Identity and Education,* 16 (4), 211-227.

3.7 Gwefan Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru

4. Ardrawiad cyhoeddiadau Bryn Jones 78

5. Crynodeb feirniadol o'r prif ganfyddiadau 86

6. Clo 102

7. Llyfryddiaeth 111

8. Atodiadau 118

Atodiadau: 118
8.1 Rhestr cyhoeddiadau Bryn Jones 119

8.2 Datganiad gan gydweithwyr: 120
8.2.1 Datganiad gan yr Athro Colin Baker
8.2.2 Datganiad gan Dr. W. Gwyn Lewis

8.3 Sylwadau Adolygwyr Academaidd cyn cyhoeddi (*Academic Peer Reviewer*): 124
8.3.1 Lewis, Jones & Baker (2012a)
8.3.2 Lewis, Jones & Baker (2012b)
8.3.3 Jones & Lewis (2014)

8.4 Adolygiadau: 130
8.4.1 Abello-Contesse et al. (2013) yn Linguist List 25.2238
8.4.2 Thomas & Mennen (2014) yn IJBEB 2015
8.4.3 Thomas & Mennen (2014) yn Linguist List 26.2625

8.5 Ardrawiad ymchwil: cyhoeddiadau academaidd 133
8.5.1 García & Li Wei (2014)
8.5.2 Hibert & van der Walt (2014)
8.5.3 Paulsrud (2014)

8.6 Ardrawiad ymchwil: erthyglau academaidd 135
8.6.1 Creese & Blackledge (2015)
8.6.2 Heugh (2015)
8.6.3 Palmer et al. (2014)
8.6.4 Velasco & García (2014)
8.6.5 Li Wei & Hua (2013)

8.7 Ardrawiad ymchwil: cynadleddau a seminarau 138
8.7.1 Andrews (2012)
8.7.2 Paulsrud (2013)
8.7.3 Paulsrud (2015)

8.8 Gwybodaeth ychwanegol 141
8.8.1 E-mail: Garcia /Baker /Lewis /Jones /Andrews (01.03.10)
8.8.2 E-mail: Baker / Jones (25.02.15)
8.8.3 E-mail Jones / Baker (01.04.10)
8.8.4 E-mail: Jones / Paulsrud (04.12.15)
8.8.5 E-mail: Williams / Jones (22.05.16)

8.9 Rhestr Tablau a Ffigyrau 147

8.10 Methodoleg 149

8.11 Drafft 1: Cyhoeddiad 6 (Jones, 2017) 159

ii. Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'm cydweithwyr, yr Athro Colin Baker a Dr Gwyn Lewis am ymddiried ynof yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Ymchwil y Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru, yng Nghanolfan Ymchwil ESRC i Ddwyieithrwydd mewn Theori ac Ymarfer, Prifysgol Bangor, rhwng 2007 a 2012. Diolch i Ms Hunydd Andrews (Swyddog Ymchwil) am ei chefnogaeth a'i chydweithrediad parod; roedd yn fraint cydweithio gydag ysgolheigion athrylithgar, brwdfrydig a bonheddig.

Diolch hefyd i'r disgyblion a'r athrawon a gyfrannodd i'r Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru, ac am y croeso a dderbyniwyd yn ddiwahân yn yr holl ysgolion a ymwelwyd â hwy ledled Cymru rhwng 2007 a 2012.

Hoffwn ddiolch i olygyddion y cylchgronau a'r llyfrau a gyhoeddodd ffrwyth ein hymchwil, a hefyd yr arfarnwyr a gynigodd welliannau cyn cyhoeddi.Hoffwn gydnabod fy niolch i'r ddau arholwr a gynigiodd sylwadau craff a gwelliannau gwerthfawr i'r adroddiad dan sylw.

Dymunaf ddiolch i'm goruchwyliwr a chydweithiwr deallus, yr Athro Enlli Môn Thomas. Yn syml, heb ei chefnogaeth a'i brwdfrydedd hi, ni fyddai'r gwaith hwn wedi gweld golau dydd, ac mae fy nyled iddi'n anfesuradwy. Mae traddodiad cyfoethog o ymchwil i ddwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog yn yr Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor, ac fe'i hystyriaf yn fraint i gyfrannu i'r maes, a chael cydweithio gydag academyddion craff a brwdfrydig. Boed i'r Ysgol Addysg barhau i arwain a chyfoethogi'r ymchwil i ddwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Yn olaf, diolchaf i'm teulu am fy nghefnogi ar hyd y daith, a chyflwynaf y gwaith hwn er cof am fy annwyl nith, Sasha Danielle Jarvis (1992-2012).

1. Rhagymadrodd i'r adroddiad

1.1 Rhagymadrodd

Addysg ddwyieithog mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007) yw testun yr adroddiad hwn, ac yn benodol trafodir sut mae athrawon yn hyrwyddo a chyflawni arferion addysgu dwyieithog yn yr ystafell ddosbarth. Cyfeirir at fethodoleg ac addysgeg addysg ddwyieithog, ac edrychir ar arferion trawsieithu ar lawr y dosbarth. Yn gyffredinol, gellir adnabod dwy thema o fewn y cyhoeddiadau dan sylw, sef yn gyntaf, cynllunio addysg ddwyieithog, yn cynnwys diffinio addysg ddwyieithog, a sut mae athrawon yn dyrannu (cynllunio) iaith yn yr ysgol, ac yn ail, gweithredu addysg ddwyieithog, yn cynnwys astudiaeth o arferion / methodoleg addysgu dwyieithog, a defnydd athrawon o drefniadau iaith (sef '*language arrangements'* yn ôl García, 2009: 308), gan ffocysu ar drawsieithu.

1.2 Trefn y cyhoeddiadau

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar chwe chyhoeddiad mewn cylchgronau a llyfrau academaidd wedi eu harfarnu, ac yn deillio'n bennaf o ymchwil a gyflawnwyd yng Nghanolfan Ymchwil ESRC i Ddwyieithrwydd mewn Theori ac Ymarfer, Prifysgol Bangor, rhwng 2007 a 2012. Cyfeirir yn feirniadol at gyhoeddiadau Jones (2010, 2017); Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b, 2013) a Jones & Lewis (2014), gan nodi unrhyw gyfraniad gwreiddiol a wnaed drwy'r gwaith i'r maes. Trafodir y cyhoeddiadau yn nhrefn dyddiad cwblhau (Tabl 1), ac ymdrechir i adlewyrchu datblygiad cysyniadol o fewn y gwaith, er enghraifft, mae'r deipoleg (dosbarthiad) o drefniadau iaith a gyflwynwyd yn Lewis, Jones & Baker (2013) yn ddatblygiad o'r deipoleg wreiddiol a gyflwynwyd yn Jones & Lewis (2014).

Tabl 1: Rhestr Cyhoeddiadau Bryn Jones (ac eraill)

Cyhoeddiad	Cwblhawyd	Cyhoeddwyd
Jones, B. (2010). Amrywiaeth Caleidosgopig: addysg ddwyieithog yng Nghymru heddiw. *Gwerddon,* Rhifyn 5, Ionawr 2010, tt.9-26.	2009	2010
Jones, B., & Lewis, W.G. (2014). Language Arrangements within Bilingual Education. In Thomas, E.M., & Mennen, I. (eds.), *Advances in the Study of Bilingualism*. Bristol: Multilingual Matters.	2011	2014
Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2013). 100 Bilingual Lessons: Distributing two languages in classrooms. In Abello-Contesse, C., Chandler, P. M., López-Jiménez, M. D., & Chacón-Beltrán, R, (eds.), *Bilingual and Multilingual Education in the 21st Century*. Bristol: Multilingual Matters.	2011	2013
Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2012a). Translanguaging: origins and development from school to street and beyond. *Educational Research and Evaluation*, 18 (7), 641-654.	2012	2012
Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2012b). Translanguaging: developing its conceptualisation and contextualisation. *Educational Research and Evaluation,* 18 (7), 655-670.	2012	2012
Jones, B. (2017). Translanguaging in Bilingual Schools in Wales. *Journal of Language, Identity and Education*, 16(4), 211-227.	2016	2017

Gan fod nifer o'r cyhoeddiadau (er enghraifft, Lewis, Jones & Baker, 2012a, 2012b) wedi ymddangos bron i bedair blynedd cyn cwblhau'r adroddiad hwn (Jones, 2016), mae'n deg gofyn beth ydy arwyddocâd a pherthnasedd y gwaith i faes addysg a pholisi iaith yng Nghymru heddiw? Pam fod yr ymchwil a drafodir yn yr adroddiad hwn yn bwysig? Cyn ateb y cwestiynau hyn, mae'n bwysig cyflwyno gwybodaeth gyfredol ynglŷn â chynllunio ieithyddol yng Nghymru, datblygiadau polisi addysg ddwyieithog ddiweddar yn ogystal ag ystyried ffactorau demograffig, er enghraifft, niferoedd o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig yn y Gymru gyfoes.

1.3 Addysg ddwyieithog yng Nghymru heddiw

Bydd yr adran hon yn ystyried arwyddocâd yr ymchwil yng nghyd-destun cynllunio ieithyddol yng Nghymru heddiw, gan ffocysu'n bennaf ar bolisïau'r llywodraeth ym maes y Gymraeg (er enghraifft, Llywodraeth Cymru, 2012a, 2012b, 2016; Comisiynydd y Gymraeg, 2016) ac addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (Llywodraeth Cymru, 2010, 2012a, 2013a, 2013b, 2015; Prifysgol Rhydychen, 2015).

Er y cyfeirir at bolisïau a strategaethau diweddar yn unigol, mae cyswllt yn bodoli rhwng nifer ohonynt, er enghraifft, rhwng y *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2010) a'r strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn *Iaith fyw; iaith byw* (Llywodraeth Cymru, 2012):

> Mae rhyngddibyniaeth clir rhwng y ddwy gan fod cyfraniad pwysig gan y sector addysg a sgiliau i'w wneud i gefnogi'r nod ehangach o weld yr iaith yn ffynnu ac i gynyddu caffaeliad a defnydd o'r Gymraeg.
>
> (Llywodraeth Cymru, 2016c: 2)

Mae drafft cyntaf Jones (2017) yn cynnig trosolwg o sefyllfa'r Gymraeg ac addysg gyfrwng Cymraeg yng Nghymru heddiw, a chyfeiriwyd at brif ganlyniadau Cyfrifiad Ysgolion, 2016 (Llywodraeth Cymru, 2016a), a niferoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg a'u disgyblion, yn ôl awdurdod lleol, Ionawr 2016 (Tabl 2).

Tabl 2: Ysgolion cyfrwng Cymraeg a'u disgyblion, yn ôl awdurdod lleol, Ionawr 2016

	Cynradd (a)		Canol (b)		Uwchradd (b)	
	Ysgolion	Disgyblion	Ysgolion	Disgyblion	Ysgolion	Disgyblion
Ynys Môn	46	5,571	0	0	4	2,959
Gwynedd	92	9,966	0	0	13	5,585
Conwy	23	2,288	0	0	2	1,292
Sir Ddinbych	16	2,322	0	0	3	2,966
Sir y Fflint	5	898	0	0	1	495
Wrecsam	8	1,705	0	0	1	745
Powys	22	2,803	1	520	3	1,880
Ceredigion	41	3,540	2	1,404	4	2,211
Sir Benfro	19	3,009	0	0	1	902
Sir Gaerfyrddin	71	9,805	0	0	5	5,502
Abertawe	11	3,223	0	0	2	1,598
Castell-nedd Port Talbot	10	2,176	0	0	1	1,046
Pen-y-bont ar Ogwr	4	1,151	0	0	1	617
Bro Morgannwg	6	1,634	1	1,016	0	0
Rhondda Cynon Taf	16	4,786	1	519	3	2,512
Merthyr Tudful	2	711	0	0	0	0
Caerffili	11	2,927	0	0	1	1,499
Blaenau Gwent	1	266	0	0	0	0
Torfaen	3	920	0	0	1	965
Sir Fynwy	2	366	0	0	0	0
Casnewydd	3	686	0	0	0	0
Caerdydd	16	5,348	0	0	3	2,625
Cymru	428	66,101	5	3,459	49	35,399
Cymru – Ionawr 2015	435	65,460	4	2,448	50	36,485
Cymru – Ionawr 2014	444	64,366	2	1,577	52	37,400
Cymru – Ionawr 2013	452	63,192	2	1,634	53	37,692
Cymru – Ionawr 2012	461	62,446	.	.	56	41,262

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion

(a) Mae ysgolion cynradd yn cynnwys ysgolion Cyfrwng Cymraeg, ysgolion Dwy Ffrwd ac ysgolion Trawsnewidiol.

(b) Yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog.

(Llywodraeth Cymru, 2016a)

Yn ôl Llywodraeth Cymru (2016a: 5) ym mis Ionawr 2016 roedd 13 ysgol feithrin, 1,310 ysgol gynradd, 7 ysgol ganol, 205 ysgol uwchradd a 39 ysgol arbennig yng Nghymru. O'r rhain, roedd 428 ysgol gynradd, 5 ysgol ganol a 49 ysgol uwchradd yn ystyried eu hunain yn ysgolion cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007). Yng Ngwynedd oedd y nifer fwyaf o ysgolion cyfrwng Gymraeg, sef 105, a'r awdurdod lleol â'r nifer leiaf oedd Blaenau Gwent, gydag 1. Mae'r ymchwil a gwblhawyd i drawsieithu yng Nghymru (er enghraifft, Jones 2010, 2017) wedi'i gwblhau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ac mae angen dybryd am ymchwil cyffelyb i'r defnydd o Gymraeg a Saesneg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg.

1.3.1 Ethnigrwydd mewn ysgolion yng Nghymru

Mae prinder ymchwil i'r defnydd o ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru (Brentnall, 2009). Yn ôl Llywodraeth Cymru (2016a:13), roedd 89.4% o'r holl ddisgyblion 5 oed a throsodd mewn ysgolion cynradd, canol, uwchradd ac arbennig yng Nghymru wedi eu dosbarthu fel Gwyn Prydeinig. Roedd 10.1% o ddisgyblion (5 oed a throsodd) o gefndiroedd lleiafrif ethnig, ac 0.5% ddim yn gwybod neu heb ddweud. O'r disgyblion hynny lle'r oedd eu cefndir ethnig wedi eu dosbarthu fel Du (0.9%), roedd 0.7% wedi eu dosbarthu fel Du Affricanaidd. O fewn y categori Asiaidd (2.3%), roedd 0.5% wedi eu dosbarthu fel Indiaidd, 0.8% fel Pacistanaidd a 0.8% fel Bangladeshaidd.

Mae Brentnall (2009:11) yn cydnabod mai 'ychydig iawn o waith ymchwil sydd wedi cael ei wneud ar ddatblygiad iaith a llwyddiant academaidd dysgwyr o leiafrifoedd ethnig sy'n cael eu haddysgu yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yng Nghymru.' Eglurodd Brentnall et al. (2009) ei bod yn angenrheidiol i gynllunio'n ofalus er mwyn mynd i'r afael ag anghenion addysgol dysgwyr o leiafrifoedd ethnig sy'n dysgu iaith neu ieithoedd ychwanegol. Mae ffrwyth yr ymchwil i drawsieithu a drafodir yn yr adroddiad hwn yn ffocysu ar y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y dosbarth, ac mae angen ymchwil pellach i drawsieithu mewn dosbarthiadau yn cynnwys disgyblion o gefndiroedd ethnig yn y Gymru gyfoes.

Tabl 3: Nifer y disgyblion 5 oed a throsodd, yn ôl cefndir ethnig, Ionawr 2012-16

	2012		2013		2014		2015		2016	
Cefndir ethnig	Nifer	Canran (a)	Nifer	Canran (a)	Nifer	Canran (a)	Nifer	Canran (a)	Nifer	Canran (a)
Gwyn	**367,176**	**93.1**	**365,356**	**93.0**	**364,260**	**92.8**	**363,031**	**92.5**	**362,290**	**92.2**
Gwyn Prydeinig	359,629	91.2	357,156	90.9	355,085	90.5	352,850	89.9	351,145	89.4
Teithiwr	323	0.1	345	0.1	346	0.1	378	0.1	385	0.1
Sipsi/ Roma	496	0.1	516	0.1	545	0.1	579	0.1	611	0.2
Unrhyw gefndir Gwyn arall	6,728	1.7	7,339	1.9	8,284	2.1	9,224	2.4	10,149	2.6
Cymysg	**8,420**	**2.1**	**8,808**	**2.2**	**9,337**	**2.4**	**9,872**	**2.5**	**10,592**	**2.7**
Gwyn a Du Caribïaidd	2,046	0.5	2,082	0.5	2,172	0.6	2,227	0.6	2,314	0.6
Gwyn a Du Affricanaidd	979	0.2	1,052	0.3	1,120	0.3	1,244	0.3	1,398	0.4
Gwyn ac Asiaidd	1,958	0.5	2,016	0.5	2,115	0.5	2,212	0.6	2,351	0.6
Unrhyw gefndir cymysg arall	3,437	0.9	3,658	0.9	3,930	1.0	4,189	1.1	4,529	1.2
Asiaidd	**7,971**	**2.0**	**8,276**	**2.1**	**8,696**	**2.2**	**8,914**	**2.3**	**9,185**	**2.3**
Indiaidd	1,634	0.4	1,731	0.4	1,830	0.5	1,931	0.5	2,056	0.5
Pacistanaidd	2,630	0.7	2,704	0.7	2,866	0.7	2,947	0.8	3,009	0.8
Bangladeshaidd	2,816	0.7	2,933	0.7	3,064	0.8	3,119	0.8	3,188	0.8
Unrhyw gefndir Asiaidd arall	891	0.2	908	0.2	936	0.2	917	0.2	932	0.2
Du (b)	**2,778**	**0.7**	**2,875**	**0.7**	**3,005**	**0.8**	**3,169**	**0.8**	**3,355**	**0.9**
Du Caribïaidd	208	0.1	201	0.1	194	0.0	187	0.0	194	0.0
Du Affricanaidd	2,225	0.6	2,308	0.6	2,452	0.6	2,598	0.7	2,743	0.7
Unrhyw gefndir Du arall	345	0.1	366	0.1	359	0.1	384	0.1	418	0.1
Tsieineaidd	**659**	**0.2**	**667**	**0.2**	**680**	**0.2**	**702**	**0.2**	**720**	**0.2**
Unrhyw gefndir ethnig arall	**3,863**	**1.0**	**3,951**	**1.0**	**4,145**	**1.1**	**4,451**	**1.1**	**4,639**	**1.2**
Cyfanswm â chategori dilys	390,867	99.1	389,933	99.3	390,123	99.4	390,139	99.4	390,781	99.5
Ddim yn gwybod	3,567	0.9	2,777	0.7	2,444	0.6	2,201	0.6	2,081	0.5
Pob disgybl	**394,434**	**100.0**	**392,710**	**100.0**	**392,567**	**100.0**	**392,340**	**100.0**	**392,862**	**100.0**

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion
(a) Canran o'r cyfanswm o ddisgyblion 5 oed a throsodd.

(Llywodraeth Cymru, 2016a)

1.3.2 Sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru heddiw

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2011 (Llywodraeth Cymru, 2012b) yn dangos bod gostyngiad rhwng 2001 a 2011 yn nifer a chyfran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2012b). Roedd y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg o 20.8% yn 2001 i 19.0% yn 2011, sef gostyngiad o tua 20,000 yn nifer y siaradwyr Cymraeg, o 582,000 yn 2001 i 562,000 yn 2011. Un rheswm dros y gostyngiad hwn oedd newidiadau demograffig yn y boblogaeth gan gynnwys llai o blant, yn ogystal â ffactorau fel siaradwyr Cymraeg yn allfudo, a phobl nad oeddent yn siarad Cymraeg yn mewnfudo (Llywodraeth Cymru, 2012b). Roedd y gwahaniaethau rhwng 2001 a 2011 yn amrywio yn ôl grŵp oedran, gyda chynnydd amlwg o ran plant rhwng 3-4 oed (o 18.8% i 23.3%), rhywfaint o gynnydd o ran oedolion rhwng 20-44 oed (o 15.5% i 15.6%) ond gostyngiadau yn y grwpiau oedran eraill (Llywodraeth Cymru, 2012b).



Ffigwr 1: *Cyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 1991-2011* (Llywodraeth Cymru, 2012b.)

Roedd cyfran y plant rhwng 5-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng o 40.8% yn 2001 i 40.3% yn 2011 (Ffigwr 1), sef gostyngiad o 18,800 (o 171,200 i 152,300). O safbwynt sgiliau ehangach yn y Gymraeg, adroddwyd bod 29.5% o blant a phobl ifanc rhwng 5-19 oed yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Roedd 5.3% o'r boblogaeth 3 oed a throsodd yn gallu deall Cymraeg, ond nid oeddent yn meddu unrhyw sgiliau Cymraeg eraill (Llywodraeth Cymru, 2012b: 5).

Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-2017 (Llywodraeth Cymru, 2012a)

Iaith fyw: iaith byw yw strategaeth y Gymraeg ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2012-17 a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac sydd yn disodli *Iaith Pawb* a gyhoeddwyd yn 2003. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ydy gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru, ac mae'r strategaeth yn anelu at weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu siarad ac yn defnyddio'r iaith. Cyfeirir at nodau strategol yn cynnwys cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd, cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o werth yr iaith yn y gymuned ac yn y gweithle, gwella gwasanaethau Cymraeg a chryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol. Mae'r strategaeth yn pwysleisio cyfraniad addysg fel elfen hanfodol wrth greu siaradwyr Cymraeg y dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2012a:15):

> Yn ddiamau, mae gan y system addysg rôl allweddol bwysig i'w chwarae yn nyfodol yr iaith. Darparu addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi ysgogi'r cynnydd mwyaf yn nifer y bobl ifanc sy'n rhugl ac yn hyderus wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Rydym bellach mewn sefyllfa lle gall mwy o bobl ifanc siarad yr iaith nag ers cyn yr Ail Ryfel Byd; sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol.

Dywed Llywodraeth Cymru (2012a:14) bod dwy elfen graidd yn hanfodol i wireddu'r weledigaeth o weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru:

> Mae dwy elfen graidd i bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwireddu ein gweledigaeth. Yn gyntaf, drwy fesurau i alluogi ac annog plant a phobl eraill i **gaffael yr iaith**, fel annog trosglwyddo'r iaith yn y cartref a sicrhau twf pellach mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ail, drwy fesurau i alluogi ac annog pobl i **ddefnyddio'r iaith** yn feunyddiol, fel creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, wrth eu gwaith, wrth dderbyn gwasanaethau, ac wrth fwynhau adloniant a hamdden.

Gan mai amcan y strategaeth *Iaith Fyw: Iaith Byw* yw cynyddu nifer y siaradwyr sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus a rhugl, mae'n bwysig nodi perthnasedd ymchwil i drawsieithu i wireddu'r amcan hwn. Mae trawsieithu'n annog y siaradwr i ddefnyddio dwy iaith yn gyfochrog, er enghraifft, gellir defnyddio'r Saesneg i ddatblygu'r Gymraeg ac *vice versa* mewn amrywiol gyd-destunau. Yn gyffredinol, mae trawsieithu yn galluogi disgyblion dwyieithog datblygol i gaffael y Gymraeg, ac yn annog disgyblion hyfedr dwyieithog i ddefnyddio'r Gymraeg a Saesneg yn feunyddiol (Jones & Lewis, 2014).

Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012-2015 (Comisiynydd y Gymraeg, 2016)

Mae Comisiynydd y Gymraeg (2016) wedi datgan fod cynllunio a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan o gynllunio ieithyddol bwriadus, ac 'yn cyflawni rôl ehangach nag ymateb i ddymuniadau rhieni am ddarpariaeth addysgol eu plant yn unig. Mae'n arf cynllunio ieithyddol allweddol yn ogystal' (Comisiynydd y Gymraeg, 2016: 6.3.1). Mae adroddiad Comisiynydd y Gymraeg, *Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012-2015* (Comisiynydd y Gymraeg, 2016), yn cwmpasu ystod eang o agweddau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gan gynnwys dadansoddiad o ymdrechion i greu siaradwyr newydd, ac archwiliad o'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau amrywiol. Mae'r adroddiad yn datgan ei bod yn anodd dadansoddi pa mor llwyddiannus y bu'r system addysg mewn cynhyrchu siaradwyr Cymraeg sydd â'r hyder i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd, ac yn esbonio bod ymyrraeth diweddar Llywodraeth Cymru (2010) i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cael llwyddiant cyfyngedig:

> Mae nifer sylweddol o blant hefyd yn derbyn eu haddysg yn Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ond eto ni welwyd cynnydd gwirioneddol dros y blynyddoedd diwethaf, a hynny er gwaethaf datblygiadau arwyddocaol megis cyflwyno *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* Llywodraeth Cymru.
>
> (Comisiynydd y Gymraeg, 2016: para 17)

Mae Comisiynydd y Gymraeg (2016) yn nodi nifer o'r heriau a'r materion sy'n gysylltiedig ag addysg cyfrwng Cymraeg heddiw gan gynnwys lle'r Gymraeg o fewn polisi a deddfwriaeth addysg yng Nghymru, cynyddu isadeiledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ateb a chynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, sicrhau dilyniant ieithyddol a chyflenwad priodol o adnoddau Cymraeg, a staff sydd â sgiliau Cymraeg. Wrth gyfeirio at addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog dywedwyd bod modd i blentyn ddysgu yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai ysgolion ond na fyddai'r profiad ieithyddol o reidrwydd yr un fath â'r profiad mewn ysgol cyfrwng Cymraeg o ran cyfran yr addysgu cyfrwng Cymraeg a'r defnydd llai ffurfiol o'r Gymraeg yn yr ysgol (Comisiynydd y Gymraeg, 2016: para. 176). Mae angen ystyried canfyddiadau'r ymchwil i addysg ddwyieithog a thrawsieithu yng nghyd-destun yr heriau sy'n gysylltiedig ag addysg cyfrwng Cymraeg heddiw, er enghraifft, oes modd defnyddio trawsieithu i gynyddu niferoedd y disgyblion sydd yn gallu gweithredu'n ddwyieithog o fewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth?

Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Yn Awst 2016 cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru a Gweinidog y Gymraeg gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.
(Gweler: <http://gov.wales/newsroom/welshlanguage/2016/160801cymraeg/?skip=1&lang=cy>).
Mae'r papur ymgynghori'n amlinellu camau i gynyddu nifer y bobl sy'n dysgu'r iaith, ac yn gallu ei defnyddio gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. Cydnabuwyd bod y gyfundrefn addysg yn bwysig o ran cyflwyno'r Gymraeg, boed hynny yn yr ysgol neu'r coleg neu wrth ddysgu fel oedolyn. Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad wedi dechrau ymchwiliad i strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer creu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar faes addysg, ac yn gweld hyn fel y sylfaen ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Cyfeiriodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (2016) at rôl hanfodol y gyfundrefn addysg i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg, a bod angen hyfforddi mwy o athrawon sydd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â gwella'r modd y cyflwynir y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'r argymhelliad ynglŷn â sefydlu rhaglen cyfnewid athrawon gyda gwledydd eraill, yn enwedig rhai sydd ag ieithoedd lleiafrifol, yn berthnasol iawn yng nghyd-destun ymchwil i fethodoleg addysg ddwyieithog.

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2010)

Mae *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010), yn amlinellu gweledigaeth y Llywodraeth i gynyddu nifer y disgyblion sydd yn dysgu'r Gymraeg yn ysgolion Cymru.

Adnabuwyd y nodau strategol canlynol i alluogi'r disgyblion i ddefnyddio'r iaith yn y gymuned, yn y gweithle a gyda'u teuluoedd:

> Nod strategol 1: Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn-statudol a statudol, ar sail ymateb yn rhagweithiol i'r galw gwybodus ymhlith rhieni.
> Nod strategol 2: Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus.
> Nod strategol 3: Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf.
> Nod strategol 4: Sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio sy'n darparu nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, ac sy'n meddu ar sgiliau iaith uchel yn y Gymraeg a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu.
> Nod strategol 5: Gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.
> Nod strategol 6: Cyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned.

Mae ymchwilio i addysg ddwyieithog a thrawsieithu yn berthnasol ar gyfer ateb gofynion rhai o'r nodau strategol a nodwyd uchod, er enghraifft, sicrhau bod pob disgybl yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn, a gwella dilyniant ieithyddol rhwng cyfnodau allweddol a ystyriwyd fel 'un o'r prif heriau sy'n wynebu addysg Gymraeg ar hyn o bryd' (Lewis, 2016: 123).

Amcan y gwerthusiad o *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2016b:2) oedd 'mesur effeithiolrwydd a thrawseffaith y Strategaeth, gan ystyried i ba raddau y mae wedi gwireddu'r nodau, yr amcanion a'r deilliannau disgwyliedig.' Mae'r dystiolaeth yn ymwneud â gweithredu'r Strategaeth, cynllunio darpariaeth, datblygu'r gweithlu, cymorth canolog, a sgiliau iaith a defnydd o'r Gymraeg. Mae'r adroddiad yn datgan bod rhai cynlluniau sydd yn cael eu gweithredu fel rhan o'r Strategaeth wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i unigolion ac ysgolion ond nad yw gweledigaeth y Strategaeth wedi'i gwreiddio mewn ffordd gyson ar draws gwahanol haenau'r gyfundrefn addysg. Er y dangoswyd rhywfaint o lwyddiant wrth gyrraedd y targedau a osodwyd yn 2010, ni chyflawnwyd y cynnydd disgwyliedig yn achos mwyafrif y dangosyddion. Mae'r adroddiad yn cynnwys 21 o argymhellion, sydd yn berthnasol ar gyfer Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid gweithredu eraill. Mae angen ystyried goblygiadau'r argymhellion yng nghyd-destun yr ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, yn arbennig o safbwynt sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2013a)

Mae'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol* (Llywodraeth Cymru, 2013a) wedi ei gynllunio i gynorthwyo athrawon i ymgorffori llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc i ddysgwyr rhwng 5 a 14 oed.

O safbwynt llythrennedd, cyfeirir at sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae'r *FfLlRh* yn canolbwyntio ar yr amrywiaeth o sgiliau llythrennedd sydd eu hangen i sicrhau cymhwysedd yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac i ddatblygu medrau llythrennedd deuol lle gall dysgwyr symud yn hyblyg rhwng yr iaith Saesneg a'r iaith Gymraeg. Mae angen rhoi cyfleoedd dysgu penodol a fydd yn helpu i sicrhau hyfedredd disgyblion yn y ddwy iaith. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys darparu deunyddiau yn y ddwy iaith, gyda thasgau ystyrlon sy'n gofyn am sgiliau prawf ddarllen ac ail-ddrafftio, dadansoddi a chymhwyso syniadau o fewn ystod o gyd-destunau pwnc-benodol. Mae'r *FfLlRh* yn cefnogi llythrennedd deuol, ac er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori'n llawn yn y gyfundrefn addysg yng Nghymru, nodwyd y bydd canllawiau a hyfforddiant ychwanegol yn cael eu datblygu. (Llywodraeth Cymru, 2013: 12). Serch hynny, nid oes unrhyw gyfeiriad at drawsieithu o fewn y ddogfen *FfLlRh*.

Un iaith i bawb (Llywodraeth Cymru, 2013b)

Pwrpas adolygiad Llywodraeth Cymru (2013b) oedd adnabod sut i godi safonau a chyrhaeddiad o fewn Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, ac i alluogi mwy o ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Cyflwynwyd yr adroddiad a'r argymhellion, *Un iaith i bawb,* i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Medi 2013. Ymhlith yr argymhellion, mae cyfeiriad at gyflwyno 'continwwm iaith', yn ogystal â disodli Cymraeg ail iaith:

Argymhelliad 6

> Llywodraeth Cymru i adolygu'r rhaglen astudio Cymraeg, dros gyfnod o dair i bum mlynedd, a defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol ar gyfer Cymraeg fel sylfaen ar gyfer cwricwlwm diwygiedig gan gynnwys:
> - un continwwm o ddysgu Cymraeg, ynghyd â disgwyliadau clir ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a lleoliadau dwyieithog; a
> - chanllawiau, deunyddiau cefnogi a hyfforddiant.
>
> O ganlyniad byddai'r elfen Cymraeg ail iaith yn y rhaglen astudio Cymraeg yn cael ei disodli ynghyd â'r term Cymraeg ail iaith (Llywodraeth Cymru, 2013:30).

Cyfeiriwyd at hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth, yn ogystal â defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng mewn ysgolion cyfrwng Saesneg:

> Argymhelliad 15
> Llywodraeth Cymru i:
> - ddatblygu canllawiau arfer orau ar ddefnyddio Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg yng ngweithgareddau ysgolion, ac ar ddefnyddio Cymraeg ar draws y cwricwlwm, yn seiliedig ar y prosiect peilot i ehangu defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg; a
> - gosod targedau i sicrhau mwy o ddysgu cyfrwng Cymraeg ar draws y cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru (2013: 5) at y sialens o roi'r Gymraeg wrth wraidd datblygiad addysgol a phersonol pob disgybl yng Nghymru, a sicrhau eu bod eisiau ac yn gallu defnyddio'r iaith yn hyderus ar ddiwedd yr unfed ganrif ar hugain. Mae ymchwilio i drawsieithu yn berthnasol o safbwynt datblygu dwyieithrwydd disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a hefyd ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Dyfodol Llwyddiannus (Llywodraeth Cymru, 2015)

Dyfodol Llwyddiannus (Llywodraeth Cymru, 2015) yw adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru a gyflwynwyd dan arweiniad yr Athro Graham Donaldson. Mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn cyflwyno gweledigaeth newydd ar gyfer y cwricwlwm ac asesu, ac eglurir mai'r diben yw datblygu plant a phobl ifanc sydd yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes, yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith, yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd, ac yn unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas (Llywodraeth Cymru, 2015:29). Polisi Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod lle diogel i'r Gymraeg yn y cwricwlwm ym mhob ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed, ac yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad (Llywodraeth Cymru, 2015), gwelwyd bod:

> … safonau yn y Gymraeg yn gadarn at ei gilydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae Estyn hefyd wedi barnu bod mwyafrif y plant yn y rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Saesneg yn gwneud cynnydd priodol wrth siarad a gwrando ar Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, a bod agwedd plant at ddysgu Cymraeg yn gadarnhaol. Fodd bynnag, anaml y bydd y dechrau calonogol hwn yn parhau yng Nghyfnod Allweddol 2 a thu hwnt. At hynny, mae Estyn wedi nodi bod llai o ymarfer da wrth ddysgu Cymraeg fel ail iaith nag mewn pynciau eraill (Llywodraeth Cymru, 2015:61).

Cyflwynwyd nifer o argymhellion o dan y pennawd, 'Lle'r Gymraeg yn y cwricwlwm' (Llywodraeth Cymru, 2015: 60), yn cynnwys y dylai'r Gymraeg barhau'n orfodol hyd at 16 oed, dylai ysgolion ganolbwyntio o'r newydd ar ddysgu Cymraeg, yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu, yn enwedig cyfathrebu a deall yr iaith lafar, dylai'r gwerth y mae plant a phobl ifanc, athrawon, rhieni, gofalwyr a'r cyhoedd yn ei roi ar y Gymraeg gael ei hyrwyddo drwy ganolbwyntio'n fwy ar y manteision gwybyddol o ddwyieithrwydd, dylai ysgolion cyfrwng Cymraeg weithio fel canolbwynt ar gyfer y Gymraeg, er mwyn helpu athrawon ac ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, dylai Llywodraeth Cymru ailwampio cymwysterau iaith Gymraeg yn 16 oed a rhoi'r pwyslais ar siarad a gwrando a defnyddio'r iaith yn y gweithle, a dylai'r goblygiadau o ran gwella cymhwysedd yn y Gymraeg yn y gweithlu addysg gael eu trafod drwy'r Fargen Newydd i'r Gweithlu Addysg ac adolygiad yr Athro Furlong o addysg hyfforddi athrawon.

Mae trawsieithu yn yr ystafell ddosbarth yn berthnasol i nifer o'r argymhellion yn yr adroddiad, *Dyfodol Llwyddiannus* (Llywodraeth Cymru, 2015). Er enghraifft, dywedir y dylai ysgolion ganolbwyntio ar addysgu Cymraeg yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu, yn arbennig cyfathrebu a deall yr iaith lafar. Mae annog dysgwyr i drawsieithu yn eu galluogi i ddatblygu ystod o foddau iaith, er enghraifft, mae'n bosibl i'r athro/athrawes gyflwyno gwybodaeth ar lafar yn Gymraeg a Saesneg, ac annog y dysgwyr i drafod yn y Gymraeg. Hefyd cyfeirir at ddefnyddio technoleg yn greadigol wrth addysgu a dysgu Cymraeg ag ieithoedd tramor modern, ac unwaith eto, mae gweithgareddau trawsieithu'n galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio technoleg i gywain gwybodaeth mewn sawl iaith, a'i brosesu mewn iaith arall. Argymhellwyd bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn rhannu arfer gorau a chefnogi ysgolion cyfrwng Saesneg i godi safonau addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a gall athrawon dwyieithog gynnig hyfforddiant i athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ynglŷn ag arferion trawsieithu.

Mae neges glir ynglŷn â datblygu hyder y dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau o fewn a thu allan i'r ysgol, a dywedwyd bod angen meithrin hyder mewn plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith, nid yn unig mewn gwersi ond hefyd mewn gweithgareddau a sefyllfaoedd mewn bywyd go iawn y tu allan i'r ystafell ddosbarth a'r ysgol (Llywodraeth Cymru, 2015:60). Daw'r adroddiad i'r casgliad bod angen cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfeiriad at y Gymraeg fel cyfrwng addysgu a chyflwyno strategaethau fel trawsieithu. Cyfeiriwyd at wella cymhwysedd yn y Gymraeg yn y gweithlu, a chysylltir hyn â'r Fargen Newydd ac adolygiad yr Athro Furlong (Furlong, 2015) o addysg gychwynnol athrawon.

Addysgu Athrawon Yfory (Furlong, 2015)

Ym mis Mawrth 2014, penodwyd yr Athro John Furlong i ystyried y newidiadau sydd eu hangen i wella Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru yn dilyn adolygiad gan yr Athro Ralph Tabberer yn 2013 ynghylch safon a chysondeb hyfforddiant athrawon. Honnodd Furlong (2015:42) bod addysg athrawon yng Nghymru heddiw wedi cyrraedd trobwynt tyngedfennol. Mae'r adroddiad, *Addysgu Athrawon Yfory,* yn nodi'r prif heriau sydd yn wynebu'r sector addysg gychwynnol athrawon, a chynigir amryw o opsiynau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth. Cyfeirir yn benodol at bwysigrwydd gweithgaredd ymchwil i wella ansawdd y ddarpariaeth drwyddi draw, a nodwyd bod angen 'ymchwil i lywio rhaglenni addysg athrawon mewn sawl ffordd: yn yr wybodaeth sy'n sail i'r cynnwys, wrth ddylunio rhaglenni ac wrth baratoi darpar athrawon i fod yn ddefnyddwyr beirniadol *ar* ymchwil yn ogystal ag yn gyfranogwyr *mewn* ymchwil.

Gan hynny, mae datblygu a chynnal capasiti ymchwil yn y system addysg athrawon yn hanfodol, ar gyfer y cynnwys ac ar gyfer proses addysg athrawon ei hun' (Furlong, 2015:36).

Mae'r adroddiad hwn (Furlong, 2015) yn annog darpar athrawon i fyfyrio'n feirniadol ar fethodoleg addysgu a dysgu dwyieithog, yn ogystal â chynnig arweiniad ynglŷn â chyfrannu mewn ymchwil cyffelyb. Eglurodd Furlong (2015: 7) bod angen math newydd o broffesiynoldeb ymysg athrawon Cymru, a chyfeiriwyd at athrawon sydd â disgwyliadau uchel o ran cyrhaeddiad eu holl ddisgyblion ac ymroddiad iddo; sy'n cymryd cyfrifoldeb dros arloesi; sy'n gallu gwerthuso a defnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth sy'n berthnasol i welliannau mewn arferion; sy'n fodlon gweithio mewn cydweithrediad ag athrawon eraill a gweithwyr proffesiynol eraill o ddydd i ddydd ac wrth ddatblygu eu harferion; ac sy'n fodlon ac yn abl i weithio mewn ffyrdd sy'n elwa ar yr arferion gorau ar draws y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae ymgymryd â gweithgaredd ymchwil i addysgu dwyieithog, ac yn benodol i drawsieithu yn un ffordd i sicrhau bod darpar athrawon yn cymryd cyfrifoldeb dros arloesi, yn adnabod anghenion dysgwyr unigol ac yn cael cyfleoedd i gydweithio ag athrawon eraill yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg

Ym mis Mawrth 2015, cyflwynodd y cyn-weinidgog addysg, Huw Lewis 'Y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg', sef strategaeth i gynorthwyo a chefnogi ymarferwyr i ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau sydd o'u blaenau. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus, a'r angen i rannu arferion da er mwyn gwella canlyniadau dysgwyr. Yn ôl Huw Lewis, amcan y Fargen Newydd ydyw galluogi athrawon a staff cymorth yng Nghymru:

> … i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol strwythuredig o'r radd flaenaf er mwyn datblygu eu harferion. Bydd y cyfleoedd hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion drwy ddulliau y maent yn rhoi'r gwerth mwyaf arnynt ac y profwyd eu bod yn effeithiol iawn wrth wella canlyniadau dysgwyr.
> Yn gyfnewid am hyn, byddaf yn gofyn i bob ymarferydd fanteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu eu harferion proffesiynol eu hunain, rhannu'r arferion hyn a chyfrannu at ddatblygu eraill.
>
> (Ffynhonnell: http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2015/newdealeducation/?lang=cy)

Mae egwyddorion y Fargen Newydd yn berthnasol yng nghyd-destun trawsieithu yn y dosbarth, er enghraifft, gall ymarferwyr sydd wedi cyflwyno trawsieithu'n llwyddiannus i ddatblygu dwyieithrwydd disgyblion rannu arferion da gydag ymarferwyr eraill sydd yn awyddus i ddatblygu dwyieithrwydd y dysgwyr yn eu gofal.

1.4 Ardrawiad ymchwil

Yn fras, cyflwynodd Jones (2010) amcanion Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru, yn ogystal â chanlyniadau cychwynnol y gwaith maes mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru. Trafodwyd model trawsieithu newydd a ddyfeisiwyd gan Jones a Lewis sef 'trawsieithu dan reolaeth yr athro' a 'thrawsieithu dan reolaeth y disgybl'. Mae Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b) yn trafod tarddiad trawsieithu yn ogystal â dadansoddi'r modelau trawsieithu a gyflwynwyd yn wreiddiol gan Jones (2010). Cyflwynwyd adolygiad o lenyddiaeth trawsieithu yn genedlaethol a rhyngwladol yn Lewis, Jones & Baker (2012a), a chyflwyniwyd dosbarthiad triphlyg gwreiddiol i egluro bod trawsieithu'n ymddangos mewn cyd destunau amrywiol yn cynnwys yr ystafell ddosbarth (*Classroom Translanguaging*), a'r gymdeithas ehanach (*Universal Translanguaging*). Mae trawsieithu yn wahanol i gyfieithu a chyfnewid cod (*codeswitching)*, a chyflwynodd Lewis, Jones & Baker (2013) a Jones & Lewis (2014) deipoleg addysg ddwyieithog yn ysgolion Cymru yn seiliedig ar arsylliadau mewn can gwers. Canolbwyntir yn Jones (2017) ar gynllunio ieithyddol ar lefel genedlaethol, leol ac ysgol gyfan a chyflwynir ymchwil gyfredol i drefniadau iaith (sef '*language arrangements'* yn ôl García, 2009) mewn dosbarthiadau ôl-16 yng Ngwynedd a Môn. Amlygir yn Jones (2017) fod angen ymchwilio ymhellach i ardrawiad cynllunio ieithyddol (ar lefel genedlaethol a lleol) o safbwynt gweithredu polisi addysg ddwyieithog yn yr ysgol.

Creda'r awdur bod ei gyhoeddiadau a drafodwyd yn yr adroddiad hwn wedi cyfrannu i faes ymchwil addysg ddwyieithog yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ar lefel academaidd ac ymarferol. Yr awdur, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Ymchwil Prosiect Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru, rhwng 2007 a 2012, oedd yn bennaf gyfrifol am gasglu a choladu'r holl ddata yn seiliedig ar waith maes mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru (Jones & Lewis, 2014). Mae'r cyhoeddiadau dan sylw wedi ysgogi ymateb gan ysgolheigion ym Mhrydain (er enghraifft, Lewis, 2011; Creese & Blackledge, 2015; Li Wei & Hua, 2013 a Thomas & Mennen, 2014) ac yn rhyngwladol (er enghraifft, García & Li Wei, 2014; Palmer et al*.,* 2014; Heugh, 2015; Paulsrud, 2014; Hibert & van der Walt, 2014 a Velasco & García, 2014).

Ar lefel academaidd, ystyria'r awdur mai prif gyfraniad y cyhoeddiadau yw'r modd y llwyddwyd i gyflwyno ac ehangu'r drafodaeth ynglŷn â methodoleg addysgu a dysgu dwyieithog, ac yn arbennig y canfyddiadau ynglŷn â'r defnydd o drawsieithu yn y dosbarth. Yn wir, mae'r cyhoeddiadau hyn (Lewis, Jones & Baker, 2012a, 2012b) wedi ymestyn y cysyniad o drawsieithu fel addysgeg o fewn dosbarthiadau dwyieithog yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd ynglŷn â tharddiad a datblygiad trawsieithu (Lewis, Jones & Baker, 2012a, 2012b) wedi annog trafodaethau

academaidd ar lefel genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac wedi ysgogi eraill i ymestyn a chymhwyso'r model gwreiddiol o drawsieithu sef defnyddio un iaith ar gyfer y medrau goddefol (gwrando, darllen) ac iaith arall ar gyfer y medrau gweithredol (siarad, ysgrifennu) a gyflwynwyd gyntaf gan Williams (1996, 2000, 2002).

Ar lefel ymarferol, cynhaliwyd pedair cynhadledd i athrawon oedd yn gysylltiedig â'r Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru, ac roedd yr adborth a dderbyniwyd gan y cynadleddwyr ynglŷn â thrawsieithu gyda disgyblion dwyieithog hyfedr a datblygol yn ddefnyddiol ar gyfer y cyhoeddiadau a drafodir yn yr adroddiad hwn. Yn 2010, gwahoddwyd cynrychiolwyr o bob ysgol oedd yn rhan o'r Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru (gweler lleoliadau'r ysgolion yn Ffigwr 2) i fynychu a chyfrannu i gynhadledd unai yn Ystalyfera neu ym Mangor. Cafodd y cynadleddwyr gyfleoedd i gyflwyno arferion da o safbwynt hyrwyddo dwyieithrwydd, er enghraifft, drwy gyflwyno tasgau trawsieithu, trafod polisi iaith a dyraniad iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn 2012, cynhaliwyd cynhadledd yng Nghaerdydd ac ym Mangor i rannu canfyddiadau'r ymchwil gydag athrawon a sefydliadau perthnasol eraill fel colegau hyfforddi athrawon, Estyn a CBAC. Cyflwynwyd gwefan Addysg Ddwyieithog yn Ysgolion Cymru (gweler Adran 3.7) oedd yn cynnwys deunydd hyfforddiant ar gyfer athrawon, a chytunodd grŵp o athrawon a phenaethiaid ysgolion ledled Cymru i gyfrannu drwy gyfrwng fideo (er enghraifft, drwy drafod gwahanol fodelau o drawsieithu a chynllunio dyraniad iaith yn yr ysgol).

Cymeradwywyd y math yma o weithgaredd yn y gwerthusiad terfynol (Jones, 2013) o'r Ganolfan ESRC dros Ymchwil i Theori ac Ymarfer Dwyieithrwydd, rhwng 2007 a 2012. Dywed Jones (2013) bod y grwpiau ymchwil yn gyffredinol wedi cyfrannu ar lefel academaidd ac ymarferol, a chyfeiriwyd yn benodol at y rhyngweithio rhwng yr ymchwilwyr gydag ymarferwyr yn y byd addysg:

- *All Research Groups have contributed extensively to knowledge transfer within the academic community.*
- *The strength of the survey and ethnographic group was their significant engagement with policy-makers and practitioners across each of their (mostly educational) studies. (p.3)*
- *The Centre's contribution to academic research capacity building has been very effective… there were examples of direct impact and relevance of some research to some policy-makers and practitioner groups in Wales… (p.4)*

Mae'r sylwadau uchod yn cefnogi honiadau'r awdur fod yr ymchwil a drafodwyd yn yr adroddiad hwn (Jones, 2010, 2017; Lewis, Jones & Baker, 2012a, 2012b, 2013 a Jones & Lewis, 2014) wedi cyfrannu'n dda i'r maes ar lefel academaidd yn ogystal â chyfrannu'n ymarferol o safbwynt cyflwyno canfyddiadau mewn cynadleddau cenedlaethol (gweler Adran 4 o'r adroddiad hwn).

1.5 Crynodeb

Yn rhinwedd yr hyn a nodwyd uchod, ystyria'r awdur bod yr ymchwil a gyflwynwyd yn y cyhoeddiadau dan sylw yn gyfraniad gwreiddiol i'r maes o safbwynt:

i. Cyflwyno arolwg cenedlaethol (gyntaf o'i bath) o fethodolegau addysgu a dysgu dwyieithog yng Nghymru yn seiliedig ar ymchwil mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru (Lewis, Jones & Baker, 2013 a Jones & Lewis, 2014).

ii. Llunio 'Teipoleg Addysg Ddwyieithog yng Nghymru' a gyflwynwyd ar wefan 'Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru'. Gweler:
http://www.bangor.ac.uk/bilingualism/besw.php.cy
http://www.bangor.ac.uk/bilingualism/besw.php.en

iii. Cyflwyno Teipoleg o Drefniadau Iaith yn y Dosbarth (Lewis, Jones & Baker, 2012a, 2013; Jones & Lewis, 2014), a dadansoddi gwahanol fodelau o 'addysg ddwyieithog' yng nghyd-destun ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru;

iv. Cyhoeddi erthyglau academaidd yn egluro tarddiad trawsieithu yng Nghymru ac mewn cyd-destunau rhyngwladol (Jones, 2010; Lewis, Jones & Baker, 2012a; Jones & Lewis, 2014);

v. Ehangu'r diffiniad gwreiddiol o drawsieithu (Williams, 1996, 2002) yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil mewn ysgolion ledled Cymru ac ymchwil rhyngwladol (García, 2009). Trafodwyd trawsieithu o safbwynt hyfedredd ieithyddol y disgyblion sef 'Trawsieithu ar gyfer disgyblion dwyieithog hyfedr' a 'Thrawsieithu ar gyfer disgyblion dwyieithog datblygol' (Jones, 2010; Lewis, Jones & Baker, 2012b, 2013; Jones & Lewis, 2014);

vi. Cyflwyno ‘Model Trawsieithu’ yn seiliedig ar gyfraniad yr athro a’r disgybl sef ‘Trawsieithu dan reolaeth yr athro’ a ‘Thrawsieithu dan reolaeth y disgybl’ (Jones, 2010; Lewis, Jones & Baker, 2012a; Jones & Lewis, 2014);

vii. Cynnig dadansoddiad meintiol (SPSS) ac ansoddol o’r defnydd o drawsieithu o fewn ystod o bynciau cwricwlaidd, ac o safbwynt gwahanol oedrannau’r disgyblion (Lewis, Jones & Baker, 2012b; Jones & Lewis, 2014);

viii. Cyflwyno termau newydd ar gyfer addysgeg trawsieithu, er enghraifft, ‘Ciwiau Trawsieithu’, ‘Sgaffaldiau Trawsieithu’, ‘Trawsieithu Rhyngbersonol Sylfaenol’, ‘Trawsieithu Academaidd Gwybyddol’ (Jones & Lewis, 2014, Jones, 2017);

ix. Trafod ffactorau allweddol o safbwynt cynllunio ieithyddol i hyrwyddo addysg ddwyieithog (Jones, 2010, 2017), ac adnabod meysydd pellach ar gyfer ymchwil addysg ddwyieithog yng Nghymru a thu hwnt (Jones, 2010; Jones & Lewis, 2014);

x. Cyflwyno deunydd hyfforddi athrawon (cyfrwng Cymraeg a Saesneg) yn deillio o’r cynadleddau cenedlaethol (Cynhadledd Ymchwil Addysg Ddwyieithog yn Ysgolion Cymru) a gynhaliwyd yn Ystalyfera a Bangor yn 2010, ac yng Nghaerdydd a Bangor yn 2012. Pwrpas y cynadleddau hyn oedd rhannu canfyddiadau’r ymchwil gyda’r holl ysgolion a gyfrannodd i’r Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru, yn ogystal â rhyngddeiliaid perthnasol eraill fel swyddogion Awdurdodau Addysg Lleol ac Estyn.

Bydd yr adran nesaf yn edrych ar gefndir y prif faes a drafodir yn yr adroddiad.

2. Cefndir ymchwil yr adroddiad

2.1 Trosolwg o'r maes ymchwil

Addysg ddwyieithog mewn ysgolion (cynradd ac uwchradd) cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru oedd maes yr ymchwil dan sylw, ac yn benodol, y modd mae athrawon yn trefnu iaith y cwricwlwm (dyraniad iaith) ac yn defnyddio gwahanol drefniadau iaith ('*language arrangements*') i ddatblygu dwyieithrwydd y disgyblion yn y dosbarth. Heblaw am ambell gyhoeddiad (er enghraifft, Williams, 2002; Jones & Martin-Jones, 2004), prin yw'r llenyddiaeth sy'n trafod ymchwil i arferion addysgu dwyieithog yn ysgolion Cymru yn y cyfnod diweddar. Serch hynny, mae ymchwil ar gael n trafod y berthynas rhwng dwyieithrwydd a deallusrwydd disgyblion ysgol yng Nghymru.

Cyfeiriodd Baker (2006:144-150) at dri chyfnod allweddol yng nghyd-destun hanes ymchwil i ddwyieithrwydd a deallusrwydd:

i. Cyfnod Effeithiau Niweidiol;
ii. Cyfnod Effeithiau Niwtral;
iii. Cyfnod Effeithiau Cynyddol.

Mae ymchwil y Cyfnod Effeithiau Niweidiol yn perthyn i'r cyfnod rhwng dechrau'r bedwaredd ganrif ar hugain a 60au y ganrif ddiwethaf; y consensws oedd bod dwyieithrwydd yn cael effaith "niweidiol" ar ddeallusrwydd. Er enghraifft, cyhoeddwyd *The Bilingual Problem* yn 1924, yn seiliedig ar ymchwil D.J. Saer i brofi deallusrwydd plant rhwng 7-14 oed mewn ardaloedd gwledig a threfol. Honnwyd bod plant unieithog yn fwy deallus nag plant dwyieithog mewn ardaloedd gwledig ond gwelwyd bod diffygion sylfaenol yn ymchwil Saer o safbwynt y sampl a ddefnyddiwyd, a dulliau dadansoddi'r ystadegau. Mae ymchwil y Cyfnod Effeithiau Niwtral, yn fras, yn perthyn i hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Yn gyffredinol, adroddwyd nad oedd gwahaniaeth amlwg rhwng siaradwyr unieithog a dwyieithog mewn profion deallusrwydd, er enghraifft, roedd ymchwil W.R. Jones (1959) yn cynnwys sasmpl o 2500 o blant rhwng 10-11 oed yn datgan nad oedd siaradwyr unieithog a dwyieithog yn gwahaniaethu yn amlwg ar brofion deallusrwydd an-ieithyddol ac ieithyddol (Baker, 2006:148). Yn y cyfnod hwn adroddwyd bod dosbarth economaidd-gymdeithasol wedi dylanwadu ar ganlyniadau negyddol yr ymchwil flaenorol. Yn y Cyfnod Effeithiau Cynyddol, ar ddechrau 60au y ganrif ddiwethaf, cyhoeddwyd canlyniadau ymchwil i ddwyieithrwydd a chyrhaeddiad academaidd gan Peal & Lambert (1962) ym Montreal, Canada. Eu bwriad oedd astudio effeithiau dwyieithrwydd ar berfformiad gwybyddol plant deg oed (o chwe ysgol Ffrengig ym Montreal); canolbwyntiwyd ar berthynas deallusrwydd, llwyddiant

academaidd ac ymagweddiad plant tuag at eu hail iaith. Bryd hynny y soniwyd gyntaf am effeithiau cynyddol (*additive*) dwyieithrwydd, a fyth ers hynny, mae maes dwyieithrwydd wedi datblygu, a'r galw am addysg ddwyieithog wedi cynyddu, yn ogystal â'r galw am ymchwil safonol yn y maes. Mae'n briodol nodi mai menter breifat gan nifer bychan o rieni Cymraeg yn Aberystwyth yn ystod yr ail ryfel byd oedd wrth wraidd sefydlu'r ysgol Gymraeg gyntaf (Lewis, 2016). Yn 1947, sefydlwyd yr ysgol Gymraeg gyntaf dan nawdd Awdurdod Addysg Lleol, sef Ysgol Gymraeg Llanelli. Yn 1956, sefydlwyd yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf, sef Ysgol Glan Clwyd, ac agorwyd Ysgol Rhydfelen, sef yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf yn y de, yn 1962.

Erbyn heddiw, mae addysg ddwyieithog (cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn y cyd-destun hwn) yn digwydd ar raddfa eang yng Nghymru (Jones & Martin-Jones, 2004; Lewis, 2008; Jones, 2010; Jones & Lewis, 2014, Llywodraeth Cymru, 2016b). Mae amrywiaeth sylweddol yn bodoli yn y ddarpariaeth addysg ddwyieithog, ac fel yn achos ieithoedd lleiafrifol mewn rhanbarthau eraill yn Ewrop (Cenoz & Genesee, 1998; Cenoz & Gorter, 2015) mae addysg ddwyieithog yng Nghymru yn gyfuniad o addysg iaith treftadaeth (Cymraeg Iaith Gyntaf, sef iaith a siaredir gartref) ac addysg drochi (Cymraeg ail iaith, sef iaith yr ysgol ond nid y cartref). Oherwydd bod addysg ddwyieithog ledled Cymru yn cael ei nodweddu gan "amrywiaeth caleidosgopig" (Baker, 1993), mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o dechnegau cyflwyno iaith mewn dosbarthiadau dwyieithog. Er bod "cymunedau dwyieithog ac amlieithog ledled Ewrop a'r byd yn cydnabod ein llwyddiant, ac yn ystyried y system addysg cyfrwng Cymraeg yn enghraifft o arfer orau i`w hefelychu" (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009:1), nodwyd droeon mai prin yw'r gwaith ymchwil i'r ddarpariaeth addysg ddwyieithog yng Nghymru. Er enghraifft, nid oes unrhyw ddata na thystiolaeth gynhwysfawr ar gael ynglŷn â dyrannu iaith (sef nodi cyfrwng iaith neu gyfuniad o ieithoedd) mewn ystafelloedd dosbarth dwyieithog yng Nghymru (Baker, 1993:25; Lewis, 2008:79 a Williams, 2002:5), a golyga hyn nad oes modd adnabod pa strategaethau sydd fwyaf (a lleiaf) effeithiol o ran datblygu dwyieithrwydd y disgyblion. Mae Amcan Strategol 4.5 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) yn cyfeirio at rôl allweddol ymchwil i fethodoleg addysgu a dysgu, a chysylltu ymchwil gydag arfer dda a hyfforddiant. Mae modd ystyried yr amcan hwn yng nghyd-destun Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru a drafodir yn yr adran nesaf.

2.2 Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru, 2007-2012

Yn 2007 cafwyd cyfle i ddiwallu'r galw am ymchwil i addysg ddwyieithog yng Nghymru pan sefydlwyd Canolfan ESRC dros Ymchwil i Theori ac Ymarfer Dwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor. Bwriad 'Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru' oedd cynnal yr arolwg cynhwysfawr cyntaf

o'i fath o ddulliau addysgu a dysgu dwyieithog mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg. Cafodd yr ymchwil ei lywio gan ddau gwestiwn:

(i) Sut y defnyddir dwy iaith ar gyfer addysgu a dysgu mewn dosbarthiadau dwyieithog Cymraeg / Saesneg?

(ii) A ellir canfod arferion cyffredin yn deillio o ddulliau o ddyrannu iaith yn yr ystafell ddosbarth?

Roedd tri cham i'r prosiect ymchwil:

(i) cynnal arolwg ac arsylwi dulliau gweithredu presennol yn y dosbarth yn arwain at deipoleg o strategaethau, wedi'u seilio ar dystiolaeth, ar gyfer dyrannu dwy iaith mewn dosbarthiadau mewn lleoliadau dwyieithog;

(ii) ymgynghori ag ymgynghorwyr ac ymarferwyr er mwyn diffinio strategaethau effeithiol ar gyfer dyrannu iaith;

(iii) cynhyrchu deunyddiau hyfforddi ar gyfer athrawon a hyfforddwyr athrawon er mwyn dangos strategaethau effeithiol ar gyfer dyrannu iaith yn y dosbarth. http://www.bangor.ac.uk/bilingualism/besw.php.cy

Bydd yr adran nesaf yn edrych yn fanylach ar fethodoleg yr ymchwil dan sylw.

2.3 Methodoleg ymchwil

Penodwyd yr awdur fel Prif Swyddog Ymchwil Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru, ac yn ogystal â chwblhau'r rhan helaeth o'r gwaith maes, roedd hefyd yn gyfrifol am goladu a dadansoddi'r data meintiol ac ansoddol. Rhwng mis Rhagfyr 2007 a Chwefror 2010, cwblhaodd yr awdur ac aelodau eraill o'r tîm Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog yn Ysgolion Cymru gyfanswm o gant o arsylwadau gwersi (Jones 81%, Andrews & Jones 5%, Jones & Lewis 10%, Andrews & Lewis 2%, Andrews 2%) mewn naw ar hugain o ysgolion ledled Cymru, yn adlewyrchu cefndiroedd cymdeithasol-ieithyddol gwahanol (gweler Ffigwr 2 o ran canran neu boblogaethau oedd yn siarad Cymraeg ymhob un o siroedd Cymru). Cwblhawyd pum deg pump o arsylwadau mewn deg o ysgolion uwchradd, a phedwar deg pump o arsylwadau mewn pedair ar bymtheg o ysgolion cynradd (Ffigwr 2).



Ffigwr 2: Lleoliadau Ysgolion Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru, 2007- 2012

Er mwyn mynd i'r afael â'r ffocws o addysgeg ddwyieithog, dewiswyd ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog lle defnyddiwyd y Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng addysgu mewn amrywiaeth o bynciau craidd a sylfaen (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007). Ni ymwelwyd ag ysgolion cynradd ac uwchradd lle cyflwynwyd y Gymraeg fel pwnc (ail iaith) yn unig. Roedd yr ymchwil yn ffocysu ar y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng addysgu ac nid yw hyn yn arferol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Ceir eglurhad pellach yn Lewis, Jones & Baker (2013:114) ynglŷn â sut y dewiswyd y sampl o ysgolion:

> *A purposive sample of 29 schools was carefully selected from throughout Wales. A wide mix of schools was chosen in order to encompass the following factors: the different local authorities of Wales, varied and diverse rural and urban sociolinguistic contexts, small and large schools and classes, primary and secondary schools, and different classroom composition mixtures of heritage language/second language learners/recent immigrants. To include transition across primary schools and secondary schools, there was a deliberate pairing of one secondary school and two feeder primary schools: one large urban primary school and one small rural primary school (representative of different sociolinguistic backgrounds, size, and number of teachers)… Such schools were selected from a population of 518 schools in Wales that operate bilingually (Welsh Assembly Government, 2009)… The selection of schools was essentially defined by wide information gathering that pinpointed teachers who used both languages in lessons on a regular basis. From initial enquiries and investigations (e.g., telephone interviews with schools, visits, and discussions with local authority officials), a purposive selection of schools was formed and contacted. Five schools declined to be involved in the research.*

Eglurwyd yn Lewis, Jones & Baker (2013: 115) sut y dewiswyd y gwersi i'w harsylwi:

> *Lessons were chosen by purposive sampling (Cohen, Manion & Morrison, 2011) within each school to generate evidence for language allocation that was cross disciplinary (across subject areas) as well as interdisciplinary. The lessons took into account varying ages and cognitive development; they also included the varying balances of children on the second language/first language continuum and varied language contexts (e.g., English newcomers to Welsh heartland areas, immersion classes where the majority of students are from English-language backgrounds and/or non-English backgrounds, classes where there is a mixture of first and second language Welsh-speaking children, and classes where the majority of children are from Welsh language backgrounds).*

Yn y fethodoleg (Cohen et al., 2011; BERA, 2011) defnyddiwyd amrywiaeth o offerynnau casglu data (Atodiad 8.10) er mwyn casglu'r dystiolaeth ansoddol a meintiol ehangaf bosibl, yn cynnwys y canlynol:

- cyfweliadau lled-strwythuredig gyda phrifathrawon, cydlynwyr iaith, athrawon a disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn ffocysu ar ddyraniad/defnydd iaith ar draws yr ysgol, dyraniad/defnydd iaith o fewn pynciau unigol yn y dosbarth, asesu, cefnogaeth ieithyddol ar gyfer grwpiau gwahanol o ddisgyblion, cyswllt cartref/cymunedol, hyfforddiant;

- arsylwi mewn dosbarthiadau (heb ymyrraeth gan yr ymchwilydd) gan ffocysu ar broffil iaith y disgyblion yn y dosbarth, iaith/ieithoedd yr athro/athrawes wrth gyfarch y dosbarth cyfan/grwpiau/unigolion, iaith/ieithoedd y disgyblion gyda'r athro/athrawes/efo'i gilydd mewn grwpiau bach/yn sgwrsio fel unigolion, addysgu iaith, rhesymau pam bod yr athro/disgybl yn newid iaith mewn gwersi, strategaethau ar gyfer defnyddio dwy iaith yn y dosbarth (e.e. ymgais i wahanu, cyfieithu, sgaffaldiau ar gyfer disgyblion nad ydynt yn rhugl, trawsieithu);

- arsylwi ysgol gyfan gan ffocysu ar ethos/amgylchedd Gymraeg yr ysgol a'r dosbarthiadau, proffil Cymraeg athrawon yr ysgol (yn cynnwys cymorthyddion, staff ategol), proffil Cymraeg holl staff eraill yr ysgol (e.e. cogyddion, glanhawyr), defnydd yr athro/athrawes o'r ddwy iaith gyda disgyblion mewn gweithgareddau heblaw dysgu (e.e. rheolaeth, disgyblaeth), iaith y buarth, defnydd technolegol o iaith, defnydd o wasanaethau cefnogi'r Gymraeg (e.e. athrawon bro), gweithredu'r Cwricwlwm Cymreig yn yr ysgol, tystiolaeth a gwybodaeth am ysgolion, e.e. adroddiadau arolygiadau Estyn (AEM), canlyniadau arholiadau, amserlen yr ysgol a dyraniad iaith ar draws y cwricwlwm, astudiaethau achos o ddosbarthiadau penodol, grwpiau ffocws/cynadleddau/ymgynghoriadau.

Rhan allweddol o'r arsylwi oedd dosbarthu pob un o'r can gwersi o ran defnyddio dwy iaith, a chyflwyno teipoleg (dosbarthiad) o drefniadau iaith mewn ysgolion dwyieithog yng Nghymru.

Mae'r sgediwl arsylwi (Atodiad 8.10) yn cynnwys gwybodaeth am strategaethau ar gyfer defnyddio dwy iaith yn y dosbarth, er enghraifft:

> Yn seiliedig ar **arsylliad dosbarth**, beth oedd strategaeth a defnydd yr athro/athrawes o safbwynt defnyddio **dwy** iaith yn y dosbarth: *(e.e. ymgais i wahanu; cyfieithu; trawsieithu; sgaffaldio ar gyfer disgyblion nad ydynt yn rhugl; disgyblion yn troi o'r Gymraeg i'r Saesneg).*

Roedd modd ychwanegu at y rhestr wreiddiol o strategaethau defnyddio dwy iaith yn ystod arsylwadau dosbarth, er enghraifft, gwelwyd nad oedd dwy iaith ar waith ymhob achos. Mewn rhai dosbarthiadau, roedd athrawon yn gwahanu ieithoedd, er enghraifft, defnyddio'r Gymraeg ar gyfer un wers wyddoniaeth a'r Saesneg ar gyfer y wers nesaf. Defnyddiwyd y pecyn ystadegol SPSS (*Statistical Packaging for the Social Sciences*) i goladu a dadansoddi'r data a arsylwyd yn y dosbarth (Atodiad 8.10). Defnyddiwyd cod i gynrychioli'r data, er enghraifft, dyma'r cod a ddefnyddiwyd ar gyfer defnydd iaith yr athro/athrawes yn y dosbarth:

1. Un iaith yn bennaf: disgyblion Cymraeg Iaith 1
2. Un iaith yn bennaf: disgyblion Cymraeg Iaith 2
3. Un iaith yn bennaf: cyfuniad disgyblion Cymraeg Iaith 1 a disgyblion Cymraeg Iaith 2
4. Trawsieithu
5. Cyfieithu: dosbarth cyfan
6. Cyfieithu: terminoleg cysylltiedig a'r pwnc
7. Cyfieithu: cefnogi disgybl Cymraeg Iaith 2
8. Cyfuniad o drefniadau iaith
9. Ymateb yr athro i iaith y disgybl

Yn ogystal â choladu'r data ar ffurf graffiau amrywiol (Atodiad 8.10), roedd y pecyn ystadegol SPSS yn caniatáu i'r awdur ddadansoddi'r data a gasglwyd, er enghraifft, gwelwyd cydberthynas rhwng newidynnau allweddol fel y defnydd o drawsieithu gydag oedrannau gwahanol (Tabl 4).

Tabl 4: *Nine fold classroom arrangement compared with age group of pupils* (Jones & Lewis, 2014)

Table 7.6 Nine fold classroom language arrangement compared with age group of pupils

Language Arrangement (LA)		*Age Group (AG)*					*Total*
		3–7 years	7–11 years	11–14 years	14–16 years	16–18 years	
Monolingual L1 Welsh	N Lessons	4	0	1	0	0	5
	% within LA	80.0%	0.0%	20.0%	0.0%	0.0%	100.0%
	% within AG	23.5%	0.0%	4.2%	0.0%	0.0%	5.0%
Monolingual L2 Welsh	N Lessons	2	0	0	0	0	2
	% within LA	100.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	100.0%
	% within AG	11.8%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	2.0%
Monolingual mixed L1/L2	N Lessons	3	7	2	1	1	14
	% within LA	21.4%	50.0%	14.3%	7.1%	7.1%	100.0%
	% within AG	17.6%	25.0%	8.3%	4.3%	12.5%	14.0%
Translanguaging	N Lessons	1	9	4	2	2	18
	% within LA	5.6%	50.0%	22.2%	11.1%	11.1%	100.0%
	% within AG	5.9%	32.1%	16.7%	8.7%	25.0%	18.0%
Translation for the whole class	N Lessons	1	2	6	6	2	17
	% within LA	5.9%	11.8%	35.3%	35.3%	11.8%	100.0%
	% within AG	5.9%	7.1%	25.0%	26.1%	25.0%	17.0%
Translation – subject-related terminology	N Lessons	0	2	6	5	1	14
	% within LA	0.0%	14.3%	42.9%	35.7%	7.1%	100.0%
	% within AG	0.0%	7.1%	25.0%	21.7%	12.5%	14.0%
Translation for L2 learner	N Lessons	5	3	0	3	0	11
	% within LA	45.5%	27.3%	0.0%	27.3%	0.0%	100.0%
	% within AG	29.4%	10.7%	0.0%	13.0%	0.0%	11.0%
Combinations of concurrent two language use	N Lessons	1	3	3	6	1	14
	% within LA	7.1%	21.4%	21.4%	42.9%	7.1%	100.0%
	% within AG	5.9%	10.7%	12.5%	26.1%	12.5%	14.0%
Teacher's response to language input of the pupil	N Lessons	0	2	2	0	1	5
	% within LA	0.0%	40.0%	40.0%	0.0%	20.0%	100.0%
	% within AG	0.0%	7.1%	8.3%	0.0%	12.5%	5.0%
Total	N Lessons	17	28	24	23	8	100
	% within LA	17.0%	28.0%	24.0%	23.0%	8.0%	100.0%
	% within AG	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%	100.0%

Trafodwyd cyfyngiadau'r fethodoleg yn Lewis, Jones & Baker (2013), er enghraifft, eglurwyd bod y gwahanol fathau o drefniadau iaith o fewn y dosbarth yn berthnasol ar gyfer Cymru ond efallai'n amherthnasol ar gyfer gwledydd eraill sydd ddim yn cyflwyno addysg ddwyieithog yn cynnwys iaith leiafrifol ac iaith fwyafrifol. Pwysleisiwyd arwyddocâd cyd-destun y ddarpariaeth ddwyieithog yng Nghymru (h.y. mae addysg ddwyieithog yng Nghymru'n golygu datblygu sgiliau mewn iaith leiafrifol sef y Gymraeg ac iaith fwyafrifol sef y Saesneg), ac nid yw'r cyd-destun ieithyddol hwn yn addas mewn

cymunedau dwyieithog ac amlieithog eraill sydd yn cyflwyno addysg ddwyieithog o safbwynt dwy iaith fwyafrifol (er enghraifft, y Saesneg a'r Sbaeneg mewn ysgolion yn Efrog Newydd):

> *Thus, the typology may not fit bilingual education in other contexts, countries or continents. While the methodology to obtain such a typology is regarded as original and potentially impactful in Wales, the generalizability of the typology outside Wales is likely to be limited.*
>
> (Lewis, Jones & Baker, 2013: 117)

Dim ond ysgolion oedd yn rhan o'r ymchwil, ac mae'n bwysig gwybod beth sydd yn digwydd mewn sefydliadau cyn-ysgol (sector nas cynhelir) yn ogystal â cholegau addysg bellach ac uwch er mwyn deall cyd-destun yr ysgolion yn llawn. Dylid cofio mai nifer cyfyngedig o ysgolion a ymwelwyd â hwy, ac nid oedd yn sampl mympwyol. Er enghraifft, nid oedd yr ymchwil yn edrych ar addysg ddwyieithog mewn ysgolion cyfrwng Saesneg lle y cyflwynir Cymraeg ail iaith fel pwnc. Er bod y deipoleg o drefniadau iaith mewn dosbarthiadau dwyieithog yn wreiddiol ac yn seiliedig ar ymchwil yn hytrach nag rhagdybiaeth, mae presenoldeb yr ymchwilydd yn gallu dylanwadu ar yr hyn a gyflwynir, fel yr eglurodd Lewis, Jones & Baker (2013):

> *…there is a sense in which every lesson is unique and highly individual, containing a dynamic of that moment and an interaction of actors with an audience of one or two researchers who may have affected the performance.*
>
> (Lewis, Jones & Baker, 2013: 118)

Yn yr adran nesaf cyflwynir trafodaeth feirniadol o'r cyhoeddiadau yn nhrefn dyddiadau cwblhau'r gwaith (Jones, 2010; Jones & Lewis, 2014; Lewis, Jones & Baker, 2013, 2012a, 2012b a Jones, 2017) yn hytrach nag yn ôl trefn dyddiadau cyhoeddi (Jones, 2010; Lewis, Jones & Baker, 2012a, 2012b, 2013; Jones & Lewis, 2014 a Jones, 2017) er mwyn dangos y datblygiad cysyniadol o safbwynt llunio teipoleg o drefniadau iaith mewn dosbarthiadau dwyieithog.

3 Cyfraniad y cyhoeddiadau i'r maes

Yn yr adran hon ceir trafodaeth ynglŷn â phob cyhoeddiad yn unigol gan ystyried yr agweddau canlynol:

1. Cefndir y cyhoeddiad;
2. Cyfraniad y cyhoeddiad i'r maes;
3. Beirniadaeth o'r cyhoeddiad.

3.1 Cyhoeddiad 1: Jones, B. (2010). Amrywiaeth Caleidosgopig: addysg ddwyieithog yng Nghymru heddiw. *Gwerddon*, Rhifyn 5, Ionawr 2010, tt.9-26.

3.1.1 Cefndir Cyhoeddiad 1

Amcan Jones (2010) oedd adrodd ar amcanion Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru a sefydlwyd ym Medi 2007 yng Nghanolfan Ymchwil ESRC i Ddwyieithrwydd mewn Theori ac Ymarfer, Prifysgol Bangor. Yn dilyn cyfweliadau/arsylwadau mewn ysgolion uwchradd a chynradd dwyieithog ledled Cymru rhwng 2007 a 2009, mae'r cyhoeddiad hwn yn egluro amcanion a methodoleg y prosiect ymchwil dan sylw, cyn symud ymlaen i drafod rhai canfyddiadau cychwynnol. Eglurwyd bod amrywiaeth sylweddol yn y ddarpariaeth addysg ddwyieithog yn ysgolion Cymru, ac fel yn achos ieithoedd lleiafrifol rhanbarthau eraill yn Ewrop (Cenoz & Genesee, 1998; García,2009; Baker, 2011) pwysleisiwyd bod addysg ddwyieithog yng Nghymru yn gyfuniad o addysg iaith treftadaeth/cynnal (Cymraeg Iaith 1) ac addysg drochi (Cymraeg Iaith 2).

Nododd Jones (2010) bod galw cyson yn y gorffennol am ddiffiniad cliriach o'r hyn a olygwyd wrth 'addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog' a chyfeiriwyd at Redknap (2006:11) a Lewis (2008:78) i gefnogi hyn. Pwysleisiodd Jones (2010) nad oes defnydd cyson o labeli fel 'cyfrwng Cymraeg', 'dwyieithog', 'traddodiadol Cymraeg', a 'naturiol Cymraeg' mewn ysgolion ledled Cymru. Cyfeiriodd Jones (2010) at ystadegau Cyfrifiad 2001 ynglŷn â niferoedd siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn ogystal â'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007a). Eglurodd Jones (2010) mai yn Hydref 2007, gyda chyhoeddiad y ddogfen *Diffinio Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007b), cafwyd diffiniadau newydd i ddisgrifio cefndir ieithyddol ysgolion Cymru a oedd yn tanlinellu'r angen amlwg am ymchwil cyfredol yn y maes.
Rhestrodd Jones (2010) y pum categori a ddefnyddiwyd ar gyfer ysgolion cynradd fel a ganlyn:

1. Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg
2. Ysgol Gynradd Ddwy Ffrwd
3. Ysgol Gynradd Drawsnewidiol cyfrwng Cymraeg ond â defnydd sylweddol o'r Saesneg
4. Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg
5. Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf

Cyfeiriodd Jones (2010) at bedwar categori yng nghyd-destun ysgolion uwchradd sef:

1. Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg
2. Ysgol Uwchradd Ddwyieithog Categori 2A/Categori 2B/Categori 2C/Categori 2CH
3. Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg
4. Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf

Roedd y Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru yn canolbwyntio ar ysgolion cynradd ac uwchradd o fewn categorïau 1 a 2 yn unig oherwydd dyma ble y defnyddiwyd y Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng addysgu. Eglurodd Jones (2010) bod angen ymchwil pellach i ganfod os oes addysgu a dysgu dwyieithog yn digwydd yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn ogystal â chyflwyno cefndir y prosiect ymchwil ymdrechodd Jones (2010) i gyflwyno rhai o ganfyddiadau cychwynnol yr ymchwil, a thrafodir hyn yn yr adran nesaf.

3.1.2 Cyfraniad Cyhoeddiad 1 i'r maes

Cyflwynodd Jones (2010) gipolwg o ganfyddiadau cychwynnol Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru, a chyfeiriwyd yn benodol at y canlynol:

(i) Amrywiaeth ac 'amrywiaith'

Cyfeiriodd Jones (2010) at Baker (1993:15) a fathodd yr ymadrodd bachog 'amrywiaeth caleidosgopig' i ddisgrifio addysg ddwyieithog yng Nghymru, ac nad yw'n bosibl cwmpasu'r holl fodelau o addysg ddwyieithog o fewn teipoleg (dosbarthiad) syml:

> *… the kaleidoscopic variety of bilingual education practice in Wales makes the production of a simple typology inherently dangerous … No existing typology of bilingual education in Wales captures the full kaleidoscope of colours that exists.*

Cyflwynodd Jones (2010) y termau '**amrywiaeth'** (o ran methodoleg addysgu a modelau cynllunio) ac **'amrywiaith'** (o ran proffil ieithyddol y disgyblion) i gyfleu'r 'amrywiaeth caleidosgopig' o ymarfer dwyieithog a amlygwyd yn yr ysgolion oedd yn rhan o'r Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru. Eglurodd Jones (2010) bod y mwyafrif o'r dosbarthiadau yn cynnwys disgyblion o gefndir ieithyddol amrywiol, er enghraifft, siaradwyr Cymraeg I1 ac I2, a siaradwyr nad oedd y Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Er mwyn tanlinellu'r cysyniad o 'amrywiaeth' ac 'amrywiaith' ymhellach cyfeiriodd Jones (2010) at waith Brentnall (2009:21) sydd wedi egluro bod angen cynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion addysgol dysgwyr o leiafrifoedd ethnig sy'n dysgu iaith neu ieithoedd ychwanegol. Cytunodd Jones (2010) gyda Brentnall (2009:21) bod angen hyfforddi athrawon i ddygymod â her a sialens yr ystafell ddosbarth amlieithog, ac roedd Jones (2010) yn rhagweld bod hyn yn un o ganfyddiadau cychwynnol yr ymchwil dan sylw, ac yn atgyfnerthu sylwadau blaenorol Brentnall (2009) ynglŷn â sicrhau bod cyflenwad digonol ac addas o athrawon ar gael i addysgu'n ddwyieithog.

(ii) Dyraniad iaith (cynllunio ieithyddol) ar draws y cwricwlwm

Pwysleisiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) mai un o'r ystyriaethau allweddol o ran hyrwyddo dwyieithrwydd yw natur y cydbwysedd ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, a dwyster y mewnbwn cyfrwng Cymraeg sydd ei angen er mwyn i ddisgyblion fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg dros amser. Er bod Lewis (2006) eisoes wedi cyflwyno'r cysyniad o 'ddyraniad iaith' (sef cynllunio ieithyddol ar lefel ysgol), cyfeiriodd Jones (2010) ymhellach at yr angen i gynnwys gwybodaeth ynglŷn â dyraniad iaith o fewn polisi iaith ysgol gyfan er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu sgiliau dwyieithog. Cyflwynodd Jones (2010) ran o gyfweliad gyda Phennaeth ysgol gynradd (lle'r oedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn ddysgwyr Cymraeg), i enghreifftio bod cynllunio ieithyddol bwriadus ar draws yr ysgol yn hyrwyddo dwyieithrwydd y disgyblion:

> Y peth allweddol ynglŷn â'r ysgol ydy'r Dosbarth Derbyn … mae'r plant yn cael eu trochi … 'dan ni'n torri asgwrn cefn y gwaith, oherwydd unwaith mae'r plant yn dechrau caffael yr iaith ac rydan ni'n gobeithio erbyn tua'r Pasg yn y Dosbarth Derbyn, bod nhw'n torri drwodd i gynnal sgyrsiau syml, mae 'na eirfa yn adeiladu, ac maen nhw'n torri trwodd i siarad tua'r Pasg yn gymharol rwydd. Y mwyafrif llethol ohonyn nhw … Ym Mlwyddyn Un mae'r Saesneg yn ymddangos yn y cwricwlwm, yna petaech chi'n gofyn imi roi canran, tua phump ar hugain i ugain y cant. Mae'n ymddangos mewn gwersi llafar yn benodol mewn storïau a thrafodaethau'n ymwneud â storiâu yn hytrach nag mewn gwaith ysgrifennu â gogwydd mwy academaidd iddo fo. Ond wrth gwrs mae'r Saesneg yn iaith gyntaf i'r mwyafrif, beth bynnag felly. Ym Mlwyddyn Dau mae'r hafaliad yn symud i 30:70 a'r Gymraeg helaethaf. Yna ym Mlwyddyn Tri i Flwyddyn Chwech yn gweithredu 50:50. O ran Cyfnod Allweddol Dau mae'n haws ei esbonio yn y fan honno. Yr esboniad fyddan ni'n rhoi o'r defnydd o'r Gymraeg ydy mai cyfrwng addysgol ar draws y cwricwlwm ydy'r Gymraeg. A bod yr iaith yn tyfu drwy gael ei defnyddio mewn sefyllfa drawsgwricwlaidd. A dyna ydy'r nod felly … nid pwnc wedi'i ynysu ydy o … mae'n cael ei ddefnyddio yn drawsgwricwlaid.

Cynlluniwyd y ddarpariaeth ieithyddol gyda'r nod o alluogi disgyblion i ddod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, a sicrhawyd bod dysgwyr y Gymraeg yn cael digon o fewnbwn cyfrwng Cymraeg i'w galluogi i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae'r dystiolaeth a gyflwynodd Jones (2010) yn gyfraniad gwreiddiol i'r maes o ran amlygu'r modd y dyrannwyd iaith mewn ysgol gynradd ddwyieithog yng Nghymru:

Mae'r data ansoddol a gyflwynodd Jones (2010) ynglŷn â dyraniad iaith a'r angen i sicrhau mewnbwn digonol o safbwynt y Gymraeg, yn cefnogi ac yn cyfoethogi ymchwil seico-ieithyddol yn y maes (er enghraifft, Rhys & Thomas, 2013 a Thomas et al., 2013). Mae angen mewnbwn cyson yn y Gymraeg ar ddysgwyr ifanc i sicrhau eu bod yn datblygu eu sgiliau Cymraeg cystal â'r Saesneg.

(iii) Model Trawsieithu yn y Dosbarth

Awgrymodd Jones (2010) bod trawsieithu yn y dosbarth yn hyrwyddo sgiliau darllen, deall a chrynhoi'r disgyblion oherwydd eu bod yn darllen deunydd academaidd ac yn egluro'r cynnwys mewn iaith wahanol. Eglurodd Jones (2010) mai methodoleg a ddefnyddiwyd yn gynyddol yw trawsieithu lle mae'r mewnbwn (gwrando a/neu ddarllen) a'r allbwn (ysgrifennu a/neu siarad) yn fwriadol mewn ieithoedd gwahanol. Cyfeiriodd Jones (2010) at honiad Williams (2002:47) mai strategaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi cael gafael eithaf da ar y ddwy iaith yw trawsieithu yn hytrach na dull i gyflwyno ail iaith yn y lle cyntaf. Serch hynny, cyflwynodd Jones (2010) Fodel Trawsieithu (Tabl 5) yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil, a chyfeiriwyd at y modd roedd yr athro yn cynllunio tasgau trawsieithu mewn rhai sefyllfaoedd (er enghraifft, gyda disgyblion 'dwyieithog datblygol' sef '*emergent bilinguals*' yn ôl García, 2009) yn ogystal â'r cyfleoedd a roddwyd i ddisgyblion dwyieithog hyfedr i gwblhau'r tasgau trawsieithu'n annibynnol.

Defnyddiodd Jones (2010) y termau canlynol i egluro'r Model Trawsieithu:

a. Trawsieithu dan reolaeth yr athro/athrawes
(gweithgaredd wedi'i gynllunio'n fwriadus gan yr athro/athrawes)

b. Trawsieithu dan reolaeth y disgyblion
(gweithgaredd heb ei gynllunio gan yr athro/athrawes)

Tabl 5: Model Trawsieithu yn y Dosbarth (Jones, 2010)

Model Trawsieithu	**Cyfrwng y Mewnbwn (medrau iaith goddefol: gwrando/darllen)**	**Cyfrwng yr Allbwn (medrau iaith gweithredol: siarad/ysgrifennu)**
Dan reolaeth yr athro/athrawes	Saesneg Cymraeg	Cymraeg (gan amlaf) Saesneg (gan amlaf)
Dan reolaeth y disgyblion	Saesneg Cymraeg	Dewis: Cymraeg a/neu Saesneg Dewis: Saesneg a/neu Gymraeg

Mae'r model hwn yn ymestyn y diffiniad gwreiddiol o drawsieithu (er enghraifft, Williams, 2002) gan gydnabod bod y disgyblion ar adegau'n penderfynu sut i gwblhau tasgau trawsieithu yn hytrach na dilyn cyfarwyddiadau'r athro yn unig. Nododd Jones (2010) bod angen ystyried yn ofalus pryd a pham y defnyddiwyd y naill fodel a'r llall. Honnodd Jones (2010) ar sail tystiolaeth ymchwil yn y dosbarth bod 'trawsieithu dan reolaeth y disgyblion' yn opsiwn gyda disgyblion sy'n gytbwys ddwyieithog, ac eglurwyd bod y disgyblion yn dewis cyfrwng iaith i gwblhau'r gwaith trafod ac ysgrifennu. Awgrymodd

Jones (2010) fod angen i athrawon benderfynu pa fodel trawsieithu sydd yn berthnasol ar gyfer y disgyblion yn y dosbarth gan nad ydy trawsieithu yn weithgaredd mympwyol.

Mae Jones (2010) yn cynnwys enghreifftiau o drawsieithu mewn dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 er mwyn egluro'r gwahaniaeth rhwng 'trawsieithu dan reolaeth yr athro' a 'thrawsieithu dan reolaeth y disgyblion'. Er enghraifft, cyfeiriodd Jones (2010) at wers daearyddiaeth ym Mlwyddyn 3 a 4 (yn cynnwys dau ar bymtheg o ddisgyblion Cymraeg I1 ac I2) i enghreifftio 'trawsieithu dan reolaeth yr athro'. Eglurodd Jones (2010) bod yr athrawes wedi gofyn i'r dosbarth gyd-ddarllen gwybodaeth Saesneg am Fasnach Deg ar wefan Oxfam, ac roedd hyn yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu eu sgiliau darllen yn y Saesneg, Gofynnodd yr athrawes beth oedd ystyr termau Saesneg fel *crops*, *harvested*, *chemicals* ac ymatebodd y disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cynigodd yr athrawes esboniad yn y Gymraeg ar gyfer ambell derm, er enghraifft, *environment*, *community*. Crynhowyd prif negeseuon y gwaith darllen yn y Gymraeg, a gofynnodd yr athrawes i'r holl ddisgyblion gwblhau taflen waith yn y Gymraeg i egluro pam bod cefnogi nwyddau Masnach Deg yn syniad da.

Cyflwynodd Jones (2010) enghraifft o 'drawsieithu dan reolaeth y disgyblion' mewn gwers hanes Cyfnod Allweddol Dau. Roedd grŵp o chwe disgybl (cymysgedd Cymraeg I1 a Chymraeg I2) rhwng naw ac unarddeg oed yn trafod arferion bwyta pobl Oes y Cerrig. Roedd holl aelodau'r grŵp yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac roeddent yn gweithio'n annibynnol heb fawr o gyswllt gyda'r athrawes. Eglurodd Jones (2010) bod y disgyblion wedi derbyn gwybodaeth cyfrwng Saesneg sef '*Diet and Eating Habits in the Stone-Age'* oddi ar y Rhyngrwyd, a chaniatawyd iddynt ddewis cyfrwng iaith ar gyfer cwblhau'r tasgau trawsieithu (gwaith trafod ac ysgrifennu). Roedd caniatáu i'r disgyblion reoli'r gwaith trawsieithu yn nodwedd newydd ar drawsieithu a amlygwyd yn gynnar yn yr ymchwil, a chafwyd trafodaethau ymhlith aelodau'r tîm (Colin Baker/Gwyn Lewis /Bryn Jones) ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd. Awgrymodd Bryn Jones y term '*Choice languaging*' i ddisgrifio tasgau trawsieithu a gwblhawyd yn annibynnol gan y disgyblion, ac yna fe'i cyflwynwyd fel '*Pupil-directed translanguaging*' gan Lewis (2008).

3.1.3 Beirniadaeth Cyhoeddiad 1

Er bod Jones (2010) wedi rhestru'r gwahanol gategorïau ieithyddol ar gyfer ysgolion a gyflwynwyd yn y ddogfen *Diffinio Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg* gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2007b), collwyd cyfleoedd i berthnasu'r wybodaeth i ganfyddiadau cychwynnol yr ymchwil. Yn bennaf, ni ystyriwyd pa fodel trawsieithu oedd fwyaf addas ar gyfer y gwahanol gategorïau o ysgolion, er enghraifft, efallai bod 'trawsieithu dan reolaeth y disgybl' yn addas ar gyfer 'Ysgol Gynradd Cyfrwng

Cymraeg', a 'thrawsieithu dan reolaeth yr athro' yn fwy addas ar gyfer 'Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond a defnydd sylweddol o'r Gymraeg' oherwydd bod y disgyblion angen cyfarwyddyd ynglŷn â sut i drawsieithu pan fo eu gafael ar y Gymraeg yn brin.

Creda'r awdur bod anawsterau'n gysylltiedig â diffiniadau'r llywodraeth ynglŷn â'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007b), er enghraifft, mae diffyg manylion ynglŷn â faint o Saesneg a gyflwynir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Hefyd nid oes cysondeb rhwng y categorïau cynradd ac uwchradd, er enghraifft, ni chyfeiriwyd at ysgol ddwyieithog yn y categorïau cynradd (Jones, 2015) er bod polisïau iaith ysgolion rhai awdurdodau (er enghraifft, Awdurdod Addysg Gwynedd) yn cyfeirio at ysgolion cynradd dwyieithog. Nododd Estyn (2014: 3) y defnyddiwyd sawl term ar gyfer ysgolion uwchradd lle defnyddiwyd y Gymraeg yn gyfrwng addysgu, er enghraifft, 'ysgolion Cymraeg', 'ysgolion dwyieithog', 'ysgolion traddodiadol Gymraeg' neu 'ysgolion naturiol Gymraeg':

> Nid yw'r termau hyn yn rhoi darlun clir o'r graddau y mae'r ysgolion yn addysgu drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg neu yn ddwyieithog. Nid yw'r categoreiddio swyddogol, gan gynnwys is-gategori 2A-Cham ysgolion dwyieithog, yn cael ei ddefnyddio yn gywir bob tro gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae rhai ysgolion a ddynodir yn gyfrwng Cymraeg yn cynnig llawer o bynciau drwy'r Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg i ddisgyblion. Estyn (2014: 3)

Cyfeiriodd Jones (2010) yn fras at nifer o'r materion a adnabuwyd eisoes gan Lewis (2006:26) fel ystyriaethau allweddol ym maes addysg ddwyieithog yng Nghymru a thu hwnt, er enghraifft, manteision ac anfanteision addysgu disgyblion Cymraeg I1 a Chymraeg I2 yn yr un dosbarth, sicrhau dilyniant ieithyddol o fewn ysgolion cynradd ac o'r sector cynradd i'r sector uwchradd, sicrhau bod canlyniadau ymchwil yn bwydo i hyfforddiant cychwynnol athrawon ac hyfforddiant-mewn-swydd. Serch hynny, nid oedd modd i Jones (2010) ar y pryd ystyried perthnasedd Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru yng nghyd-destun yr ystyriaethau allweddol dan sylw gan mai cyhoeddiad cychwynnol iawn oedd hwn.

Er bod Jones (2010) yn torri tir newydd o ran cyflwyno modelau o drawsieithu yn y dosbarth, mae angen ymchwil pellach i gefnogi honiadau bod trawsieithu yn fanteisiol o safbwynt datblygu sgiliau iaith a medrau gwybyddol y disgyblion. Er enghraifft, honnodd Estyn (2014:23) bod trawsieithu testunau'n datblygu medrau meddwl disgyblion yn sylweddol, yn datblygu eu Cymraeg ac yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r pwnc ond nid oes tystiolaeth o hyn gan Jones (2010).

Bydd yr adran nesaf yn trafod gwaith Jones & Lewis (2014), a cheir dadansoddiad o'r defnydd o drawsieithu yn y dosbarth cynradd ac uwchradd sydd yn llawer mwy ymestynnol na'r hyn gyflwynodd Jones (2010).

Cyfeiriadau:

Baker, C. (1993). Bilingual Education in Wales. In H. Baetens Beardsmore (ed.), 7–29, *European Models of Bilingual Education.* Clevedon: Multilingual Matters.

Brentnall, J. (2009). Pobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru sy'n dysgu iaith ychwanegol. *Trafodion Addysg: Iaith yn y Gymru Amlieithog, 25-46*. Bangor: Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Estyn, (2014). *Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog.* Caerdydd: Estyn.

Faltis, C. (1990). New directions in bilingual research design: the study of interactive decision making. In R. Jacobson & C. Faltis (eds.), *Language distribution issues in bilingual schooling.* Clevedon: Multilingual Matters Ltd.

Fishman, J.A. (1991). *Reversing language shift.* Clevedon: Multilingual Matters.

García, O. (2009). *Bilingual Education in the 21st Century: A Global Perspective.* Oxford: Wiley-Blackwell.

Hornberger, N.H. (2003). Continua of Biliteracy. In N.H. Hornberger (ed.) *Continua of biliteracy: An ecological framework for educational policy, research, and practice in multilingual settings.* Clevedon: Multilingual Matters.

Jones, B. (2010). Amrywiaeth Caleidosgopig: addysg ddwyieithog yng Nghymru heddiw. *Gwerddon,* Rhifyn 5, Ionawr 2010, tt.9-26.

Jones, B. & Lewis, G. (2014). Language Arrangements within Bilingual Education. In Thomas, E.M., & Mennen, I. (eds.), *Advances in the Study of Bilingualism*. Bristol: Multilingual Matters.

Jones, B. (2015b). Cyflwyniad llafar: 'Trawsieithu mewn ysgolion dwyieithog yng Nghymru: O'r fesen'. Canolfan dros Ymchwil Dwyieithrwydd, Prifysgol Bangor (04.06.2015).

Lewis, W.G. (2006). Addysg gynradd Gymraeg: her a chyfle yr unfed ganrif ar hugain. *Trafodion Addysg*: *Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog*, *21-35*. Bangor: Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Lewis, W.G. (2008). Current challenges in bilingual education in Wales. *Multilingualism and Minority Languages: Achievements and challenges in education, AILA Review 21*: 69–86. Amsterdam: John Benjamins Publishing Company.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007a). *Y Gymraeg yn yr ysgol 2007*, Bwletin Ystadegol 63/2007. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007b). *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009). *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Ymgynghoriad*, Dogfen Ymgynghori Rhif: 067/2009. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Peal. E. & Lambert, M. (1962). The relation of bilingualism to intelligence. *Psychological Monogruph*, 76 (546). 1-23.

Redknap, C. (2006). Addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog: camau tuag at strategaeth holistaidd. Yn *Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog*. Bangor: Trafodion Addysg.

Rhys, M. & Thomas, E. M. (2013). Bilingual Welsh-English children's acquisition of vocabulary and reading: implications for bilingual education. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 16 (6), 633-656.

Saer, D.J. (1923). The effects of bilingualism on intelligence. *British Journal of Psychology* 14, 25–38.

Thomas**,** E. M., Gathercole, V. C. M., & Hughes, E. K. (2013). Sociolinguistic influences on the Linguistic Achievement of Bilinguals: Issues for the Assessment of Minority Language Competence. In V. C. Mueller Gathercole (ed.), *Solutions for the Assessment of Bilinguals*. Clevedon: Multilingual Matters.

Williams, C. (2002). *Ennill Iaith: Astudiaeth o Sefyllfa Drochi yn 11–16 oed.* Bangor: Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes.

3.2 Cyhoeddiad 2: Jones, B., & Lewis, G. (2014). Language Arrangements within Bilingual Education. In Thomas, E.M. & Mennen, I. (eds.), *Advances in the Study of Bilingualism* (pp. 143-172). Bristol: Multilingual Matters.

3.2.1 Cefndir Cyhoeddiad 2

Er mai yn 2014 yr ymddangosodd cyhoeddiad Jones & Lewis (2014), roedd y gwaith wedi cychwyn yn 2010 pan gyflwynwyd cais gan un o aelodau Bwrdd Rheoli'r Ganolfan ESRC Dros Ymchwil i Theori ac Ymarfer Dwyieithrwydd i lunio cyfrol yn seiliedig ar weithgaredd ymchwil y Ganolfan. Yn y cynnig a gyflwynwyd i'r cyhoeddwyr awgrymodd Thomas (08/09/2010) y byddai'r bennod dan sylw yn dwyn y teitl '*Translanguaging in Bilingual Education*', ac yn rhannu canfyddiadau ymchwil mewn dosbarthiadau dwyieithog yng Nghymru:

> *Lewis, Jones, Baker, & Andrews: "Translanguaging in Bilingual Education"*
> *The chapter will introduce and explain the developing idea of translanguaging. It will share the results of a three-year piece of research regarding translanguaging in the bilingual classrooms of Wales.*

Yn dilyn trafodaethau pellach rhwng Andrews, Baker, Jones a Lewis penderfynwyd mai Jones a Lewis fyddai'n llunio'r bennod, gyda Jones yn gweithredu fel yr awdur cyntaf ac yn cwblhau rhan helaeth o'r gwaith. Yn y cyflwyniad i'r gyfrol '*Advances in the Study of Bilingualism'* cyfeiriodd Thomas & Mennen (2014: xxii) at amcan a chynnwys y bennod a gyflwynodd Jones & Lewis (2014) fel a ganlyn:

> *Chapter 7 highlights the ambiguity of terms used to describe the linguistic practices underway in bilingual schools by the example of Welsh-medium and bilingual Welsh-English schools in Wales and present an overview of language arrangements observed in 10 secondary schools and 20 primary schools that use both languages in their curriculum. In doing so, we focus on the implementation of one specific bilingual pedagogical tool– translanguaging – whereby the input language (i.e. the classroom/lesson resources – worksheets, book references, internet sources, etc.) is different from the output language (i.e. the end-product of the activity – written prose, oral presentation, class discussion, etc.), which encourages an active interaction of the two languages, across speakers and across modalities, within the same activity.* (Thomas & Mennen, 2014: xxii)

Dywedodd un o'r arfarnwyr academaidd (Atodiad 8.3.3) bod y bennod yn ddefnyddiol o ran deall y cymhlethdodau ieithyddol sydd yn bodoli o fewn dosbarthiadau dwyieithog a bod hyn yn gyfraniad allweddol i'r maes:

> *It was very instructive to read, and it reminds me of how much work we all need to do to understand some of the linguistic complexity that takes place in bilingual classrooms. This will be a huge contribution in that regard.*

Honnodd Renisk (2015) yn ei hadolygiad o Thomas & Mennen (2014) bod Jones & Lewis (2014) wedi egluro'n llwyddiannus sut y defnyddiwyd trawsieithu i ddatblygu sgiliau ieithyddol a gwybyddol disgyblion o gefndiroedd ieithyddol eang:

> *The chapter highlights the obstacles teachers and students face in a bilingual teaching/learning environment, one of the most prominent being that students differ in terms of proficiency in each language, but also convincingly shows how the implementation of translanguaging might help to overcome these obstacles. This tool refers to the pedagogical approach of using different input (e.g. worksheet, PowerPoint presentations, texts) and output languages (e.g. oral presentations, discussions). The authors suggest that translanguaging is not only a useful tool to improve students' language competence, but furthermore helps them to understand subject matters in a fuller and deeper way.*

Bydd yr adran nesaf yn cyfeirio ymhellach at gyfraniad gwaith Jones & Lewis (2014) i'r maes.

3.2.2 Cyfraniad Cyhoeddiad 2 i'r maes

O ganlyniad i'r ymchwil, cyflwynodd Jones & Lewis (2014) deipoleg yn dwyn y teitl '*Language Arrangements within Bilingual Classrooms in Wales'* (Tabl 6) i egluro'r gwahanol drefniadau iaith a arsyllwyd mewn dosbarthiadau dwyieithog cynradd ac uwchradd yng Nghymru rhwng 2007 a 2012. (Gweler eglurhad o'r ymadrodd '*language arrangements*' yn Adran 3.2.3). Cwblhawyd y deipoleg hon o drefniadau iaith yn 2012, ac yna fe'i haddaswyd fel '*Typology Based on Observation of the Use of Two Languages in a Classroom'* ar gyfer y bennod a ymddangosodd yn Lewis et al. (2013). Gall hyn ymddangos yn gamarweiniol i'r darllenydd gan mai'r fersiwn gyntaf o'r deipoleg a gyhoeddwyd yn 2014. Eglurwyd bod amryw o drefniadau iaith yn bresennol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, er enghraifft,

(i) cyflwynir rhai pynciau drwy gyfrwng un iaith a phynciau eraill drwy iaith arall,

(ii) cyflwynir modiwlau drwy gyfrwng un iaith a modiwlau eraill drwy iaith arall, a

(iii) defnyddir dwy iaith yn gyfochrog o fewn yr un wers (e.e. trawsieithu). Honnodd Jones a Lewis (2014) bod modd adnabod y mwyafrif o'r trefniadau iaith fel enghreifftiau o'r hyn a gyfeiriodd García (2009: 311) ato fel '*translanguaging practices in bilingual classrooms'*.

Mae'r deipoleg o drefniadau iaith (Tabl 6) sydd yn seiliedig ar ymchwil mewn dosbarthiadau dwyieithog yng Nghymru, yn amlygu'r arfer o wahanu yn ogystal â chyfuno dwy iaith yn y gwersi. Mae'r deipoleg yn cynnwys gwybodaeth ar dair lefel sef:

(i) trefniant iaith y dosbarth (e.e. trawsieithu),
(ii) iaith y dosbarth o safbwynt yr athro a'r disgybl (e.e. defnyddio un iaith yn bennaf),
(iii) cyd-destun y trefniant iaith
(e.e. defnyddio geiriaduron Cymraeg/Saesneg mewn gwersi cyfrwng Cymraeg).

Tabl 6: *Language Arrangements within Bilingual Classrooms in Wales* (Jones & Lewis, 2014)

Language Arrangements in Classrooms	*Typical Language of the Classroom*	*Typical Context of Language Arrangement in the Classroom*
Monolingual use of one language: L1 Welsh	Predominantly Minority Language	Predominantly Welsh: heritage bilingual education program
Monolingual use of one language: L2 Welsh	Predominantly Minority Language	Predominantly Welsh: Immersion education program
Monolingual use of one language in mixed L1/L2 classrooms	Predominantly Minority Language or Predominantly Majority Language	Predominantly Welsh instruction for L1 & L2 Welsh (or L1 & L2 English) in the same classroom.
Translation: Subject- related terminology	Bilingual terminology for the whole class	Use of Welsh-English dictionaries and glossaries in predominantly Welsh medium lessons.
Translation for L2 learner (L2 Welsh or L2 English)	Bilingual support for L2 learner	Support /scaffolding/ responsible code switching for individual pupils/groups: L2 Welsh or L2 English.
Teacher's response to language input of the pupil	Bilingual instruction for individuals /groups	Unplanned response: –teacher responds to language of pupils irrespective of target language –intrasentential switches Planned response: –teacher responds to L1 of pupils for example in dual-stream primary school – responsible code-switching to clarify lesson material
Translation (for the whole class)	Bilingual instruction for whole class	Teacher switches languages to explain subject content. Pupils use bilingual worksheets/textbooks. Translation in MFL lessons
Translanguaging	Bilingual instruction for whole class	Teacher-directed and pupil-directed. Pupils undertake activities where the input (receptive language skills) and output (productive language skills) is systematically varied.
Combinations of concurrent two language use for example translation and translanguaging	Bilingual instruction for whole class	Teacher uses more than one type of flexible concurrent language arrangement.

Notes:
Language of the Classroom refers to the language of instruction.
Responsible code-switching: teacher code-switching 'to clarify or reinforce lesson material' (Gárcia, 2009a: 299).
Dual-stream primary school: Welsh and English provision exists side by side.
Intrasentential switches (switches that occur within a sentence).
Teacher-directed translanguaging (with teacher support for emergent and competent bilinguals) and pupil-directed translanguaging (with minimum teacher support for competent bilinguals).
The above nine categories were legitimately aggregated into six main groups for further statistical analysis in Lewis *et al.* (2013).

Un nodwedd o'r ddarpariaeth addysg ddwyieithog yn ysgolion Cymru ydy'r arfer o wahanu ieithoedd ar gyfer datblygu dwyieithrwydd y disgyblion, er enghraifft, pan gyflwynir gwers wyddoniaeth yn

Gymraeg mewn un wers ac yn Saesneg yn y wers ddilynol. Nid oes trafodaeth ynglŷn â tharddiad yr arfer o wahanu ieithoedd yn y bennod dan sylw, ac mae angen ymchwil bellach i ganfod beth yw'r sail i'r arfer o wahanu ieithoedd yn arbennig mewn ysgolion uwchradd dwyieithog.

Cyflwynodd Jones & Lewis (2014) drafodaeth bellach ynglŷn â'r defnydd o drawsieithu yn y dosbarth a phwysleisiwyd bod oedran y disgyblion yn ffactor allweddol yn achos y defnydd helaeth o drawsieithu ymhlith disgyblion rhwng 7-11 oed. Awgrymwyd bod yn bosibl i ddisgyblion wneud llai o ddefnydd o drawsieithu yn yr ysgol uwchradd oherwydd bod modd iddyn nhw fynychu ffrwd cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg:

> *This result suggests that pupils in age range 7–11 years are encouraged to make flexible use of their bilingual skills as the emphasis is often on bilingual instruction for all pupils in the classroom. It is possible for some of these pupils to choose a particular language of instruction after transfer to some secondary schools (for example, move to either a Welsh stream or English stream) and therefore will possibly not have the same opportunity as in primary school to complete translanguaging activities.*
>
> (Jones & Lewis, 2014: 155)

Trafododd Jones & Lewis (2014) drawsieithu yng nghyd-destun gwahanol bynciau cwricwlaidd, a chyflwynwyd tystiolaeth feintiol drwy gyfrwng meddalwedd SPSS (gweler Atodiad 8.10.5) yn y bennod i gefnogi'r ddamcaniaeth bod athrawon yn tueddu i gyflwyno tasgau trawsieithu o fewn rhai pynciau yn fwy nag eraill:

> *The data points to the tendency for translanguaging to be a more prominent feature for some subjects more than others. Whereas translanguaging featured in only 16.7% of Mathematics and Science lessons, 5.6% in both Vocational and Practical and Inter-disciplinary (3–7 years), the percentage rose to 72.2% in the Arts and Humanities. This is a significant but not a surprising result as it can be argued that translanguaging is essential to complete specific tasks within some subjects for example L1 Welsh pupils interpreting English medium internet evidence in a geography lesson.* (Jones & Lewis, 2014: 157)

Mae Jones & Lewis (2014) yn cefnogi Baker (2010: 69) ynglŷn â'r tueddiad i gyflwyno pynciau fel hanes a daearyddiaeth drwy iaith leiafrifol ond mai Saesneg yn aml yw cyfrwng pynciau technolegol a'r gwyddorau. Dyma faes sydd angen ei ymchwilio ymhellach yn arbennig gyda dyfodiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r cyfle i astudio pynciau gwyddonol a mathemategol drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel Addysg Uwch.

Cyflwynodd Jones & Lewis (2014) drafodaeth gynhwysfawr ynglŷn â thrawsieithu fel addysgeg, a chyfeiriwyd yn benodol at y defnydd o drawsieithu gyda disgyblion dwyieithog hyfedr yn ogystal â disgyblion dwyieithog datblygol. Mae'r cyfeiriadau at addysgeg trawsieithu, er enghraifft, ciwiau trawsieithu, yn deillio o ganfyddiadau ymchwil yr awdur mewn gwersi dwyieithog (gweler 10.8.3 am

wybodaeth bellach). Eglurwyd bod y model trawsieithu (Tabl 7) a gyflwynodd Jones & Lewis (2014) yn manylu ymhellach ar y model gwreiddiol a gyflwynwyd yn gynharach gan Lewis (2008) a Jones (2010). Eglurodd Jones & Lewis (2014) nodweddion 'trawsieithu dan reolaeth yr athro' (e.e. sgaffaldiau ar gyfer disgyblion dwyieithog datblygol) a 'thrawsieithu dan reolaeth y disgybl' (e.e. dywedwyd bod y disgyblion yn dewis cyfrwng yr iaith sef Cymraeg neu Saesneg ar gyfer gwahanol foddau iaith h.y. siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu). Mae angen ymchwil pellach i ganfod faint o ddewis sydd gan ddisgyblion o safbwynt cwblhau tasgau trawsieithu yn y dosbarth gan fod angen ystyried ffactorau fel ansawdd ac ystod yr adnoddau sydd ar gael, testun y wers yn ogystal â hyfedr ieithyddol y disgyblion.

Tabl 7: *Models of translanguaging observed in the classroom* (Jones & Lewis, 2014)

Translanguaging Model	Input Medium (receptive language skills: listening / reading)	Output Medium (productive language skills: speaking / writing)
Teacher-directed:		
i.Translanguaging with teacher support (Translanguaging cues and scaffolding) for emergent bilinguals	English Welsh	Welsh English
ii Translanguaging with teacher support (translanguaging cues) for competent bilinguals	English Welsh	Welsh English
Pupil-directed:		
i. Translanguaging with minimum teacher direction undertaken by competent bilinguals – pupils choose how the receptive and productive language skills are systematically varied	English or English and Welsh e.g. listening in English and reading in Welsh	Welsh English and Welsh e.g. discussion in English and writing in Welsh
	Welsh or Welsh and English e.g. listening in Welsh and reading in English	English Welsh and English e.g. discussion in Welsh and writing in English

Ychwanegwyd y troednodyn hwn:

Notes

1. *Translanguaging cues: the teacher provides cues to indicate the language medium to complete the translanguaging activity*
2. *Pupil-directed translanguaging: pupils chose how receptive (listening and reading) and productive (speaking and writing) language skills are systematically varied*

Mae'r troednodyn yn cyfeirio at 'Giwiau trawsieithu' sef canllawiau a gynigiwyd gan yr athro i gynorthwyo'r disgybl i gwblhau'r dasg trawsieithu. Eglurwyd hyn ymhellach:

> *…translanguaging cues may assist the pupil to navigate through the translanguaging task by indicating the language medium for different activities. The teacher models the translanguaging activity and offers cues (either orally, in written form or both) for the different language mediums undertaken during the translanguaging activity.*
>
> (Jones & Lewis, 2014: 164)

Cyfeiriodd Jones & Lewis (2014) at 'sgaffaldiau trawsieithu' sef strategaethau a ddefnyddia'r athro i gefnogi disgyblion dwyieithog datblygol sydd, er enghraifft, angen cefnogaeth ieithyddol i gynnal trafodaeth a chofnodi cynnwys yn yr iaith wannaf:

> *Thus scaffolding translanguaging involves the teacher adopting a pivotal role to enable pupils to complete the translanguaging activity. This is particularly the case when translanguaging activities are initially introduced in the classroom. The teacher analyses the language demands and learning activities in order to provide cognitive challenge as well as language support. Scaffolding is paramount when translanguaging is introduced to young pupils or older pupils who need additional input with the second language.* (Jones & Lewis, 2014: 163)

Datblygodd Jones & Lewis (2014) y cysyniad gwreiddiol o drawsieithu yn y dosbarth fel y'i diffiniwyd gan Williams (1994, 1996), a chyflwynwyd termau newydd fel 'ciwiau trawsieithu' a 'sgaffaldio trawsieithu' i gefnogi'r broses o drawsieithu yn y dosbarth. At ei gilydd, mae'r bennod yn cyflwyno data newydd sy'n ehangu ar y drafodaeth ynglŷn ag addysg ddwyieithog yng Nghymru ar gychwyn yr unfed ganrif ar hugain.

3.2.3 Beirniadaeth Cyhoeddiad 2

Efallai bod angen egluro arwyddocad y term '*language arrangements*' o fewn y teitl '*Language Arrangements within Bilingual Education*'. Cyfeiriodd García (2009: 308) at gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer cyflwyno addysg ddwyieithog, ac yn benodol bod angen i athrawon ystyried unai defnyddio un iaith ynteu dwy iaith ar gyfer y gwersi:

> *The languages of a bilingual education curriculum can be arranged either by strictly separating them or by using the two languages flexibly.*

Mae García yn egluro bod modd adnabod dwy fath o sefyllfa pan ddefnyddir dwy iaith yn y gwersi, sef '*convergence*' (bydd un iaith yn disodli'r iaith arall mewn amser) a '*multiplicity*' (bydd y ddwy iaith yn gyfartal). Daw García (2009: 308) i'r casgliad canlynol:

> *Thus, we treat here three different types of language arrangements:*
> 1. *strict separation;*
> 2. *flexible convergence;*
> 3. *flexibility multiplicity*

Dyma'r sail damcaniaethol i'r term '*language arrangements*' yn y cyhoeddiad dan sylw. Roedd angen egluro hyn yn y rhagymadrodd i'r bennod, ac efallai y buasai'r term '*bilingual education language arrangements'* wedi bod yn fwy ystyrlon i'r darllenydd. Mae Jones & Lewis (2014: 149) yn cydnabod ei bod yn anodd adnabod trefniadau iaith pendant ymhob arsylliad a wnaed yn y dosbarth:

It was difficult to unravel and categorize the language arrangements in some classrooms as there are not always clear-cut boundaries separating the various types of flexible language use, for example, codeswitching was evident in instances of translating and translanguaging.

Mae angen bod yn ymwybodol o gyfyngiadau'r deipoleg a gyflwynodd Jones & Lewis (2014), er enghraifft, ni ymdrechwyd i werthuso'r trefniadau iaith mewn ysgolion gwahanol i'r rhai ddewisiwyd ar gyfr yr ymchwil. Ymddangosodd y deipoleg naw dosbarth a gyhoeddwyd yn Jones & Lewis (2014) ar ffurf teipoleg chwe dosbarth yn Lewis, Jones & Baker (2013) oherwydd bod y sampl o fewn ambell ddosbarthiad yn rhy fach (er enghraifft, dim ond dau sampl a gofnodwyd ar gyfer 'Un iaith yn bennaf: Cymraeg I2'). Addaswyd y termau a ddefnyddiwyd ar gyfer trefniadau iaith, er enghraifft, '*Monolingual use of one language: L1 Welsh'* a ymddangosodd yn Jones & Lewis (2014) fel '*Use of one language: L1 Welsh'* yn Lewis, Jones & Baker (2013).

Mae'n debyg y byddai'r bennod wedi elwa o egluro ac addasu rhai o'r termau trefniadau iaith (er enghraifft, *Monolingual use of one language: L1 Welsh*, *Monolingual use of one language: L2 Welsh, Monolingual use of one language in mixed L1 /L2 classrooms)* a ddefnyddiodd Jones & Lewis (2014), yn arbennig ar gyfer y darllenydd rhyngwladol nad oedd yn gwbl hyddysg ynglŷn â'r gyfundrefn addysg yng Nghymru. Mae 'Trefniadau Iaith yn y Dosbarth' (Ffigwr 3) yn dangos y termau newydd, er enghraifft, 'Un iaith yn bennaf: Cymraeg I1', 'Un iaith yn bennaf: Cymraeg I2', 'Un iaith yn bennaf: cyfuniad Cymraeg I1 & I2' a ddefnyddiwyd i drafod trefniadau iaith mewn cynadleddau (er enghraifft, yng Nghaerdydd ac ym Mangor yn 2012).



Ffigwr 3: Trefniadau Iaith yn y Dosbarth (gwefan 'Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru')

Diddorol yw nodi bod un arfarnwyr academaidd (Atodiad 8.3.3) wedi cyfeirio at nifer o'r trefniadau iaith (er enghraifft, cyfieithu i gefnogi disgybl I2, cyfieithu termau pwnc) fel enghreifftiau o drawsieithu, tra bod y deipoleg a gynigiwyd wedi eu gosod ar wahân. Awgrymodd un arfanwr academaidd (Atodiad 8.3.3) mai gwraidd y 'broblem' ydoedd bod Jones & Lewis (2014) wedi defnyddio trawsieithu '*in the Williams' Welsh way*':

> *Clarification of what authors mean by translation, translanguaging and bilingual terminology is needed. In my conceptualization, both translation and bilingual terminology (which I don't know exactly what this means) are instances of translanguaging…Again later on, the authors talk about translation, translanguaging, scaffolding for L2 learners, and teacher response to language of pupil… I think the problem may be (maybe) that the authors are using translanguaging in the Williams' Welsh way… For example, in my definition, scaffolding for L2 learners also falls under translanguaging.*

Mae'r bennod yn disgrifio'r hyn oedd yn digwydd ar lawr dosbarth yn gyffredinol; nid oedd yn fwriad manylu ar arferion penodol gyda siaradwyr penodol. Mae angen ymchwilio ymhellach i sefyllfaoedd pan fo athrawon yn cefnogi disgyblion dwyieithog datblygol, er enghraifft, pan gyflwynwyd Saesneg yn swyddogol ym Mlwyddyn 3 yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010). Buasai defnyddio'r term 'Modelu trawsieithu' yn hytrach nag 'Sgaffaldio trawsieithu' wedi bod yn well i egluro'r broses pan fo athrawon yn cyflwyno tasgau trawsieithu am y tro cyntaf yn y dosbarth. Sylwodd Jones & Lewis (2014) bod trawsieithu o'r Saesneg (iaith fwyafrifol) i'r Gymraeg (iaith leiafrifol) yn llawer mwy cyffredin nag trawsieithu o'r Gymraeg (iaith leiafrifol) i'r Saesneg (iaith fwyafrifol) mewn ysgolion ble mae gwarchod y Gymraeg yn flaenoriaeth. Mae trawsieithu mewn dosbarthiadau yng Nghymru'n cyferbynnu gydag addysgeg trawsieithu mewn gwledydd eraill, er enghraifft, trawsieithu o'r Sbaeneg i ddatblygu Saesneg mewn dosbarthiadau dwyieithog ac amlieithog yn Efrog Newydd (García & Kleifgen, 2010). Er bod y model trawsieithu gwreiddiol a gyflwynodd Williams (1994, 1996) yn ffocysu ar sefyllfa ddwyieithog, eglurodd Jones & Lewis (2014) bod modd addasu'r model ar gyfer sefyllfaoedd amlieithog, er enghraifft, darllen deunydd yn y Saesneg a Ffrangeg a thrafod y cynnwys yn y Gymraeg. Mae sefyllfaoedd o'r fath yn hawlio ymchwil pellach, a dyna sylwodd Anderson (2015) wrth adolygu'r gyfrol:

> *Many chapters are very practical, especially the chapters on bilingual education and corpus creation. Although generally centered on one particular language pair (English-Welsh), the conclusions and research paradigms are applicable to and provoke ideas for future research on other language dyads.*

Bydd yr adran nesaf yn trafod gwaith Lewis, Jones & Baker (2013) sydd yn adeiladu ar y canfyddiadau ymchwil a gyflwynodd Jones & Lewis (2014).

Cyfeiriadau:

Anderson, T. K. (2015). LINGUIST List 26.2625, Review of *Advances in the Study of Bilingualism.* Bristol: Multilingual Matters.

Baker, C. (2010a). Increasing bilingualism in bilingual education. In D. Morris (ed.), *Welsh in the 21st Century*. Cardiff: University of Wales Press.

Bialystok E. (2001). *Bilingualism in Development: Language, Literacy and Cognition*. New York: Cambridge University Press.

Faltis, C. (1990). New directions in bilingual research design: the study of interactive decision making. In R. Jacobson & C. Faltis (eds.), *Language distribution issues in bilingual schooling.* Clevedon: Multilingual Matters Ltd.

Fishman, J.A. (1991). *Reversing language shift.* Clevedon: Multilingual Matters.

García, O. (2009). *Bilingual Education in the 21st Century: A Global Perspective.* Oxford: Wiley-Blackwell.

García, O., & Kleifgen, J. (2010). *Educating emergent bilinguals: Policies, programs, and practices for English Language Learners.* New York: Teachers College Press.

Jones, B., & Lewis, W.G. (2014). Language Arrangements within Bilingual Education. In Thomas, E.M., & Mennen, I. (eds.), *Advances in the Study of Bilingualism*. Bristol: Multilingual Matters.

Jones, D.V. & Martin-Jones, M. (2004). Bilingual Education and Language Revitalization in Wales: Past Achievements and Current Issues. In Tollefson, J. & Tsui, A. (eds.), *Medium of instruction policies* (pp. 43-70). Mahwah, N.J: L. Erlbaum Publishers.

Lewis, W.G. (2008). Current challenges in bilingual education in Wales. *Multilingualism and Minority Languages: Achievements and challenges in education, AILA Review 21*: 69–86. Amsterdam: John Benjamins Publishing Company.

Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2012b). Translanguaging: developing its conceptualisation and contextualisation. *Educational Research and Evaluation*, 18 (7), 655-670.

Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2013). 100 Bilingual Lessons: Distributing two languages in classrooms. In Abello-Contesse, C., Chandler, P.M., López-Jiménez, M.D., & Chacón Beltrán, R. (eds.), *Bilingual and Multilingual Education in the 21st Century*. Bristol: Multilingual Matters.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010). *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

May, S. (2013). *The Multilingual Turn*. Abingdon: Routledge.

Peal. E. & Lambert, M. (1962). The relation of bilingualism to intelligence. *Psychological Monogruph*, 76(546). 1-23.

Renisk, P. (2015). Book Review: *Advances in the Study of Bilingualism*. IJBEB.

Redknap, C. (2006). Addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog: camau tuag at strategaeth holistaidd. Yn *Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog*. Bangor: Trafodion Addysg.

Rhys, M. & Thomas, E. M. (2013). Bilingual Welsh-English children's acquisition of vocabulary and reading: implications for bilingual education. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 16 (6), 633-656.

Saer, D.J. (1923). The effects of bilingualism on intelligence. *British Journal of Psychology* 14, 25–38.

Thomas, E. M., Gathercole, V. C. M., & Hughes, E. K. (2013). Sociolinguistic influences on the Linguistic Achievement of Bilinguals: Issues for the Assessment of Minority Language Competence. In V. C. Mueller Gathercole (ed.), *Solutions for the Assessment of Bilinguals*. Clevedon: Multilingual Matters.

Thomas, E.M. & Mennen, I. (eds.), (2014). *Advances in the Study of Bilingualism.* Bristol: Multilingual Matters Ltd.

Williams, C. (1996). Secondary education: Teaching in the bilingual situation. In C. Williams, G. Lewis, & C. Baker (eds.), *The Language Policy: Taking Stock*. Llangefni (Wales): CAI.

Williams, C. (2002). *Ennill Iaith: Astudiaeth o Sefyllfa Drochi yn 11–16 oed.* Bangor: Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Cyhoeddiad 3: Lewis, W. G., Jones, B., & Baker, C. (2013). 100 Bilingual Lessons: Distributing two languages in classrooms. In Abello-Contesse, C., Chandler, P. M., López-Jiménez, M. D., & Chacón-Beltrán, R, (eds.), *Bilingual and Multilingual Education in the 21st Century* (pp. 107-135). Bristol: Multilingual Matters.

3.3.1 Cefndir Cyhoeddiad 3

Ymateb i gais gan C. Abello-Contesse (cyd-olygydd) i gyfrannu pennod i'r llyfr *Bilingual and Multilingual Education in the 21st Century* oedd y rheswm dros greu'r cyhoeddiad hwn. Mae teitl y bennod hon, sef *'100 Bilingual Lessons: Distributing two languages in classrooms'* yn gosod cyd-destun yr ymchwil yn seiliedig ar wahanol fathau o drefniadau iaith a arsyllwyd mewn cant o wersi 'dwyieithog' mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru rhwng 2007 a 2012. Dywedodd Amzallag (2014) bod y gyfrol yn ei chyfanrwydd wedi amlygu materion cyfredol mewn addysgeg ddwyieithog ac amlieithog yn rhyngwladol:

> *The volume achieved it's purpose of drawing on experiences in BE to highlight current issues in BE and is significant for those seeking to further their understanding of recent international research, and for those seeking trends in bilingual and multilingual pedagogy.*

Bydd yr adran nesaf yn ystyried cyfraniad y bennod (Lewis, Jones & Baker, 2013) i'r maes.

3.3.2 Cyfraniad Cyhoeddiad 3 i'r maes

Cyflwynodd Lewis, Jones & Baker (2013) deipoleg o drefniadau iaith yn ôl y categorïau a ganlyn: *Type 1-Monolingual use of one language (L1 Welsh), Type 2- Monolingual use of one language (L2 Welsh), Type 3-Monolingual use of one language in mixed L1/L2 classrooms, Type 4-Translanguaging, Type 5-Translation (for the whole class), Type 6-Translation of subject-related terminology, Type 7-Translation for L2 learners (L2 Welsh or L2 English), Type 8- Combinations of concurrent two-language use, Type 9-Teacher responds to student's language.*

Mae'n ymddangos bod Amzallag (2014), mewn adolygiad o'r gyfrol, wedi camddehongli'r trefniadau iaith a arsyllwyd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fel mathau o ysgolion sef '*types of elementary and secondary Welsh schools*':

> *… In '100 Bilingual Lessons: Distributing Two Languages in Classrooms' (Chapter 6) Gwyn Lewis, Bryn Jones, and Colin Baker describe the various models of language division in bilingual schools, as collected from 100 lessons observed in the following types of elementary and secondary Welsh schools: monolingual use of one language (L1 Welsh), monolingual use of one language (L2 Welsh), monolingual use of one language in mixed L1/L2 classrooms, translanguaging, translation (whole class), translation of subject-related terminology, translation for L2 learners, combinations of concurrent two-language use, and teacher responses to student's language. The authors raise several issues related to multiple language use in classrooms by exploring translanguaging and translation…*

Eglurodd Lewis, Jones & Baker (2013) bod y deipoleg o drefniadau iaith cychwynnol yn cynnwys naw dosbarth wedi'i gwtogi i chwe dosbarth er mwyn cryfhau'r elfen o ddadansoddi meintiol, er enghraifft, dim ond dwy wers oedd yn Grŵp 2 (*Use of one language: L2 Welsh*) ac nid oedd modd cyffredinoli'n hawdd o'r canfyddiadau. Y canlyniad oedd cyfuno Grŵp 1, 2 a 3 o dan y teitl '*Monolingual*' a chyfunwyd Grŵp 8 a 9 fel y gwelir yn Nhabl 8:

Tabl 8: *Typology Based on Observation of the Use of Two Languages in a Classroom*

(Lewis, Jones & Baker, 2013)

Initial grouping	*Type of lesson*	*Frequency*	*Grouping for analyses*
Group 1	Use of one language: L1 Welsh	5	Group 1
Group 2	Use of one language: L2 Welsh	2	Group 1
Group 3	Use of one language in mixed	14	Group 1
Group 4	Translanguaging	18	Group 2
Group 5	Translation: whole class	17	Group 3
Group 6	Translation: subject-related terminology	14	Group 4
Group 7	Translation for L2 learners	11	Group 5
Group 8	Combinations of concurrent two-language	14	Group 6
Group 9	Teacher responds to student's language	5	Group 6

O ran dadansoddi'r canlyniadau dywedodd Lewis, Jones & Baker (2013) bod y canlyniadau'n awgrymu meysydd i'w hastudio ymhellach yn hytrach na chyflwyno casgliadau pendant. Cyfeiriodd Lewis, Jones & Baker (2013) at dri chanfyddiad allweddol yn deillio o'r Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru.

Yn gyntaf, roedd ymchwilwyr y Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru wedi disgwyl gweld mwy o athrawon yn defnyddio dwy iaith yn y 'gwersi dwyieithog'. Canfuwyd bod achosion (21%) pan ddefnyddiwyd un iaith yn unig yn y dosbarth, er enghraifft, pan astudiwyd un modiwl drwy gyfrwng y Gymraeg am un tymor, ac yna drwy gyfrwng y Saesneg yn y tymor dilynol. Eglurodd Lewis, Jones & Baker (2013) bod gwahanu ieithoedd yn bodoli mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru, a bod yr awydd i ddiogelu iaith leiafrifol yn gallu bod yn gyfrifol am hyn:

> *Thus, despite Wales having a progressive tradition in bilingual education and a success story in the development of its bilingual education, it is the case that, at the classroom level, there tends to be some degree of language separation rather than a considered approach to co-languaging and translanguaging. This partly relates to varying sociolinguistic communities and contexts where safeguarding the Welsh language is often dominant in ideology, policy and practice. The idea of language separation… seems to be also predominant in Welsh classroom pedagogy and language development.*
>
> (Lewis, Jones & Baker, 2013: 129)

Yn ail, roedd y defnydd o drawsieithu fel addysgeg a gyflwynwyd gan Williams (1994, 1996) yn llai amlwg na'r disgwyl, ac mae'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu canfyddiadau ymchwil mwy diweddar gan Estyn (2014) ynglŷn â'r diffyg defnydd o drawsieithu o fewn dosbarthiadau uwchradd ledled Cymru. Gwelwyd enghreifftiau o drawsieithu amlaf yng Nghyfnod Allweddol 2 (7-11 oed) yn arbennig o fewn y pynciau allgraidd (er enghraifft, hanes a daearyddiaeth). Mae adnoddau cyfrwng Saesneg niferus ar gael ar y we ac mae athrawon yn annog disgyblion i'w defnyddio ar gyfer gwaith llafar ac ysgrifenedig yn y Gymraeg.

Yn drydydd, cyfeiriodd Lewis, Jones & Baker (2013) at ddyheadau'r disgyblion i weithredu'n ddwyieithog o fewn y dosbarth, a bod hyn yn gyfle i ddatblygu sgiliau ieithyddol a gwybyddol:

> *School learners seemed to find two-language use both natural and pragmatic since their ultimate aim tends to be scholastic success across the curriculum as well as language development…*
>
> (Lewis, Jones & Baker, 2013: 130)

Pwysleisiodd Lewis, Jones & Baker (2013) bod hyfforddiant athrawon (hyfforddiant cychwynnol athrawon yn ogystal â hyfforddiant mewn swydd) yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo addysgu a dysgu dwyieithog effeithiol. Cyfeiriodd Lewis, Jones & Baker (2013:129) yn benodol at yr angen i hyfforddi athrawon ynglŷn â defnyddio dwy iaith yn gyfochrog yn y dosbarth:

> *At the moment, the training of teachers for bilingual classrooms is rarely considered in the literature, with international comparative research much needed. Is the accent in teacher training on 'two solitudes' and language separation? Is the training mostly about developing two languages rather than also about using two languages to increase learning and understanding? Do teacher training ideologies concentrate on language development rather than intellectual development at the cost of the multi- disciplinary achievement of children?*
>
> (Lewis, Jones & Baker, 2013: 129)

Mae'r galw am hyfforddiant priodol ar gyfer athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn parhau (Cyngor Gwynedd, 2015; Roberts, 2015). At ei gilydd, felly, mae'r bennod wedi taflu goleuni pellach ar addysgeg trawsieithu yn ogystal ag awgrymu meysydd i'w hymchwilio ymhellach.

3.3.3 Beirniadaeth Cyhoeddiad 3

Yn gyntaf, rhaid cydnabod bod nifer o wallau atalnodi a chyfeirnodi yn y cyhoeddiad hwn, er enghraifft:

> *This is an issue both in dual language schools and in heritage language schools (Hickey, 2001. 2007. Lewis. 2004, 2008).*
>
> *(Lewis, Jones & Baker, 2013: 108)*

> *There are four potential advantages to translanguaging and transhteracy (Baker. 2004).*
>
> *(Lewis, Jones & Baker, 2013: 108)*

Mae enghreifftiau niferus o gamsillafu yn y testun Cymraeg, er enghraifft,

> Stori v dderlen grin (Stori'r ddeilen grin)
>
> Does gen t ddun llrw gwvrdd a chwyr sgleiniog (Does gen i ddim lliw gwyrdd a chwyr sgleiniog)
>
> *(Lewis, Jones & Baker, 2013: 119)*

Mae'r blerwch hwn yn anffodus iawn o ystyried bod y drafft terfynol wedi'i olygu'n ofalus gan Jones & Lewis, ac nid oedd unrhyw un o'r gwallau'n bodoli yn y copi terfynol.

Mae Jones (2016) wedi addasu'r deipoleg chwe dosbarth a gyflwynodd Lewis, Jones & Baker (2013). Bellach mae Jones (2015a) yn awgrymu bod modd defnyddio tri phrif ddosbarthiad i gynrychioli trefniadau iaith o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sef:

(i) Addysg ddwyieithog-defnyddio un iaith yn y dosbarth (e.e. pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i'r un disgyblion)

(ii) Addysg ddwyieithog-defnyddio dwy iaith yn y dosbarth (e.e. cyfieithu, trawsieithu)

(iii) Addysgu a dysgu mewn sefyllfa ddwyieithog (e.e. cydieithu)

Mae elfen o ail-adrodd yn Lewis, Jones & Baker (2013) o'r hyn a gyhoeddwyd yn Jones & Lewis (2014), er enghraifft, trafodwyd methodoleg yr ymchwil yn ogystal â tharddiad trawsieithuyn y ddau gyhoeddiad. Mae angen tystiolaeth bellach i gefnogi (neu wrthbrofi) manteision honedig trawsieithu fel addysgeg yn yr ystafell ddosbarth fel yr amlygwyd yn Lewis, Jones & Baker (2013):

> *Any increase in the use of concurrent methods will also depend on evidence, quantitative and qualitative, regional and international, to demonstrate whether or not concurrent approaches in the classroom relate to the attainment and achievement of children throughout the curriculum, including in high-stakes tests. How do we know that such approaches as translanguaging are successful? We could valuably move from advocacy to action, from ideas to their evaluation, from compartmentalization to concurrency in language strategies in the classroom*
>
> (Lewis, Jones & Baker, 2013: 130).

Bydd yr adran nesaf yn canolbwyntio ar ddau gyhoeddiad gan Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b) sydd yn egluro tarddiad trawsieithu mewn ysgolion yng Nghymru ar gychwyn y 1980au yn ogystal â thrafod trawsieithu o fewn cyd-destun rhyngwladol diweddar.

Cyfeiriadau:

Abello-Contesse, C., Chandler, P. M., López-Jiménez, M. D., & Chacón-Beltrán, R. (eds.), (2013), *Bilingual and Multilingual Education in the 21st Century*. Bristol: Multilingual Matters.

Amzallag, O.L. (2014). LINGUIST List 25 2238, Review of *Bilingual and Multilingual Education in the 21st Century*. Bristol: Multilingual Matters.

BERA (British Educational Research Association) (2011). *Ethical Guidelnes for Educational Research.* London: BERA.

Bialystok E. (2001). *Bilingualism in Development: Language, Literacy and Cognition.* New York: Cambridge University Press

Cohen, L., Manion, L. & Morrison, K. (2011). *Research Methods in Education*. London: Routledge.

Cyngor Gwynedd (2015). *Adroddiad Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg.* Cyngor Gwynedd.

Estyn, (2014). *Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog.* Caerdydd: Estyn.

Faltis, C. (1990). New directions in bilingual research design: the study of interactive decision making. In R. Jacobson & C. Faltis (eds.), *Language distribution issues in bilingual schooling.* Clevedon: Multilingual Matters Ltd.

Fishman, J.A. (1991). *Reversing language shift.* Clevedon: Multilingual Matters.

García, O. (2009). *Bilingual Education in the 21st Century: A Global Perspective.* Oxford: Wiley-Blackwell.

García, O., & Kleifgen, J. (2010). *Educating emergent bilinguals: Policies, programs, and practices for English Language Learners.* New York: Teachers College Press.

Jones, B. (2016). Adroddiad Critigol PhD Trwy Waith Cyhoeddiadau: Ymchwilio Addysg Ddwyieithog yn Ysgolion Cymru: Amrywiaeth Caleidosgopig. Thesis PhD heb ei gyhoeddi. Bangor: Prifysgol Bangor.
PhD by Published Work Critical Report: Ymchwilio Addysg Ddwyieithog yn Ysgolion Cymru: Amrywiaeth Caleidosgopig. Unpublished PhD thesis. Bangor: Bangor University.

Jones, D.V. & Martin-Jones, M. (2004). Bilingual Education and Language Revitalization in Wales: Past Achievements and Current Issues. In Tollefson, J. & Tsui, A. (eds.), *Medium of instruction policies*. Mahwah, N.J: L. Erlbaum Publishers.

Lewis, W. G., Jones, B., & Baker, C. (2013). 100 Bilingual Lessons: Distributing two languages in classrooms. In Abello-Contesse, C., Chandler, P. M., López-Jiménez, M. D., & Chacón-Beltrán, R. (eds.), *Bilingual and Multilingual Education in the 21st Century*. Bristol: Multilingual Matters.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007). *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Peal. E. & Lambert, M. (1962). The relation of bilingualism to intelligence. *Psychological Monogruph*, 76(546). 1-23.

Redknap, C. (2006). Addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog: camau tuag at strategaeth holistaidd. Yn *Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog*. Bangor: Trafodion Addysg.

Roberts, D.B., Thomas, E.M., Jones, B., Williams, N.M., Young, N., Cunnington, L., Williams, D., & Lane, D. (2015). Barn athrawon a darlithwyr addysg ôl-16 oed Gwynedd a Môn am ddarpariaeth addysg Gymraeg a Dwyieithog ôl-16 / *Views of Post -16 education teachers and lecturers on Welsh and bilingual medium education in Gwynedd and Anglesey.* Unpublished report.

Rhys, M. & Thomas, E. M. (2013). Bilingual Welsh-English children's acquisition of vocabulary and reading: implications for bilingual education. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 16 (6), 633-656.

Saer, D.J. (1923). The effects of bilingualism on intelligence. *British Journal of Psychology* 14, 25–38.

Williams, C. (1994). Arfarniad o ddulliau dysgu ac addysgu yng nghyd-destun addysg uwchradd ddwyieithog. Unpublished PhD thesis. Bangor: University of Wales.

Williams, C. (1996). Secondary education: Teaching in the bilingual situation. In C. Williams, G. Lewis, & C. Baker (eds.), *The Language Policy: Taking Stock*. Llangefni (Wales): CAI.

3.4 Cyhoeddiad 4: Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2012a).Translanguaging: origins and development from school to street and beyond. *Educational Research and Evaluation,* 18 (7), 641-654.

3.4.1 Cefndir Cyhoeddiad 4

Un o amcanion Lewis, Jones & Baker (2012a) oedd egluro tarddiad trawsieithu yn y dosbarth dwyieithog yng Nghymru. Sylwodd Baker (2010b) nad oedd cyfeiriad at Cen Williams mewn erthygl a gyhoeddwyd gan Creese & Blackledge (2010) yn trafod trawsieithu yn y dosbarth. Awgrymodd García (2013: 162) mai hi (ac eraill) a ddyfeisiodd y term '*translanguaging*' a'i ymestyn o'r hyn a gyflwynwyd yn wreiddiol gan Cen Williams:

> *Transglossia in bilingual and multilingual classrooms is enacted through practices that I and others, extending Cen Williams (cited in Baker, 2006), have called translanguaging (Blackledge & Creese, 2010; Creese & Blackledge, 2010; García, 2009).*

Mae Lewis, Jones & Baker (2012a) yn olrhain tarddiad y term 'trawsieithu' o'r 1980au yn ysgolion Cymru i'w ddefnydd byd-eang diweddar, ac yn dadansoddi'r datblygiad ac ymestyniad o'r term a amlygwyd o fewn y maes mewn llenyddiaeth rhyngwladol ddiweddar. Mae teitl yr erthygl sef '*Translanguaging: origins and development from school to street and beyond*' yn awgrymu bod tarddiad trawsieithu yn y dosbarth, ac wedi ymestyn i'r gymuned a thu hwnt. Diddorol yw nodi bod Arfarnwr 1 (Atodiad 8.3.1) wedi cwestiynu hyn:

> *The article formulates the assumption that the term 'translanguaging' was initially coined to name a pedagogical bilingual practice and theory, and later on was extended beyond education and generalised to everyday cognitive processing and all contexts of a bilingual's life ('from school to street'). I find this is an interesting idea because up to now I thought it was the other way around, namely that the term was developed to describe multilingual communicative practices in diverse social contexts and subsequently was applied to teaching and learning in educational contexts ('from street to school').*

Un o negeseuon allweddol Lewis, Jones & Baker (2012a:2) ydyw nad oes diffiniad pendant o'r term trawsieithu, a bod y term wedi magu ystyron ehangach yn sgìl ymchwil rhyngwladol:

> *…the essential assumption is that there can be no exact or essentialist definition as the meaning of translanguaging will become more refined and increasingly clarified, conceptually and through further research.*

Honnodd Baker (2015a) bod trawsieithu wedi magu ystyron gwahanol ac annelwig:

> *…the problem now is that it seems to mean many different things to different people - highly ambiguous…*

Ystyria awdur yr adroddiad hwn bod yr amwysedd ynglŷn â diffinio trawsieithu yn gallu peri problemau, yn arbennig o ran dehongli a gweithredu trawsieithu fel addysgeg yn y dosbarth.

Bydd yr adran nesaf yn trafod cyfraniad gwaith Lewis, Jones & Baker (2012a) i'r maes gan ffocysu ar y diffiniad o drawsieithu yng nghyd-destun addysg ddwyieithog yng Nghymru a thu hwnt.

3.4.2 Cyfraniad Cyhoeddiad 4 i'r maes

Un o amcanion Lewis, Jones & Baker (2012a) oedd egluro tarddiad y term trawsieithu yng nghyd-destun addysg ddwyieithog yng Nghymru ar gychwyn y 1980au. Ystyriwyd hyn yn gyfraniad allweddol i'r maes yn ôl Arfarnwr 1 (Atodiad 8.3.1):

> *It offers a strong case for the Welsh origin of the concept of 'translanguaging' and its creation by Cen Williams. To be fair, while reading the article this came as something of a surprise to me. As probably most researchers in my field I came across the term through reading the work of Ofelia García, Adrian Blackledge / Angela Creese, and Colin Blake (sic) (the latter to a lesser extent). I wasn't actually aware of the fact that its historical background was/is specifically related to bilingual education in Wales.*

Er na chyfeiriwyd yn benodol at y ffaith mai diffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg oedd un o'r prif resymau dros gyflwyno trawsieithu yn y dosbarth yng Nghymru yn y 1980au, eglurodd Lewis, Jones & Baker (2012a) bod trawsieithu yn bodoli o fewn sefyllfa ddwyieithog yn cynnwys iaith leiafrifol (Cymraeg) ac iaith fwyafrifol (Saesneg). Eglurodd bod y dehongliad a'r defnydd o drawsieithu yn wahanol o fewn sefyllfaoedd dwyieithog mwy cytbwys (er enghraifft, Saesneg a Sbaeneg mewn dosbarthiadau ysgol yn Efrog Newydd). Er bod tarddiad trawsieithu wedi'i briodoli i Williams, fel y nododd Baker (2011) a García (2009), eglurodd Lewis, Jones & Baker (2012a) bod trawsieithu yn gysylltiedig â damcaniaeth Jacobson (1983, 1990) a Faltis (1990) sydd yn trafod un ar bymtheg o giwiau a ddefnyddiwyd gan yr athro i ddynodi newid iaith yn y dosbarth. Diddorol ydy nodi bod awdur yr adroddiad hwn (Bryn Jones) wedi canfod cyfeiriad at y term '*translanguage*' gan Chellappan (1982) ond mae neges e-bost rhwng awdur yr adroddiad hwn a'r Athro Colin Baker (Atodiad 8.8.2) yn egluro nad oedd y term yn gyfarwydd i Baker pan ddyfeisiwyd y term '*translanguaging*' i ddisodli'r term '*transliguifying*' fel y cynnig cyntaf ar gyfieithu'r term 'trawsieithu'.

Cyflwynodd Lewis, Jones & Baker (2012a:1) ddiffiniad cynhwysfawr o drawsieithu mewn dosbarthiadau dwyieithog yng Nghymru, a chyfeiriwyd at y modd y defnyddiwyd dwy iaith i hyrwyddo gwybodaeth, dealltwriaeth a llythrennedd y dysgwyr:

Translanguaging is the process of making meaning, shaping experiences, gaining understanding and knowledge through the use of two languages (Baker, 2011, p. 288). Thus, both languages are used in a dynamic and functionally integrated manner to organise and mediate mental processes in understanding, speaking, literacy, and, not least, learning. Translanguaging concerns effective communication, function rather than form, cognitive activity, as well as language production.

Mae'r diffiniad uchod wedi'i gyfeirnodi a'i ddyfynnu'n helaeth yn y llenyddiaeth (er enghraifft, Creese & Blackledge, 2015; García & Li Wei, 2014), a chreda'r awdur fod hyn yn gyfraniad gwerthfawr i'r maes gan nad oedd cofnod blaenorol ynglŷn â tharddiad trawsieithu o fewn y gyfundrefn addysg ddwyieithog yng Nghymru.

Trafododd Lewis, Jones & Baker (2012a) drawsieithu yng nghyd-destun bywyd bob dydd siaradwyr dwyieithog, a chyfeiriwyd at waith academyddion rhyngwladol amlwg fel García, Hornberger, a Creese & Blackledge. Eglurodd Lewis, Jones & Baker (2012a) bod García (2009) wedi ymestyn y term 'trawsieithu' y tu allan i'r ystafell ddosbarth, a thrwy hynny mae'n fwy eang na'r diffiniad gwreiddiol o drawsieithu a gyflwynodd Williams (1994, 1996, 2002). Nododd Lewis, Jones & Baker (2012a) bod García yn ystyried trawsieithu fel strategaeth a ddefnyddia pobl ddwyieithog i roi trefn ar brofiadau pob dydd, ac mae'n dadlau na fyddai modd bodoli mewn cymunedau amlieithog fel Efrog Newydd heb fedru trawsieithu. Sylwodd Lewis, Jones & Baker (2012a) bod Creese & Blackledge (2010) wedi ymchwilio i'r defnydd o drawsieithu mewn ysgolion y tu allan i ysgolion y wladwriaeth (*Contemporary schools*) mewn dinasoedd amlieithog yn Lloegr. Yn ôl Creese & Blackledge (2010) cyflwynwyd gwersi drwy gyfrwng ieithoedd fel Bengali, Mandarin Chinese, Gujarati a Turkish, ac mae hyn yn cael ei ystyried fel 'dwyieithrwydd hyblyg' (*flexible bilingualism)* sydd yn pontio'r ysgol â chefndir cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol y disgyblion.

Cyflwynodd Lewis, Jones & Baker (2012a) ddosbarthiad triphlyg gwreiddiol i egluro'r defnydd o drawsieithu mewn gwahanol sefyllfaoedd. Yn gyntaf, 'Trawsieithu yn y dosbarth' (*Classroom translanguaging*) yn seiliedig ar fodel gwreiddiol Williams (1994, 1996) o drawsieithu, sef tasgau trawsieithu wedi eu cynllunio gan yr athro i hyrwyddo sgiliau dwyieithog y disgyblion yn y dosbarth. Yn ôl Jones (2015b) mae'r math hwn o drawsieithu'n ymdebygu i fesen fechan sydd bellach wedi ymestyn fel derwen gyda changhennau mewn dosbarthiadau dwyieithog ac amlieithog ledled y byd. Yn ail, cyfeiriwyd at 'Drawsieithu Cyffredinol' (*Universal translanguaging*) sef trawsieithu y tu allan i'r dosbarth, trawsieithu sydd yn digwydd o ddydd i ddydd mewn cymunedau dwyieithog ac amlieithog ledled y byd. Yn drydydd, ceir 'Trawsieithu Niwroieithyddol' (*Neurolinguistic translanguaging*) sef y cyfleoedd a gynigir i ymchwilio'n wyddonol i drawsieithu drwy ddulliau gwyddonol fel ERP. Er bod lle pellach i ddiffinio trawsieithu y tu allan i'r dosbarth ac o fewn niwroieithyddiaeth, ystyriodd Arfarnwr 1

(Atodiad 8.3.1) bod y dosbarthiad triphlyg hwn yn un gwreiddiol a defnyddiol i egluro'r cysyniad o drawsieithu:

> *The threefold distinction between classroom/universal / neurolinguistic translanguaging can be seen as an original contribution to the further cross-disciplinary conceptualisation of the term.*

Bydd yr adran nesaf yn bwrw golwg feirniadol ar gynnwys erthygl Lewis, Jones & Baker (2012a).

3.4.3 Beirniadaeth Cyhoeddiad 4

Yn ôl Lewis, Jones & Baker (2012a) defnyddir amryw o dermau i ddisgrifio'r defnydd o ddwy iaith yn y dosbarth (e.e., *metrolingualism, polylanguaging, polylingual languaging, heteroglossia, codemeshing, translingual practice, flexible bilingualism, multilanguaging,* a *hybrid language practices*), ac mae angen diffinio rhai o'r termau hyn ymhellach. Yn y cyswllt hwn dywedodd Arfarnwr 1 (Atodiad 8.3.1) nad ydy'r term 'trawsieithu' yn ffasiynol o fewn ieithyddiaeth hyd yma, a bod termau eraill fel '*metrolingualism*' yn fwy adnabyddus:

> *It's not a scientific fashion word yet in linguistics but I expect it to become one in the next few years. There are of course rival terms such as 'metrolingualism' (Otsuji & Pennycook, 2010), 'polylingual languaging' (Jørgensen, 2008), 'hybrid language practices' (Gutiérrez, Baquedano-López, & Tejeda, 1999)…*

Gofynnodd Arfarnwr 1 (Atodiad 8.3.1) os oedd Lewis, Jones a Baker yn ymwybodol o derm cyffelyb am 'drawsieithu' mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg, gan ychwanegu na fyddai rhai addysgwyr y tu allan i gyfundrefnau cyfrwng Saesneg yn defnyddio'r term 'translanguaging':

> *I wonder whether the author(s) has/have in the literature come across equivalent terms and/or translations of the word 'translanguaging' in other languages than English or Welsh. Are their any creative efforts made to coin adequate terms in international, multilingual contexts? If so, it would be interesting information to be added. Academics in non-Anglophone contexts normally adopt English terms in their respective languages when an equivalent for a certain concept is not available or an appropriate translation is simply unfeasible. As stated by the author(s) the term is promoted in Wales also through central government and official channels. I don't think policy-makers and educational practitioners in the non-English educational context in which I conduct research would readily adopt the English term, although they may grasp its underlying notion and its importance (or so I hope). A literal translation would sound very odd in the local language and researchers in my language community haven't been able yet to invent a proper term for 'translanguaging'.*

Er bod Lewis, Jones & Baker (2012a) yn rhestru manteision honedig trawsieithu yn y dosbarth (er enghraifft, gall trawsieithu hyrwyddo dealltwriaeth ddyfnach a llawnach o'r pwnc), dylid amlygu mai un

gwendid allweddol ydy'r diffyg data a thystiolaeth feintiol i brofi (neu wrthbrofi) manteision trawsieithu yn y dosbarth. Crybwyllodd Arfarnwr 1 (Atodiad 8.3.1) yr angen i ddefnyddio tystiolaeth ymchwil i gefnogi manteision honedig trawsieithu:

> *Whether classroom translanguaging has any benefits for bilingual learners as regards performance and academic achievement and how to assess translanguaging pedagogies in terms of pupils' learning outcomes are also in my opinion research questions that need to be addressed urgently, if we want to legitimise translanguaging as a suitable pedagogy in mainstream bilingual education settings. Does it really allow more effective learning? Does it help (emergent) bilingual students to gain a deep and fuller understanding of the subject matter and to develop competence in their weaker language?*

Mae angen ystyried addasrwydd trawsieithu mewn dosbarthiadau amlieithog ac yn arbennig y sialensiau i athrawon sydd yn anghyfarwydd ag ieithoedd y dysgwyr yn y dosbarth. Yn ôl Arfarnwr 1 (Atodiad 8.3.1):

> *Implementation of bilingual education in heterogeneous mainstream classrooms is now almost out of reach for the majority of teachers and schools in many urban contexts all over the world. Engaging bilingual teachers who can provide formal instruction, including translanguaging strategies, in all languages present in the classroom is not feasible in such highly heterogeneous settings. Could translanguaging be an appropriate learning strategy for ethnic minority students in linguistically diverse classrooms where the majority language is the dominant medium of communication and instruction and where teachers are in general monolingual (majority language only)?*

Mae hyn, felly, yn cwestiynu addasrwydd y cysyniad y tu hwnt i gyd-destunau iaith penodol. Cyfeiriodd Arfarnwr 2 (Atodiad 8.3.2) at sialensiau defnyddio trawsieithu mewn dosbarthiadau amlieithog:

> *What for example does a teacher working in Welsh and English do if the L1s of subgroups of the class are Urdu and Romanian, say (the assumption is that the educationally valued languages relate to the languages of the pupils)? Again, the suggested activities involving language sequencing and mixing are very straightforward; how far can the input and output be mixed? Are there any known limits to what is educationally desirable?*

Mae angen ymchwil pellach i drawsieithu mewn dosbarthiadau yn cynnwys disgyblion amlieithog, ac mae angen ystyried hyn o fewn cyd-destun ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ledled Cymru.

Bydd yr adran nesaf yn cyflwyno trafodaeth ynglŷn â thrawsieithu ar waith yn y dosbarth (Lewis, Jones & Baker, 2012b) sydd yn ddilyniant o'r drafodaeth ynglŷn â tharddiad trawsieithu (Lewis, Jones & Baker, 2012a) a drafodwyd uchod.

Cyfeiriadau:

Baker, C. (2010). Increasing bilingualism in bilingual education. In D. Morris (ed.), *Welsh in the 21st Century*. Cardiff: University of Wales Press.

Baker, C. (2010b). E-mail: Translanguaging. Sent 1st April, 2010. Accessed 1st April, 2010.

Baker, C. (2011). *Foundations of bilingual education and bilingualism (*5th edition) Clevedon: Multilingual Matters.

Baker, C. (2015a). E-mail: Translanguaging. Sent 25th February, 2015. Accessed 25th February, 2015.

Blackledge, A., and Creese, A. (2010). *Multilingualism: A critical perspective*. London: Continuum.

Chellappan, K. (1982). Translanguage, Translation and Second Language Acquisition. In F. Eppert (ed.), *Papers on Translation: Aspects, Concepts, Implications*. Singapore: SEMEO Regional Language Center.

Creese, A., & Blackledge, A. (2010). Translanguaging in the bilingual classroom: A pedagogy for learning and teaching? *The Modern Language Journal* 94, 103-115.

García, O. (2009). *Bilingual education in the 21st Century: A global perspective.* Oxford: Wiley-Blackwell.

García, O. (2013). From diglossia to transglossia: Bilingual and multilingual classrooms in the 21st century. In C. Abello-Contesse and Ruben Chacón Beltrán (eds.), *Bilingualism in a school setting*. Bristol: Multilingual Matters.

Jacobson, R. (1983). Can two languages be acquired concurrently? Recent developments in bilingual methodology. In H.B. Altman and M. McClure (eds.), *Dimensions: Language '82*, 110-131. Louisville: University of Louisville Press.

Jacobson, R. (1990). Allocating two languages as a key feature of a bilingual methodology. In R. Jacobson & C. Faltis (eds.), *Language distribution issues in bilingual schooling.* Clevedon: Multilingual Matters Ltd.

Jones, B., & Lewis, W.G. (2014). Language Arrangements within Bilingual Education. In Thomas, E.M., & Mennen, I. (eds.), *Advances in the Study of Bilingualism*. Bristol: Multilingual Matters.

Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2012a). Translanguaging: origins and development from school to street and beyond. *Educational Research and Evaluation,* 18 (7), 641-654.

Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2012b). Translanguaging: developing its conceptualisation and contextualisation. *Educational Research and Evaluation*, 18 (7), 655-670.

Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2013). 100 Bilingual Lessons: Distributing two languages in classrooms. In Abello-Contesse, C., Chandler, P.M., López-Jiménez, M.D., & Chacón Beltrán, R. (eds.), *Bilingual and Multilingual Education in the 21st Century*. Bristol: Multilingual Matters.

Williams, C. (1994). Arfarniad o ddulliau dysgu ac addysgu yng nghyd-destun addysg uwchradd ddwyieithog. Unpublished PhD thesis. Bangor: University of Wales.

Williams, C. (1996). Secondary education: Teaching in the bilingual situation. In C. Williams, G. Lewis, and C. Baker (eds), *The Language Policy: Taking Stock*. Llangefni (Wales): CAI.

Williams, C. (2002). *A Language gained: A study of language immersion at 11-16 years of age.* Bangor: School of Education.

3.5 Cyhoeddiad 5: Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2012b). Translanguaging: developing its conceptualisation and contextualisation. *Educational Research and Evaluation,* 18 (7), 655-670.

3.5.1 Cefndir Cyhoeddiad 5

Cyflwynwyd erthygl Lewis, Jones & Baker (2012b) fel dilyniant i erthygl Lewis, Jones & Baker (2012a) gyda'r ffocws ar y berthynas rhwng trawsieithu a threfniadau iaith eraill fel cyfnewid cod a chyfieithu o fewn dosbarthiadau dwyieithog mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Ystyriodd Arfarnwr 1 (Atodiad 8.3.2) bod y drafodaeth ynglŷn â thrawsieithu a threfniadau iaith eraill yn ddefnyddiol:

> *This article performs a very useful 'ground-clearing' and clarifying role, sorting out for reader not only the background to translanguaging, but its roots in interlanguage, code-switching, intralanguage, co-languaging and earlier debates in bilingualism.*

Cyflwynodd Lewis, Jones & Baker (2012b) drawsieithu fel addysgeg yn y dosbarth, ac ystyriwyd materion allweddol fel hyfedredd ieithyddol y dysgwyr, trawsieithu gan ddysgwyr dwyieithog datblygol, amrywio moddau iaith (er enghraifft, gwrando/ siarad/darllen/ysgrifennu), perthynas rhwng trawsieithu a maes/pwnc cwricwlaidd ac oedran y dysgwyr. Hefyd cyfeiriodd Lewis, Jones & Baker (2012b) at bosibiliadau trawsieithu ar gyfer dysgwyr byddar.

3.5.2 Cyfraniad Cyhoeddiad 5 i'r maes

Mae Arfarnwr 2 (Atodiad 8.3.2) yn credu bod erthygl Lewis, Jones & Baker (2012b) yn ddefnyddiol o ran datblygu dealltwriaeth y darllenydd o drawsieithu, ac egluro bod trawsieithu'n wahanol i drefniadau iaith eraill fel cyfnewid cod:

> *The concept of translanguaging is fairly new, and is begging to catch on among researchers and educators. This article makes an important contribution to further the discussion on what translanguaging is, how it differs from code-switching, and how it is helping to re-define the field. I found the article very helpful in formulating my own understanding of translanguaging.*

Cyflwynodd Lewis, Jones & Baker (2012b) deipoleg wreiddiol (ar ffurf diagram) o drefniadau iaith mewn ysgolion dwyieithog yng Nghymru yn seiliedig ar ymweliadau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru rhwng 2007 a 2012. Er bod cyfyngiadau'n gysylltiedig â chyflwyno teipoleg addysg ddwyieithog (Baker, 1993) teimla'r awdur bod Lewis, Jones & Baker (2012b) wedi cyflwyno teipoleg y gellir ei thrafod yng nghyd-destun addysg ddwyieithog yng Nghymru a thu hwnt, ac y gellir ei

haddasu i adlewyrchu cyd-destunau eraill ble defnyddir iaith leiafrifol fel cyfrwng addysgu, er enghraifft, addysg ddwyieithog/amlieithog yng Ngwlad y Basg a Fryslân.

Ystyria'r awdur bod y deipoleg o drefniadau iaith '*Language Arrangements within Bilingual Schools in Wales*' (Ffigwr 4), yn ymdrech deg i gyflwyno 'amrywiaeth caleidosgopig' o drefniadau iaith mewn dosbarthiadau dwyieithog yng Nghymru ar gychwyn yr unfed ganrif ar hugain. Ystyria'r awdur bod y dosbarthiad triphlyg canlynol yn cwmpasu'r gwahanol drefniadau iaith a arsyllwyd ar lawr y dosbarth:

(i) defnyddio un iaith ar gyfer dwyieithrwydd '*Monolingual usage for bilingualism*', er enghraifft, dosbarth o ddisgyblion (unai Cymraeg I1, Cymraeg I2 neu Cymraeg I1 a Chymraeg I2 cymysg) yn dilyn modiwlau/pynciau drwy gyfrwng un iaith a modiwlau/pynciau eraill drwy gyfrwng iaith wahanol;

(ii) defnyddio dwy iaith (heb ei gynllunio) ar gyfer dwyieithrwydd '*Concurrent usage of two languages for bilingualism: unplanned*', er enghraifft, yr athro'n ymateb i iaith y disgybl;

(iii) defnyddio dwy iaith (wedi ei gynllunio) ar gyfer dwyieithrwydd '*Concurrent usage of two languages for bilingualism: planned*' , er enghraifft, disgyblion yn cael cyfleoedd i drawsieithu, cyfieithu ayb.

Trafododd Lewis, Jones & Baker (2012b) y cysylltiad rhwng trawsieithu a threfniadau iaith eraill fel cyfnewid cod, cyfieithu a chydieithu, ac nid oedd astudiaeth flaenorol am y maes hwn yng nghyd-destun ysgolion Cymru. Sylwodd Lewis, Jones & Baker (2012b) bod cyfnewid cod yn digwydd yn fynych mewn dosbarthiadau dwyieithog, er enghraifft, pan fo athrawon yn ymateb yn fympwyol i iaith y disgybl, er enghraifft, cyflwynwyd y wers yn Saesneg ond ymatebodd yr athro'n Gymraeg i ddisgybl sydd wedi cynnig ateb yn Gymraeg. Gellir ystyried hyn yn enghraifft o drawsieithu mympwyol; trawsieithu yn deillio o'r dysgwr yn hytrach nag wedi ei gynllunio ymlaen llaw gan yr athro.



Ffigwr 4: *Language Arrangements within Bilingual Schools in Wales* (Lewis, Jones & Baker, 2012b)

Mae Williams (2002) wedi egluro'r gwahaniaeth rhwng trawsieithu a chyfieithu, gyda'r ffocws amlwg ar newid modd iaith (modd goddefol a gweithredol) yn nodwedd o drawsieithu. Mae Lewis, Jones & Baker (2012b) yn nodi mai trawsieithu a chyfieithu a arsyllwyd amlaf yn ystod yr arsylwadau a gwblhawyd rhwng 2007 a 2012 mewn dosbarthiadau dwyieithog yng Nghymru. Cyflwynodd Lewis, Jones & Baker (2012b) ddosbarthiad triphlyg i egluro'r defnydd o gyfieithu mewn cyd-destunau amrywiol:

(i) Cyfieithu (dosbarth cyfan) / *Translation (whole class)* e.e. mewn dosbarthiadau yn cynnwys cymysgedd o ddysgwyr Cymraeg I1 a I2, eglura'r athro gynnwys y wers yn ddwyieithog ond nid yw'n gyfystyr â chyfieithu caeth 50:50;

(ii) Cyfieithu ar gyfer dysgwr Iaith2 (Iaith 2 Cymraeg neu Iaith 2 Saesneg) */ Translation for L2 learners (L2 Welsh or L2 English)* e.e. cyfnewid cod bwriadol gan yr athro i egluro agweddau o'r wers yn iaith gyntaf y dysgwr pan fo cynnwys y wers mewn iaith arall;

(iii) Cyfieithu termau pwnc penodol */ Translation of subject-related terminology*; gellir ystyried hyn fel 'sgaffaldio'r dysgu' pan fo'r athro yn cynnig termau'n ddwyieithog i gwblhau tasg mewn un iaith.

Yn ogystal â thrafod cyfieithu, eglurodd Lewis, Jones & Baker (2012b) ystyr y term 'cyd-ieithu' (*co-languaging*) sef trefniant iaith mewn dosbarth dwyieithog a gyflwynwyd yn wreiddiol gan García (2009) a Lewis (2011). Mae cyd-ieithu'n digwydd mewn sefyllfaoedd pan fo'r athro'n defnyddio dwy iaith yn y dosbarth i addysgu grwpiau ieithyddol gwahanol e.e. grŵp cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn bresennol mewn dosbarth TGAU Hanes. Cyfeiriodd Lewis, Jones & Baker (2012b) at wahanol fathau o gyd-ieithu sef 'cyd-ieithu mewn dosbarth dwyieithog' pan fo'r holl ddysgwyr yn deall y ddwy iaith, a 'chyd-ieithu mewn sefyllfa ddwyieithog' pan fo rhai o'r dysgwyr yn gallu dilyn y cyfarwyddiadau mewn dwy iaith yn unig. Mae'r diffiniadau hyn o gyd-ieithu yn gyfraniad pwysig i'r maes, ac yn adeiladu ar ymchwil blaenorol yn y maes (Jones & Martin-Jones, 2004).

Mae trafodaeth Lewis, Jones & Baker (2012b) ynglŷn â thrawsieithu ar gyfer 'dysgwyr dwyieithog datblygol' sef '*Emergent bilinguals'* yn ôl García (2009), wedi ymestyn y cysyniad gwreiddiol o drawsieithu yn y Gymraeg gan nad oedd Williams (1994, 1996,2002) wedi cyfeirio at drawsieithu gyda dysgwyr Cymraeg I2. Yn ôl Lewis, Jones & Baker (2012b) eglurodd Williams (2002: 47) mai strategaeth ar gyfer disgyblion gyda gafael eithaf da ar y ddwy iaith yw trawsieithu yn hytrach nag dull i gyflwyno ail iaith yn y lle cyntaf. Mae ystyried trawsieithu ar gyfer dysgwyr datblygol yn ddatblygiad pwysig o ran y defnydd o drawsieithu yng Nghymru gan fod y mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynnwys disgyblion o gefndiroedd ieithyddol amrywiol (Lewis, 2008: 75). Cyfeiriodd Lewis, Jones & Baker (2012b) at ystadegau 2011 yn nodi bod 38.2% o ddisgyblion ysgolion cynradd yn gallu siarad Cymraeg ond mai 7.6% yn unig oedd yn siarad Cymraeg yn y cartref (Llywodraeth Cymru, 2011).

Cyfeiriodd García (2009) at bwysigrwydd 'sgaffaldio' iaith a'r modd y defnyddiwyd trawsieithu ar gyfer dysgwyr dwyieithog datblygol. Pwysleisiodd García (2009) bod modd defnyddio mwy nag dwy iaith ar gyfer trawsieithu yn y dosbarth sydd yn ymestyniad o'r model trawsieithu gwreiddiol a gyflwynwyd gan Williams (1996, 2002), ac mae Lewis, Jones & Baker (2012b) yn cefnogi hyn.

Mae Lewis, Jones & Baker (2012b) yn atgoffa'r darllenydd bod Lewis (2008) a Jones (2010) wedi ymestyn y diffiniad o drawsieithu. Er enghraifft, cyfeiriodd Lewis, Jones & Baker (2012b:11) at 'drawsieithu dan reolaeth yr athro' fel a ganlyn:

> *Pupils work independently and usually choose how to complete the translanguaging activity, for example, gathering information from the internet in English, discussing the content in English and Welsh and completing the written work in Welsh. Another option would be to gather information in English, discuss the content in Welsh and complete the written work in English.*

Golyga 'trawsieithu dan reolaeth y disgybl' bod y disgybl yn cwblhau tasg a osodwyd gan yr athro, a'r disgybl sy'n penderfynu pryd y defnyddir dwy iaith yn ystod y dasg. Mae academyddion eraill wedi cyflwyno dosbarthiadau tebyg i 'drawsieithu dan reolaeth yr athro' a 'thrawsieithu dan reolaeth y disgybl'. Er enghraifft, cyfeiriodd Williams (2012) at '*Official translanguaging*' a '*Natural translanguaging'*. Mae Paulsrud (2014) yn trafod '*Pedagogic translanguaging*' a '*Non-pedagogic translanguaging*' sydd yn awgrymu gwahaniaethu rhwng trawsieithu i gwblhau tasgau academaidd a thrawsieithu i gyfathrebu'n gyffredinol. Mae angen ymchwilio ymhellach i drawsieithu sydd yn digwydd yn 'swyddogol' ac yn 'answyddogol' mewn dosbarthiadau dwyieithog yng Nghymru a thu hwnt.

Yn ôl Lewis, Jones & Baker (2012b:9), 'esblygiad' trawsieithu, yn hytrach nag 'chwyldro' a welwyd o safbwynt trawsieithu yn y dosbarth sef '*…an evolution of the practice of translanguaging but not a fast revolution.'* Golyga hyn nad oedd trawsieithu wedi datblygu'n sylweddol o'i gymharu â'r hyn a gyflwynwyd gyntaf yn ysgolion Cymru ar ddechrau'r 1980au. Serch hynny, cyfeiriodd Lewis, Jones & Baker (2012b: 9) at ganfyddiadau Jones & Lewis (2014) ynglŷn â'r defnydd o drawsieithu gydag gwahanol oedrannau o ddisgyblion, a'r rhesymau pam bod y mwyafrif o drawsieithu wedi digwydd yn nosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2:

> *This is possibly due to the more project-based, progressive tradition within primary education, where less formal and traditional approaches may allow a higher probability of experimentation and where pupils are encouraged to make more flexible use of their bilingual skills.*

Cyfeiriodd Lewis, Jones & Baker (2012b) eto at y ffaith bod addysgu dwyieithog yn ymddangos yn fwy cyffredin mewn rhai pynciau nag eraill, ac mae hyn yn adlewyrchu'r traddodiad o gyflwyno rhai pynciau fel mathemateg a'r gwyddorau drwy'r Saesneg ers cychwyn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg (Lewis, 2011). Cyfeiriodd Lewis, Jones & Baker (2012b:9) at ganfyddiad Jones & Lewis (2014) ynglŷn â'r defnydd o drawsieithu o fewn gwahanol bynciau cwricwlaidd, a bod y rhan fwyaf o dasgau trawsieithu yn digwydd gan amlaf yn y pynciau allgraidd, ac efallai bod y defnydd o drawsieithu yn dibynnu i ryw raddau ar

gynnwys y pwnc a gyflwynwyd. Gwelwyd trawsieithu yn bennaf mewn gwersi fel hanes a daearyddiaeth yn hytrach na mathemateg a gwyddoniaeth, er nad oes fawr o reswm pam na all trawsieithu ddigwydd mewn gwersi fel mathemateg a gwyddoniaeth hefyd (Lewis, Jones & Baker, 2012b). Diddorol ydy sylw Arfarnwr 1 (Atodiad 8.3.2) ynglŷn â pherthnasedd y canfyddiad hwn mewn cyd-destunau rhyngwladol:

> *It was interesting to read of how translanguaging is found more strongly in the humanities and arts; in other parts of the world this would not be so clear-cut, but, as information technology and IT terms take hold, one finds not so much translanguaging as the direct importation of (usually English) terminology into many other subjects, such that a sentence, say, in Gujarati, might include words or phrases which will always be in English and which will never be translated.*

Y neges amlwg yma ydyw bod dylanwad technoleg yn hollbresennol o safbwynt hyrwyddo ieithoedd mwyafrifol, a bod hyn yn dylanwadu ar dasgau trawsieithu yn y dosbarth. Bydd yr adran nesaf yn ystyried rhai o'r gwendidau sy`n gysylltiedig ag erthygl Lewis, Jones & Baker (2012b).

3.5.3 Beirniadaeth Cyhoeddiad 5

Ystyria'r awdur bod gwendidau yn y deipoleg '*Language Arrangements Within Bilingual Schools in Wales*' a gyflwynodd Lewis, Jones & Baker (2012b), er enghraifft, ni chyfeiriwyd at gyfnewid cod (bwriadol ac anfwriadol) o dan y pennawd 'Athro yn ymateb i iaith y plentyn' (*Teacher responds to language of pupil*). Nododd Arfarnwr 1 (Atodiad 8.3.2) y buasai wedi bod yn fuddiol trafod y cysylltiad rhwng trawsieithu a chyfnewid cod ymhellach yn erthygl Lewis, Jones & Baker (2012b):

> *One of the pedagogic issues which I would have liked to have seen addressed is that of the spontaneity of translanguaging: how planned, intentional and deliberate, or 'everyday' and unplanned or emergent is the translanguaging in Welsh classrooms? In this respect it would have been interesting to have included a little more discussion on the differences between codes/code-switching and translanguages, as it seems to me that this could be a useful heuristic device to clarify the differences: the former more routinely and subconsciously embedded in context than the latter.*

Mae modd mireinio'r lliflun '*Language Arrangements Within Bilingual Schools in Wales*' a ymddangosodd yn Lewis, Jones & Baker (2012b). Mae'r lliflun 'Gwahanol Drefniadau Iaith yn y Dosbarth' (Ffigwr 5) a gyflwynwyd gyntaf yn yr adroddiad hwn (Jones, 2016), yn cyplysu'r defnydd o gyfieithu mewn cyd-destunau gwahanol (er enghraifft, cyfieithu ar gyfer dosbarth cyfan, cyfieithu termau pwnc penodol), ac mae'n cyfleu bod modd i'r cyfan ddigwydd o fewn yr un wers. Hefyd ychwanegwyd 'Athro yn ymateb i iaith y disgybl' o dan y categori 'Defnyddio dwy iaith yn y dosbarth: wedi ei gynllunio' gan fod athrawon ar adegau yn cyfnewid cod yn fwriadus, er enghraifft, mewn Ysgol Gynradd Ddwy Ffrwd pan fo grwpiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn bodoli o fewn yr un dosbarth.



Ffigwr 5: Gwahanol Drefniadau Iaith yn y Dosbarth (Jones, 2016)

Cododd Arfarnwr 1 (Atodiad 8.3.2) gwestiwn pwysig ynglŷn â'r honiad bod trawsieithu'n hyrwyddo dysgu ('*deep learning*') yn y dosbarth, ac mae angen ymchwil pellach i gefnogi hyn:

> *Further, the closing part of the paper raised a very interesting issue – of deep learning and its relationship to translanguaging – and I felt that this was so important and interesting that it could have been developed further; perhaps that is for another paper, though the processes of deep learning and translanguaging could be seen to overlap considerably.*

Er nad oes trafodaeth drylwyr ynglŷn ag arwyddocâd yr ymadrodd '*deep learning*' yng nghyd-destun trawsieithu, yr honiad gwreiddiol gan Williams (1996, 2002) oedd bod trawsieithu'n datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'r testun dan sylw gan fod angen egluro'r cynnwys mewn iaith oedd yn wahanol i'r testun gwreiddiol. Mae'n deg nodi mai gwendid cyffredinol Lewis, Jones & Baker (2012b) ydy'r diffyg tystiolaeth i gefnogi'r honiad bod trawsieithu'n fanteisiol o ran datblygiad gwybyddol y dysgwyr, ac mae angen tystiolaeth o'r fath cyn y bydd trawsieithu'n ennill ei blwyf mewn dosbarthiadau dwyieithog ledled Cymru a thu hwnt. Bydd yr adran nesaf yn trafod Cyhoeddiad 6 (Jones, 2017) gan ffocysu ar gynllunio ieithyddol ar lefel genedlaethol (er enghraifft, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) a lleol (er enghraifft, Cyngor Gwynedd, 2014) ar gyfer hyrwyddo addysg ddwyieithog. Cyfeiria Jones (2017) at yr angen i ysgolion drefnu cyfleoedd i drawsieithu mewn gwahanol gyd-destunau o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys, oed-berthnasol.

Cyfeiriadau:

Baker, C. (1993). Bilingual Education in Wales. In H. Baetens Beardsmore (ed.), *European Models of Bilingual Education***.** Clevedon: Multilingual Matters.

Estyn, (2014). *Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog.* Caerdydd: Estyn.

García, O. (2009). *Bilingual education in the 21st century: A global perspective.* Oxford: Wiley-Blackwell.

García, O. (2013). From diglossia to transglossia: Bilingual and multilingual classrooms in the 21st century. In C. Abello-Contesse and Ruben Chacón Beltrán (eds.), *Bilingualism in a school setting*. Bristol: Multilingual Matters.

Jones, B. (2010). Amrywiaeth Caleidosgopig: addysg ddwyieithog yng Nghymru heddiw. Gwerddon, Rhifyn 5, Ionawr 2010, tt.9-26.

Jones, B. & Lewis, W.G. (2014). Language Arrangements within Bilingual Education. In Thomas, E.M., & Mennen, I. (eds.), *Advances in the Study of Bilingualism*. Bristol: Multilingual Matters.

Jones, B. (2016). Adroddiad Critigol PhD Trwy Waith Cyhoeddiadau: Ymchwilio Addysg Ddwyieithog yn Ysgolion Cymru: Amrywiaeth Caleidosgopig. Thesis PhD heb ei gyhoeddi. Bangor: Prifysgol Bangor.
PhD by Published Work Critical Report: Ymchwilio Addysg Ddwyieithog yn Ysgolion Cymru: Amrywiaeth Caleidosgopig. Unpublished PhD thesis. Bangor: Bangor University.

Jones, B. (2017). Translanguaging in Bilingual Schools in Wales. *Journal of Language, Identity and Education,* 16 (4), pp.211-227.

Jones, D.V. & Martin-Jones, M. (2004). Bilingual Education and Language Revitalization in Wales: Past Achievements and Current Issues. In Tollefson, J. & Tsui, A. (eds.), *Medium of instruction policies* (pp. 43-70). Mahwah, N.J: L. Erlbaum Publishers.

Lewis, W.G. (2008). Current challenges in bilingual education in Wales. *Multilingualism and Minority Languages: Achievements and challenges in education, AILA Review 21* (2008): 69–86, Amsterdam: John Benjamins Publishing Company.

Lewis, W.G. (2011). Addysg Ddwyieithog yn yr unfed ganrif ar hugain: adolygu'r cyd-destun rhyngwladol. *Gwerddon*, Rhifyn 7, Ionawr 2011.

Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2012a). Translanguaging: origins and development from school to street and beyond. *Educational Research and Evaluation,* 18 (7), 641-654.

Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2012b). Translanguaging: developing its conceptualisation and contextualisation. *Educational Research and Evaluation*, 18 (7), 655-670.

Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2013). 100 Bilingual Lessons: Distributing two languages in classrooms. In Abello-Contesse, C., Chandler, P.M., López-Jiménez, M.D., & Chacón Beltrán, R. (eds.), *Bilingual and Multilingual Education in the 21st Century*. Bristol: Multilingual Matters.

Llywodraeth Cymru (2011). *Cyfrifiad Ysgolion 2011*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Paulsrud, B. Y. (2014). *English-Medium Instruction in Sweden*. Stockholm: Stockholm University.

Williams, C. (1994). Arfarniad o Ddulliau Dysgu ac Addysgu yng Nghyd-destun Addysg Uwchradd Ddwyieithog. Unpublished PhD thesis. Bangor: University of Wales.

Williams, C. (1996). Secondary education: Teaching in the Bilingual Situation', in Williams, C., Lewis, G. & Baker, C. (eds.), *The Language Policy: Taking stock*. Llangefni (Wales): CAI.

Williams, C. (2000). Welsh-medium and bilingual teaching in the further education sector. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 3(2), 129-148.
Williams, C. (2002). *A Language Gained: A Study of Language Immersion at 11-16 Years of Age.* Bangor: School of Education.

Williams, C. (2012). *The National Immersion Scheme Guidance for teachers on Subject Language Threshold: accelerating the process of reaching the threshold*. Cardiff: The Welsh Language Board.

3.6 Cyhoeddiad 6: Jones, B. (2017). Translanguaging in Bilingual Schools in Wales. *Journal of Language, Identity and Education,* 16 (4), 211-227.

3.6.1 Cefndir Cyhoeddiad 6

Yn dilyn cyflwyniad llafar '*Translanguaging in bilingual schools in Wales*' yng Nghynhadledd AAAL (*American Association for Applied Linguistics*) yn Orlando, Florida ym mis Ebrill 2016, derbyniodd yr awdur wahoddiad i gyhoeddi erthygl mewn rhifyn arbennig o'r cylchgrawn *Journal of Language, Identity and Education.* Teitl y rhifyn arbennig ydyw, *Breaking Away From The Multilingual Solitudes In Language Education: International Perspectives,* dan olygyddiaeth Jasone Cenoz (University of the Basque Country, UPV/EHU) ac Ofelia García (Graduate Center CUNY). Ffocws yr erthygl, 'Translanguaging in Bilingual Schools in Wales' yw'r datblygiadau diweddar o ran trawsieithu yn y dosbarth, ac ymchwilir y modd gall cynllunio ieithyddol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol hyrwyddo'r defnydd o drawsieithu. Penderfynwyd cynnwys data o brosiect ymchwil diweddar (Roberts et al., 2015) y bu'r awdur ynghlwm ag o, yn ogystal ag enghreifftiau o drawsieithu yn deillio o waith maes mewn ysgolion (2007-2012) nas cyhoeddwyd o'r blaen. Bydd yr adran nesaf yn amlinellu cyfraniad posibl y cyhoeddiad dan sylw i'r maes.

3.6.2 Cyfraniad Cyhoeddiad 6 i'r maes

Mae'r erthygl yn ffocysu ar gynllunio ieithyddol ar lefel genedlaethol, leol ac ysgol er mwyn hyrwyddo addysg ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru. Archwilia Jones (2017) enghreifftiau o gynllunio ieithyddol bwriadus ym myd addysg ar sawl lefel yn cynnwys:

(i) cynllunio ar lefel cenedlaethol, er enghraifft, *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Gymraeg*, (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010);
(ii) cynllunio ieithyddol ar lefel Awdurdod Addysg Leol, er enghraifft, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cyngor Gwynedd, 2014);
(iii) cynllunio ysgol gyfan, er enghraifft, polisi iaith ysgol uwchradd ac ysgol gynradd.

Trafododd Jones (2017) gyfleoedd i gynllunio ieithyddol yn y sector addysg yng Nghymru ar lefel genedlaethol yng nghyd-destun y *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010). Yn ôl Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) honnwyd bod y *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* yn garreg filltir hanesyddol yn natblygiad addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn cyflwyno cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru o safbwynt hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Eglura Jones (2017) mai ffocws allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) yw cynorthwyo dysgwyr i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r

Saesneg drwy addysg cyfrwng Cymraeg, o'r blynyddoedd cynnar ymlaen. Esbonia Jones (2017) sut mae awdurdodau lleol yn paratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ac edrychwyd yn benodol ar CSGA Awdurdod Addysg Gwynedd (2014). Eglura Jones (2017) mai nod Cyngor Gwynedd (2014) yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Er mai nod cyffredinol Cyngor Gwynedd (2014) yw datblygu dwyieithrwydd pob disgybl, rhoddwyd pwyslais ar y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen er mwyn gosod sylfeini cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Ystyria Jones (2017) goblygiadau hyn yn ymarferol o safbwynt datblygu sgiliau trawsieithu'r disgybl.

Ar lefel micro, cyfeiriodd Jones (2017) at enghreifftiau o drawsieithu ar lefel ysgol uwchradd a chynradd. Cyfeiriodd Jones (2017) at gymhlethdod cynllunio cwricwlwm mewn ysgolion dwyieithog, yn arbennig y modd mae angen trefnu a dyrannu iaith ar gyfer addysgu a dysgu effeithiol. Trafodir trawsieithu yng Nghymru o safbwynt theori, polisi ac ymarfer, ac ystyriwyd agweddau o hyn drwy gyfeirio at ddosbarthiadau ysgol mewn cyd-destunau rhyngwladol (fel Sweden) sydd wedi addasu'r modelau trawsieithu a gyflwynodd Lewis et al. (2012a) a Jones & Lewis (2014).

Pwysleisia Jones (2017) bod defnyddio trawsieithu'n ddibynnol ar nifer o ffactorau yn cynnwys sgiliau dwyieithog/amlieithog yr athrawon, proffil ieithyddol y disgyblion, trefniadau asesu'r ysgol, dyheadau'r rhieni/gwarchodwyr a natur ieithyddol y gymuned. Yn ôl Jones (2017) mae nifer o ystyriaethau'n wynebu athrawon pan gyflwynir cyfleoedd i drawsieithu yn y dosbarth, er enghraifft, hyfedredd ieithyddol y disgyblion (trawsieithu ar gyfer disgyblion dwyieithog hyfedr a disgyblion dwyieithog datblygol), amrywio cyfrwng iaith y mewnbwn a'r allbwn yn ystod tasgau trawsieithu, sgaffaldio trawsieithu a chiwiau trawsieithu.

Edrychodd Jones (2017) yn feirniadol ar fodelau o drawsieithu yn cynnwys y model gan Jones & Lewis (2014), Paulsrud (2014) a Creese & Blackledge (2015). Eglurodd Jones (2017) nad oes diffiniad amlwg o drawsieithu fel amlygwyd gan Lewis et al. (2012a) a García & Li Wei (2014). Amlyga Jones (2017) bod y diffiniad gwreiddiol o drawsieithu a gyflwynodd Williams (1994, 1996) wedi'i addasu a'i gymhwyso gan academyddion fel García (2009) a Creese & Blackledge (2010, 2014) ar gyfer ysgolion a chymunedau dwyieithog ac amlieithog amrywiol ledled y byd. Trafododd Jones (2017) fodel trawsieithu a gyflwynodd Paulsrud (2014) sydd yn ffocysu ar 'drawsieithu wedi ei gynllunio ar gyfer addysgu' (*pedagogical translanguaging*) a 'thrawsieithu heb ei gynllunio ar gyfer addysgu' (*non-pedagogical translanguaging*). Yn sgil datblygiadau ar lefel rhyngwladol yn y maes, cyflwyna Jones (2017) ddosbarthiad newydd ar gyfer trawsieithu yn y dosbarth sef 'Trawsieithu Rhyngbersonol Sylfaenol'

(BIT-*Basic Interpersonal Translanguaging*) a 'Trawsieithu Academaidd Gwybyddol' (CAT-*Cognitive Academic Translanguaging*).

Mae datblygu dwyieithrwydd disgyblion mewn sefyllfaoedd 'dysgu ffurfiol' yn ogystal â sefyllfaoedd 'dysgu anffurfiol' yn hollbwysig, fel y crybwyllwyd gan yr Athro Sioned Davies (Llywodraeth Cymru, 2013b). Honnodd Davies (Llywodraeth Cymru, 2013b) mai un o'r heriau mwyaf yw annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, mewn gweithgareddau cymdeithasol ac yn y gymuned. Mae un o argymhellion Llywodraeth Cymru (2013b) yn cyfeirio at alluogi disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol:

> Mae cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio ac ymarfer sgiliau iaith yn hanfodol i gadarnhau'r hyn a ddysgir yn yr ysgol ac mae angen i nifer o randdeiliaid rannu'r cyfrifoldeb. Dylent o leiaf gynnwys:
> • cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio Cymraeg a chlywed yr iaith yn cael ei defnyddio y tu allan i'r ystafell ddosbarth, o fewn yr ysgol. Dylai hyn fod yn fenter i'r ysgol gyfan yn hytrach nag yn gyfrifoldeb i adrannau ac athrawon Cymraeg yn unig;
> • mwy o gyfleoedd i ddisgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg ddefnyddio a chlywed Cymraeg y tu allan i'r ysgol (Llywodraeth Cymru, 2013:45).

Mae gwaith Jones (2017) yn ystyried cyfleoedd i drawsieithu mewn sefyllfaoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol, ac yn cynnig ffordd ymlaen ynglŷn â gwireddu'r argymhelliad uchod ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Cyfeiriodd Williams (2012) at 'drawsieithu swyddogol' a 'thrawsieithu naturiol', ac yn dilyn cais gan yr awdur am eglurhad o'r termau dan sylw, derbyniodd yr awdur y neges ganlynol gan Williams (2016):

> Yn y swyddogol, mae trawsieithu'n cael ei osod fel dull dysgu a byddai disgwyl i'r disgyblion allu defnyddio'r eirfa a'r patrymau brawddegu, berfau ayb yn y ddwy iaith (ond o fewn eu gallu a'u datblygiad yn yr ail iaith ar y pryd). Rhywbeth sy'n digwydd yn fwy naturiol yw'r llall lle mae'r geiriau, y patrymau brawddegu, y berfau ayb yn digwydd heb iddyn nhw sylweddoli hynny oherwydd bod eu gallu i ddefnyddio'r ail iaith yn cynyddu ac nad ydyn nhw mewn gwirionedd yn gosod ffiniau rhwng y ddwy. Gallai fod yn digwydd heb yn wybod iddyn nhw e.e. yn y gampfa, yn y gweithdy celf, ayb. lle mae angen ymateb yn sydyn, neu lle maen nhw'n trafod yn anffurfiol gyda disgybl arall a heb yn wybod iddyn nhw yn defnyddio'r ail iaith yn ogystal â'r gyntaf gan fod yr iaith gyntaf ac elfennau o'r ail yn rhan o'u cynhysgaeth ieithyddol nhw wrth iddyn nhw ddatblygu.

Mae angen tystiolaeth bellach i enghreifftio'r cysyniad o drawsieithu 'swyddogol' a 'naturiol'.

3.6.3 Beirniadaeth Cyhoeddiad 6

Er bod Jones (2017) wedi archwilio ai gwahanu ieithoedd (e.e. ar gyfer gwahanol fodiwlau/pynciau) ydyw'r ffordd ymlaen o ran hybu dwyieithrwydd ynteu gyfuno ieithoedd (e.e. trawsieithu) o fewn yr un wers, prin yw'r dystiolaeth i brofi os oes un ffordd benodol yn fanteisiol o gyflwyno addysg ddwyieithog. Cyfeiriodd Jones (2017) at ymchwil diweddar Estyn (2014) a Roberts et al. (2015) sydd yn awgrymu nad yw'r defnydd o drawsieithu yn digwydd ar raddfa eang mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru. Serch hynny, prin yw ymchwil empirig yr awdur i gefnogi hyn.

Damcaniaethol yn unig yw'r cysyniad o drawsieithu mewn gwahanol sefyllfaoedd yn yr ysgol, er enghraifft, trawsieithu anffurfiol heb amcan academaidd/pedagogaidd (Trawsieithu Rhyngbersonol Sylfaenol / *Basic Interpersonal Translanguaging*) a thrawsieithu mewn sefyllfaoedd academaidd ar gyfer addysgu a dysgu (Trawsieithu academaidd Gwybyddol / *Cognitive Academic Translanguaging*). Mae angen llawer mwy o ymchwil empirig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru i gefnogi'r cysyniad hwn o fewn trawsieithu.

Cyfeiriadau:

Creese, A. & Blackledge, A. (2015). Translanguaging and Identity in Educational Settings. *Annual Review of Applied Linguistics*, 35, pp 20-35.

Cyngor Gwynedd (2014). *Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg*. Cyngor Gwynedd. Ar gael: https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-Strategol-Y-Gymraeg-mewn-Addysg.pdf
Darllenwyd: 03/02/2016

Estyn, (2014). *Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog.* Caerdydd: Estyn.

García, O. (2009). *Bilingual education in the 21st Century: A global perspective.* Oxford: Wiley-Blackwell.

García, O. & Li Wei, (2014). *Translanguaging: Language, Bilingualism and Education.* Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Jones, B. & Lewis, W.G. (2014). Language Arrangements within Bilingual Education. In Thomas, E.M., & Mennen, I. (eds.), *Advances in the Study of Bilingualism*. Bristol: Multilingual Matters.

Jones, B. (2017). Translanguaging in Bilingual Schools in Wales. *Journal of Language, Identity and Education,* 16 (4), pp.211-227.

Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2012a). Translanguaging: origins and development from school to street and beyond. *Educational Research and Evaluation,* 18 (7), 641-654.

Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2012b). Translanguaging: developing its conceptualisation and contextualisation. *Educational Research and Evaluation*, 18 (7), 655-670.

Lewis, W.G., Jones, B., & Baker, C. (2013). 100 Bilingual Lessons: Distributing two languages in classrooms. In Abello-Contesse, C., Chandler, P.M., López-Jiménez, M.D., & Chacón Beltrán, R. (eds.), *Bilingual and Multilingual Education in the 21st Century*. Bristol: Multilingual Matters.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010). *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cymru (2013b). *Un iaith i bawb*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Paulsrud, B. Y. (2014). *English-Medium Instruction in Sweden*. Stockholm: Stockholm University.

Roberts, D.B., Thomas, E.M., Jones, B., Williams, N.M., Young, N., Cunnington, L., Williams, D., & Lane, D. (2015). Barn athrawon a darlithwyr addysg ôl-16 oed Gwynedd a Môn am ddarpariaeth addysg Gymraeg a Dwyieithog ôl-16 / *Views of Post -16 education teachers and lecturers on Welsh and bilingual medium education in Gwynedd and Anglesey.* Unpublished report.

Williams, C. (1994). Arfarniad o Ddulliau Dysgu ac Addysgu yng Nghyd-destun Addysg Uwchradd Ddwyieithog. Unpublished PhD thesis. Bangor: University of Wales.

Williams, C. (1996). Secondary education: Teaching in the Bilingual Situation. In Williams, C., Lewis, W. G. & Baker, C. (eds.), *The Language Policy: Taking Stock*. Llangefni (Wales): CAI.

Williams, C. (2012). *The National Immersion Scheme Guidance for teachers on Subject Language Threshold: accelerating the process of reaching the threshold.* Cardiff: The Welsh Language Board.

Williams, C. (2016). E-bost: Ymholiad trawsieithu. Anfonwyd 22ain Mai 2016. Darllenwyd 22ain Mai 2016.

3.6.3 Cyfraniad y cyhoeddiadau

At ei gilydd, gellir casglu mai prif gyfraniad y cyhoeddiadau a drafodwyd (Jones, 2010, 2017; Jones & Lewis, 2014; Lewis, Jones & Baker, 2012a, 2012b, 2013) oedd:

i. Diffinio beth ydyw addysg ddwyieithog yng nghyd-destun ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru;

ii. Rhoi trefn ar y gwahanol fathau o drefniadau iaith sydd ar waith mewn dosbarthiadau dwyieithog mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru;

iii. Egluro tarddiad trawsieithu yn y dosbarth, a chyflwyno modelau newydd o drawsieithu gan ystyried hyfedredd ieithyddol y dysgwyr (er enghraifft, dysgwyr hyfedr ddwyieithog a dysgwyr dwyieithog datblygol);

iv. Cynnig dosbarthiad newydd i gynrychioli trawsieithu mewn gwahanol gyd-destunau, er enghraifft, BIT (*Basic Interpersonal Translanguaging*) neu Trawsieithu Rhyngbersonol Sylfaenol (TRhS) a CAT (*Cognitive Academic Translanguaging*) neu Trawsieithu Academaidd Gwybyddol (TAG)

iv. Cyflwyno deunydd ar gyfer gwefan 'Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru' a drafodir yn yr adran nesaf.

3.7 Gwefan 'Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru'

Bwriad y wefan 'Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru' (a greywyd gan awdur yr adroddiad hwn) ydoedd rhannu canfyddiadau Prosiect Ymchwil i Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru mor eang â phosibl ymysg ymarferwyr. Gweler y cysylltiadau canlynol ar gyfer y wefan:

http://www.bangor.ac.uk/bilingualism/besw.php.cy

http://www.bangor.ac.uk/bilingualism/besw.php.en

(cyrchwyd 15.11.16)

Mae'r wefan wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

i. Cefndir Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru

ii. Canlyniadau Cychwynnol

iii. Cynllunio Addysg Ddwyieithog
   a. Beth ydyw Addysg Ddwyieithog?
   b. Dyraniad Iaith yn yr Ysgol

iv. Gweithredu Addysg Ddwyieithog
   a. Trefniadau Iaith yn y Dosbarth
   b. Trawsieithu

v. Manteision o fod yn Ddwyieithog

vi. Gwybodaeth Ychwanegol
   a. Darllen Pellach
   b. Rhestr Termau
   c. Darlithoedd Cyffredinol
   d. Cysylltiadau Defnyddiol

Amcanwyd i ddarparu deunydd ar gyfer hyfforddi athrawon mewn ysgolion dwyieithog yng Nghymru a thu hwnt. Amlygwyd droeon yr angen i ddiffinio addysg ddwyieithog yng Nghymru, er enghraifft, cafwyd cyfeiriad at y gwahanol fathau o 'ysgolion dwyieithog' yn y *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2010:2.14):

> **2.14** Defnyddir y term 'darpariaeth ddwyieithog' i gyfeirio at amrywiaeth eang o leoliadau addysgu a dysgu lle y defnyddir y Gymraeg i raddau gwahanol wrth gyflwyno'r ddarpariaeth. Felly, gall 'ysgolion dwyieithog' gynnwys yr ysgolion hynny lle cyflwynir cyfran helaeth o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg, yr ysgolion hynny lle ceir dwy ffrwd – ffrwd cyfrwng Cymraeg a ffrwd cyfrwng Saesneg – a addysgir ar wahân, a'r ysgolion hynny lle yr addysgir dim ond ychydig elfennau o'r cwricwlwm neu yr addysgir nifer fach yn unig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn colegau addysg bellach yn benodol, gall darpariaeth ddwyieithog gyfeirio at sefyllfaoedd lle yr addysgir dosbarthiadau ar yr un pryd yn y ddwy iaith, neu lle mae cyrsiau yn cynnwys modiwlau cyfrwng Cymraeg.

Defnyddiwyd y wefan i gyflwyno Teipoleg Addysg Ddwyieithog yng Nghymru (Ffigwr 6) i adnabod y gwahanol fodelau o addysg ddwyieithog a gyflwynwyd gan Jones & Lewis (2014), Lewis, Jones & Baker (2012b, 2013) mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru.



Ffigwr 6: Teipoleg Addysg Ddwyieithog yng Nghymru (gweler gwefan 'Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru' http://www.bangor.ac.uk/bilingualism/besw.php.cy)

Dyma'r ymgais ddarluniadol gyntaf o'i bath a gynlluniwyd gan yr awdur (Bryn Jones) i ddiffinio'r gwahanol drefniadau iaith o dan ambarél 'Addysg ddwyieithog' yng Nghymru. Yn gyntaf, amlygwyd y gwahaniaeth rhwng 'addysgu a dysgu dwyieithog' ac 'addysgu a dysgu mewn sefyllfa ddwyieithog' fel awgrymwyd gyntaf gan Williams (2002). Ymdrechwyd i ddatblygu dwyieithrwydd pob disgybl mewn 'dosbarth dwyieithog' ond canolbwyntio ar un iaith a wna'r disgybl mewn 'sefyllfa ddwyieithog'.
Er bod y deipoleg dan sylw yn ymgais i ddarlunio'r gwahanol fathau o ysgolion dwyieithog oedd yn rhan o'r ymchwil, teimla awdur yr adroddiad hwn mai rhan o'r darlun a gyflwynwyd yma, a bod angen ymchwilio ymhellach mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog nad oedd yn rhan o'r ymchwil gwreiddiol rhwng 2007 a 2012.

Cyflwynwyd y deipoleg yn y ddwy gynhadledd genedlaethol 'Addysg Ddwyieithog Yng Nghymru' a drefnwyd gan yr awdur (Bryn Jones) yn 2012 i rannu canfyddiadau'r Prosiect Ymchwil i Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru rhwng 2007 a 2012. Cofnododd Andrews (2012) sylwadau defnyddiol y cynadleddwyr (Ffigwr 7) ynglŷn â'r Deipoleg Addysg Ddwyieithog yng Nghymru gan y cynadleddwyr yn y Gynhadledd Addysg Ddwyieithog a gynhaliwyd yng Nghaerdydd (27.03.2012). Er enghraifft, dywedwyd y buasai'n fuddiol cyflwyno teipoleg ar gyfer gwahanol gyfnodau allweddol, a bod angen egluro'r categorïau ymhellach.

Tasg 1: adnabod gwahanol fathau o addysg ddwyieithog
Dim modd uniaethu ag unrhyw gategori yn y diagram.
Categorïau'r golofn chwith yn amhosibl gan nad oes modd osgoi dwyieithrwydd.
Dylai'r categorïau newid o un cyfnod allweddol i'r llall.
Dylai ysgolion adnabod pynciau gwahanol i arbrofi gyda nhw yn ddwyieithog a pheidio â chyfyngu dwyieithrwydd i wyddoniaeth.

Ffigwr 7: Sylwadau cynadleddwyr ynglŷn â Theipoleg Addysg Ddwyieithog yng Nghymru (Andrews, 2012)

Ystyria'r awdur mai cryfder y deipoleg ydy'r pwyslais a roddir ar adnabod y ddarpariaeth ddwyieithog yn nhermau deilliannau ieithyddol y disgybl mewn amrywiaeth o gyd-destunau dwyieithog. Eglurodd Llywodraeth Cymru (2010) bod y deilliannau ieithyddol ar gyfer ysgolion dwyieithog yn amrywio ledled Cymru:

> **2.15** Bydd deilliannau ieithyddol y mathau gwahanol hyn o ddarpariaeth yn amrywio'n sylweddol. Os yw dysgwr o gefndir Cymraeg yn mynychu ysgol ddwyieithog, gall cwricwlwm cytbwys drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fod yn effeithiol o ran sicrhau rhuglder yn y ddwy iaith. Dyma'r achos mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Fodd bynnag, os nad yw sgiliau iaith dysgwyr yn y Gymraeg yn cael eu hatgyfnerthu gan y teulu neu'r gymuned, nid ydynt yn debygol o fod yn hollol rugl a hyderus yn y Gymraeg pan fyddant yn dysgu mewn lleoliad dwyieithog. Felly, nid yw darpariaeth ddwyieithog bob amser yn sicrhau bod unigolyn yn datblygu i fod yn siaradwr dwyieithog. Mae'n bwysig bod datblygiadau polisi yn cael eu cynllunio ar sail dealltwriaeth fanwl o'r amrywiaeth eang o ddeilliannau a gaiff dysgwyr drwy ddarpariaeth ddwyieithog. Dylai lleoliadau dwyieithog geisio darparu cymaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ag y bo angen er mwyn i ddysgwyr fod yn rhugl yn y ddwy iaith.

Mae'r deipoleg yn amlygu'r 'amrywiaeth caleidosgopig' sydd yn nodweddu'r ddarpariaeth addysg ddwyieithog yng Nghymru. Er enghraifft, mewn ambell ysgol defnyddiwyd y Saesneg a'r Gymraeg ar gyfer cyflwyno modiwlau gwahanol o fewn yr un pwnc (fel gwyddoniaeth); defnyddiwyd un iaith yn y gwersi ond y deilliant ieithyddol oedd dwyieithrwydd ar gyfer pob disgybl yn y dosbarth. Mae ystyried addysg ddwyieithog yng nghyd- destun y deilliannau ar gyfer y disgybl yn hytrach nag yn ôl trefniant cwricwlaidd (er enghraifft, 'dosbarth dwyieithog / 'ysgol ddwyieithog') yn allweddol er mwyn osgoi'r

cymhlethdod sydd yn gysylltiedig â diffinio addysg ddwyieithog yng Nghymru (a thu hwnt). Er enghraifft, cyfeirir at 'ysgol ddwyieithog' yn cynnwys dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar wahân h.y. y sefyllfa ac nid y disgyblion (gan amlaf) sydd yn ddwyieithog.

Er cyflwyno Teipoleg Addysg Ddwyieithog yng Nghymru dylid pwysleisio nad yw'n cyfleu'r cymhlethdod a'r amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol sydd yn nodweddiadol o addysg ddwyieithog yng Nghymru. Er enghraifft, pwysleisiodd Brooks (2014:11) nad ydy polisi iaith ysgolion uwchradd dwyieithog yng Nghymru wedi'i seilio ar dystiolaeth empeiraidd, a chyfeiriodd at y 'cawdel o wahanol fodelau o addysg ddwyieithog' sy'n bodoli mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith:

> Ceir ysgolion ble y mae'n rhaid i'r plant fod yn hyfedr ddwyieithog, ysgolion ble cânt fod yn llai na hyfedr mewn Cymraeg, ac ysgolion ble nad oes fawr o ots am y Gymraeg o gwbl. Ceir ysgolion ble defnyddir Cymraeg a Saesneg ochr-yn-ochr yn yr un gwersi, ysgolion ble y ceir ffrydiau Cymraeg a Saesneg ar wahân, ysgolion ble yr addysgir talpiau o'r cwricwlwm trwy'r Gymraeg a thalpiau eraill trwy'r Saesneg, ysgolion ble mae'n rhaid i'r disgyblion Cymraeg ddilyn addysg ddwyieithog ond disgyblion Saesneg yn cael addysg uniaith. Hwyrach yn wir fod rhai o'r modelau hyn yn fwy effeithiol na'i gilydd o ran caffael iaith a meithrin llythrennedd a rhuglder mewn dwy iaith darged. *Ond ni all pob un ohonynt fod y mwyaf effeithiol.*

Er ei fod yn ddefnyddiol fel man cychwyn, mae angen datblygu'r wefan ymhellach, er enghraifft, nid oes sylwebaeth Saesneg ar gyfer y cyfweliadau gydag athrawon cyfrwng Cymraeg. Mae angen cynnwys gwybodaeth ynglŷn â datblygiadau diweddaraf o fewn y maes, er enghraifft, trawsieithu mewn cyd-destunau rhyngwladol. Er enghraifft, mae gwefan LEAP (<http://leap.tki.org.nz/About-LEAP> *Language Enhancing the Achievement of Pasifika students*) sy'n trafod addysg ddwyieithog yn Seland Newydd, yn cynnig arweiniad defnyddiol ar gyfer y ffordd ymlaen, a dylid marchnata'r wefan 'Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru' yn yr un modd.

Bydd yr adran nesaf yn trafod ardrawiad cyhoeddiadau Bryn Jones (ac eraill) ar sail academaidd, yn ogystal ag ar lefel mwy ymarferol ar y llwyfan cenedlaethol ac yn rhyngwladol.

4 Ardrawiad cyhoeddiadau Bryn Jones

4.1 Ardrawiad: cyflwyniad

Cyflwynodd Baker (2015b) a Lewis (2015) sylwadau yn trafod ardrawiad cyhoeddiadau dan sylw yn y tystlythyrau a gyflwynwyd ganddynt i gefnogi cais yr awdur (Bryn Jones) i ymgeisio am radd PhD ar sail Cyhoeddiadau:

> *…the publications are being widely cited, have gained much attention in both the European and North American academic communities, and will for ever be the first piece of research on translanguaging…* (Baker, 2015b)

> Yn sgil y gwaith ymchwil… fe ddatblygwyd diddordeb rhyngwladol eang yn y cysyniad o drawsieithu a bu cyfraniad ymarferol Bryn…yn gyfrwng i hyrwyddo a datblygu'r cysyniad methodolegol hwn ymhlith addysgwyr dwyieithog yn rhyngwladol. Mae'r diddordeb hwn yn dal i gynyddu… (Lewis, 2015)

Mynegodd Paulsrud (2015b) bod cyhoeddiadau Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b, 2013) wedi ei hysgogi i ymchwilio i drawsieithu mewn ysgolion uwchradd dwyieithog yn Sweden. Cyfaddefodd ei bod wedi cymhwyso'r ymchwil i drawsieithu yng Nghymru (Lewis et al. 2012a, 2012b) i gyd-destun dosbarthiadau uwchradd dwyieithog yn Sweden:

> *Of course, all my inspiration came from your work with Lewis and Baker, so much of my work is just an application of your ideas from the Welsh context.* (Paulsrud, 2015b)

Bydd yr adran nesaf yn edrych ar ardrawiad cyhoeddiadau'r awdur o safbwynt y cyfeiriadau a geir o fewn cyhoeddiadau academaidd rhyngwladol yn y maes.

4.2 Ardrawiad: cyhoeddiadau academaidd

Yn y llyfr '*Translanguaging: Language, Bilingualism and Education*' gan García & Li Wei (2014) mae adrannau yn dwyn y teitlau '*The development of Translanguaging theory'* a *'The development of Translanguaging in education'* sydd yn pwyso'n drwm ar gyhoeddiadau Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b). Er enghraifft, cyfeiriodd García & Li Wei (2014:20) at drawsieithu yn ôl diffiniad Lewis, Jones & Baker (2012a) gan ychwanegu bod trawsieithu wedi magu ystyr ehangach nag defnyddio dwy iaith yn unig:

> *Working within the Welsh tradition, Baker, who first translatd the Welsh term as 'translanguaging' defines it as the 'process of making meaning, shaping experiences, gaining understanding and knowledge through the use of two languages' (2011: 288). Lewis, Jones and Baker further claim that in translanguaging, both languages are used as a dynamic and functionally integrated manner to organise and mediate mental processes in understanding, speaking, literacy, and not least learning.*

> *Translanguaging concerns effective communication, function rather than form, cognitive activity, as wello as language production (2012a:1).*
> *Both these definitions go beyond additive concepts of bilingualism, but yet refer to two languages. Translanguaging, for us, goes beyond the concept of the two languages of additive bilingualism or interdependence…translanguaging refers to new language practices that make visible the complexity of language exchanges among people with different histories, and releases histories and understandings that had been buried within fixed language identities contained by nation-states…*
>
> García & Li Wei (2014:20)

Diddorol yw nodi bod García & Li Wei (2014:81) yn cymharu'r model o 'Drawsieithu dan reolaeth y disgybl' a gyflwynwyd gan Lewis et al. (2012b) â'r model '*Natural translanguaging*' gan Williams (2012). Ystyriodd García & Li Wei (2014) bod 'Trawsieithu dan reolaeth y disgybl' a gyflwynwyd gan Lewis, Jones & Baker (2012a), yn gyfystyr â'r term '*Natural translanguaging'* a gyflwynwyd gan Williams (2012):

> *Translanguaging refers to the flexibility of bilingual learners to take control of their own learning, to self-regulate when and how to language, depending on the context in which they're being asked to perform. Williams (2012) refers to this in the classroom as 'natural translanguaging' and gives examples of its use by students in writing or in oral work carried out in pairs or small groups to make sense of content. Lewis, Jones and Baker (2012a) call it pupil-directed translanguaging.*

Fodd bynnag, mae angen eglurhad pellach i ddeall y berthynas honedig rhwng *'Natural translanguaging'* (Williams, 2012) a 'Thrawsieithu dan reolaeth y disgybl' (Lewis. Jones & Baker, 2012a).

Defnyddio ieithoedd Affricanaidd o fewn sefydliadau addysg uwch yw ffocws Hibert & van der Walt, (2014). Trafodwyd Lewis, Jones & Baker (2012b) gan Hibert & van der Walt (2014:73) yn yr adran yn dwyn y teitl '*Enhanced Student Performance through Biliteracy Pedagogy*':

> *One of these creative ways of using different linguistic resources in the academic learning environment is what has now popularly became known as translanguaging. The term translanguaging (originally trawsieithu in Welsh) was first used in Welsh schools in the 1980s by Cen Williams (Lewis et al, 2012b)….according to Williams, translanguaging is both a pedagogical theory and a practice.*

Cyfeiriodd Hibert & van der Walt (2014) at drawsieithu fel arf addysgu yn ôl diffiniad Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b), gyda'r ffocws ar y plentyn yn defnyddio dwy iaith yn y dosbarth er mwyn derbyn a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc:

> *An important distinguishing feature of translanguaging pedagogy is that it focuses on the child rather than on the teacher, that is, how a learner uses the available linguistic repertoires to develop deeper understanding of the subject. As a pedagogical practice, translanguaging is concerned with the practice employed to deliberately switch the language mode of input and output in bilingual classrooms.*
>
> Hibert & van der Walt, (2014:74)

Cyfeiriodd Heugh (2015) a Palmer et al. (2014) at darddiad trawsieithu yng Nghymru fel drafodwyd gan Lewis, Jones & Baker (2012a). Mae Heugh (2015) yn gweld potensial trawsieithu yng nghyd-destun datblygu amlieithrwydd ymysg myfyrwyr yn Ne Affrica, ac mae Palmer et al. (2014) yn dadlau o blaid defnyddio trawsieithu mewn dosbarthiadau ieithoedd deuol (*dual language classroom*) yn yr UDA.

Diddorol oedd sylwi bod Paulsrud (2014) yn ei thraethawd PhD, *'English-Medium Instruction in Sweden-Perspectives and practices in two upper secondary schools'* (Tabl 9) yn cyfeirio at y modelau o drawsieithu a ddyfeisiwyd gan Jones (2010) a Jones & Lewis (2014):

Tabl 9: *Translanguaging Model* (Paulsrud, 2014)

Translanguaging model	**Input medium** ***(receptive language skills: listening/reading)***	**Output medium** ***(productive language skills: speaking/writing)***
Teacher-directed Translanguaging with teacher support for students on the English-medium program	*English→*	*Swedish*
	English and Swedish →	*English and Swedish*
Student-directed Translanguaging undertaken by students on the English-medium program with minimum teacher direction	*Swedish→*	*English*

(Cafwyd caniatad i gynnwys tablau o waith Paulsrud, 2014, 2015 – gweler Atodiad 8.8.4).

Eglurodd Paulsrud (2014: 155) bod modd cymhwyso'r model trawsieithu o Gymru (fel amlinellwyd gan Lewis, Jones & Baker, 2012a, 2012b) yng nghyd-destun dosbarthiadau uwchradd dwyieithog yn Sweden (defnyddir Saesneg a Swedeg o fewn dosbarthiadau *English Medium Instruction*):

> *The model is considered learner-focused as the focus is on how children in the EMI classroom are engaged in content learning through the use of language to provide input (e.g. listening to a lecture or reading a text) and to produce output (e.g. discussing the material in Swedish and writing an assignment in English). The borders between the languages in the model are not exact or set, but rather the movement between phases of Translanguaging should be seen as a flexible. Thus, the model should not be read as an indication of strict boundaries designed to keep the languages separate. The languages may be used fluidly.*

Yng nghyd-destun dosbarthiadau dwyieithog Saesneg-Swedeg cyfeiriodd Paulsrud (2014) at:

(i) drawsieithu wedi'i gynllunio ar gyfer addysgu (*Pedagogic translanguaging*)

(ii) drawsieithu heb ei gynllunio ar gyfer addysgu-sef y trawsieithu sydd yn digwydd o ddydd i ddydd ymhlith pobl ddwyieithog (*Non-pedagogic translanguaging*)

Mae hyn yn debyg i'r modelau o drawsieithu a gyflwynwyd yng nghyd-destun dosbarthiadau dwyieithog yng Nghymru. Dywedodd Paulsrud (2014) wrth drafod addysg ddwyieithog Saesneg-Swedeg mewn ysgolion uwchradd yn Sweden:

> *Following the descriptions proposed by Lewis et al. (2012a), both planned and serendipitous translanguaging were considered for how these language choices may provide affordances and scaffolding in the EMI classroom. This is aligned to pedagogic translanguaging.*
> *Non-pedagogic translanguaging was also considered for what the process may offer in the EMI classroom.The table illustrates the translanguaging strategies identified in the EMI classrooms in this study.*

Cyhoeddwyd nifer o erthyglau academaidd sydd yn trafod trawsieithu mewn gwahanol gyd-destunau rhyngwladol, yn cynnwys Creese & Blackledge (2015); Heugh (2015); Palmer et al. (2014); Velasco & García (2014) a Li Wei & Hua (2013), ac maent oll yn cydnabod bod gwaith Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b) wedi bod yn allweddol o ran gosod y cefndir i drawsieithu fel addysgeg yn y dosbarth. Er enghraifft, sylwodd Creese & Blackledge (2015: 26) bod Lewis, Jones & Baker (2012a) wedi llwyddo i egluro'r gwahaniaeth rhwng trawsieithu a chyfnewid cod (*code switching*):

> *Lewis et al. (2012, p. 665) argued that the distinction between code-switching and translanguaging is ideological, in that code-switching has associations with language separation, while translanguaging approves the flexibility of learning through two or more languages: "Particularly in the bilingual classroom, translanguaging as a concept tries to move acceptable practice away from language separation, and thus has ideological—even political—associations."* (Creese & Blackledge, 2015: 26).

Cyfeiriodd Li Wei & Hua (2013: 519) at darddiad trawsieithu fel y'i cyflwynwyd gan Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b) yn y cyd-destun canlynol:

> *Lewis et al. (2012a, b) trace the origin of the term translanguaging to the work of Williams (1994, 1996) who first used it to describe a pedagogical practice in bilingual classrooms where the input (e.g. reading and listening) is in one language and the output (e.g. speaking and writing) in another language.*

Crybwyllodd Li Wei & Hua (2013: 519) fod Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b) yn ystyried trawsieithu fel addysgeg ystyrlon a chreadigol mewn dosbarthiadau amlieithog:

As Lewis et al. (2012a, b) suggest, translanguaging continues to be regarded as a meaningful and creative pedagogical approach in multilingual classrooms (see also Creese and Blackledge, 2010; Canagarajah, 2011; Cenoz and Gorter, 2011; Li, 2011b).

Yn gyffredinol, felly, mae cyhoeddiadau Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b) yn cael eu derbyn fel ffynonellau pwysig ar gyfer trafod tarddiad a'r diffiniad gwreiddiol o drawsieithu fel addysgeg yn y dosbarth. Trafodwyd ardrawiad y cyhoeddiadau ar sail academaidd hyd yn hyn, a bydd yr adran nesaf yn ystyried ardrawiad y cyhoeddiadau ar lefel fwy ymarferol.

4.3 Ardrawiad: cynadleddau a seminarau

Dywedodd Lewis (2015) bod gwaith Jones (2010); Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b, 2013) a Jones & Lewis (2014) wedi bod yn adnodd defnyddiol ar gyfer cyflwyno deunydd hyfforddiant-mewn-swydd i athrawon, yn ogystal â bod yn ffynhonnell i gyflwyniadau mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol:

> *Yn ogystal â'r pedwar cyhoeddiad uchod, arweiniodd yr ymchwil at gyflwyniadau… mewn cynadleddau academaidd rhyngwladol, ynghyd â sesiynau a deunyddiau hyfforddiant mewn-swydd i athrawon ledled Cymru.*
>
> Lewis (2015)

4.3.1 ISB8 Oslo (2011)

Cyflwynodd yr awdur boster *'Kaleidoscopic variety': Bilingual Education in Wales Today* yn Symposiwm Rhyngwladol Dwyieithrwydd (*International Symposium of Bilingualism*) yn Oslo yn 2011 (Ffigwr 8). Cyflwynwyd canlyniadau'r Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru, a chafwyd cyfleoedd i egluro cyd-destun 'caleidosgopig' y ddarpariaeth addysg ddwyieithog yng Nghymru. Cafwyd trafodaethau buddiol ynglŷn â'r categorïau a ddefnyddiwyd ar gyfer trefniadau iaith yn seiliedig ar arsylwadau mewn can gwers mewn ysgolion dwyieithog yng Nghymru, er enghraifft, gofynnwyd sut mae datblygu dwyieithrwydd pan ddefnyddir un iaith yn unig yn y dosbarth. Hefyd holwyd beth ydy ciwiau trawsieithu.



Ffigwr 8: *Poster 'Kaleidoscopic variety': Bilingual Education in Wales Today*

Gweler: http://www.bangor.ac.uk/bilingualism/besw.php.cy

http://www.bangor.ac.uk/bilingualism/besw.php.en

4.3.2 Falun, Sweden (2015)

Bellach, mae trawsieithu fel addysgeg wedi lledaenu'n rhyngwladol, nid yn unig mewn cyhoeddiadau ond hefyd fel testun trafod. Er enghraifft, cynhaliwyd y gynhadledd '*Translanguaging: Practices, Skills and Pedagogy*' ym Mhrifysgol Dalarna, Sweden ym mis Ebrill, 2015. Dyma'r gynhadledd gyntaf erioed i ganolbwyntio ar drawsieithu. Trafodwyd trawsieithu o safbwynt addysg yn ogystal â'r defnydd yn y gymdeithas yn gyffredinol. Cyfeiriodd Paulsrud (2015a) at drawsieithu fel '*teacher directed*' a '*student-directed*' sydd yn seiliedig ar ddiffiniad Lewis, Jones & Baker (2012a) a Jones & Lewis (2014). Diddorol yw cyfeiriad Paulsrud (2015a) at '*function*' (ffwythiant) sef y gwahanol resymau dros drawsieithu yn y

dosbarth (Tabl 10). Er enghraifft, defnyddiwyd trawsieithu i egluro nodweddion ieithyddol a chynnwys gwersi, ac mae angen ystyried y rheswm dros drawsieithu ymhellach yng nghyd-destun dosbarthiadau dwyieithog yng Nghymru a thu hwnt.

Tabl 10: Defnyddio Trawsieithu yn y Dosbarth (Paulsrud, 2015; yn seiliedig ar Fennema Bloom, 2008)

Category	Description	Function
Reformulation	Single content words or phrases with no explanation	Facilitation of content learning through direct but minimal translation
Explanation	Explanation of content concepts (words or phrases)	Facilitation of content comprehension through inserted brief explanations during the lesson
Language awareness	Interruption of content instruction to focus on linguistic item	Facilitation of language learning and metalinguistic awareness outside the content instruction
Lesson participation	Student on-task switch during active participation in content lesson	Facilitation of participation in the content learning
Group work	Student switches during on-task group work	Facilitation of task completion or group management

4.3.3 Jones (2015)

Cyflwynodd yr awdur bapur yn dwyn y teitl 'Trawsieithu mewn ysgolion dwyieithog yng Nghymru' yng Nghyfres Seminarau'r Ganolfan dros Ymchwil i Ddwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor ar 4 Mehefin 2015. Cyfeiriodd yr awdur (Ffigwr 9) at fodelau trawsieithu yn Sweden a ffurfiwyd ar sail ymchwil gan Jones & Lewis (2014) mewn ysgolion yng Nghymru. Nodwyd bod y model trawsieithu o Gymru a gyflwynwyd gan Jones (2010) a Jones & Lewis (2014) dan y teitlau 'Trawsieithu dan reolaeth yr athro' a 'Trawsieithu dan reolaeth y disgybl' wedi'i addasu ar gyfer dosbarthiadau dwyieithog mewn ysgolion uwchradd yn Sweden. Eglurodd Jones (2015) bod ymchwilwyr yn Sweden wedi defnyddio'r termau *'Pedagogic translanguaging'* i gyfeirio at 'Trawsieithu dan reolaeth yr athro' a '*Non-pedagogic translanguaging*' (Tabl 16) i gyfeirio at y defnydd cyffredinol o drawsieithu mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Defnyddiwyd y termau '*affordances*' i egluro trawsieithu ar gyfer disgyblion hyfedr dwyieithog a '*scaffolding*' i egluro trawsieithu ar gyfer disgyblion dwyieithog datblygol. Eglurodd Jones (2015) bod angen ystyried goblygiadau'r model trawsieithu o Sweden yng nghyd-destun trawsieithu yn ysgolion Cymru, yn arbennig y cyfeiriadau at '*Pedagogic translanguaging*' a N*non-pedagogic translanguaging*.'

Translanguaging model	**Input medium** ***(receptive language skills: listening/reading)***	**Output medium** ***(productive language skills: speaking/writing)***
<u>Teacher-directed</u> Translanguaging with teacher support for students on the English-medium program <u>Student-directed</u> Translanguaging undertaken by students on the English-medium program with minimum teacher direction	*English→* *English and Swedish →* *Swedish→*	*Swedish* *English and Swedish*  *English*

Translanguaging Model	Input Medium (receptive language skills: listening / reading)	Output Medium (productive language skills: speaking / writing)
Teacher-directed translanguaging: i.Emergent bilinguals ii.Competent bilinguals	English Welsh	Welsh English
Pupil-directed translanguaging	English Welsh	Welsh English

Ffigwr 9: Modelau Trawsieithu yng Nghymru a Sweden (Jones, 2015)

Yn ogystal â'r cynadleddau a drafodwyd uchod, mae'r awdur yn parhau i fynychu cynadleddau i drafod addysg ddwyieithog yng Nghymru, er enghraifft, bydd yn cymryd rhan mewn *colloquium* '*Breaking Away From the Multilingual Solitudes*' yng Nghynhadledd AAAL (*American Association for Applied Linguistics*) yn Orlando ym mis Ebrill, 2016.

Bydd yr adran nesaf yn cyflwyno crynodeb feirniadol o'r prif ganfyddiadau yn seiliedig ar y cyhoeddiadau sydd yn sail i'r adroddiad hwn.

5. Crynodeb beirniadol o'r prif ganfyddiadau

Isod cyflwynir crynodeb beirniadol o'r prif ystyriaethau yn deillio o gyhoeddiadau Jones (2010, 2017), Jones & Lewis (2014) a Lewis et al. (2012a, 2012b, 2013), ac amlygwyd unrhyw gyfraniad gwreiddiol i'r maes.

5.1 Trawsieithu yng Nghymru heddiw

Nid oes diffiniad pendant a chlir o drawsieithu; bydd y ddamcaniaeth yn ogystal â'r ymarfer o drawsieithu yn y dosbarth a thu hwnt yn esblygu yn sgil ymchwil pellach (Lewis et al., 2012a: 642). Er bod y termau 'trawsieithu' a '*translanguaging*' wedi eu bathu gyntaf yng Nghymru yn y 1980au (Jones & Lewis, 2014; Jones, 2015), mae'n dal heb ei gyfieithu (hyd y gwn yr awdur) i ieithoedd eraill heblaw Gaeleg yr Alban (*eadar-chànanachadh*). Er bod diffiniad gwreiddiol Williams (1994, 2002) o drawsieithu mewn dosbarthiadau dwyieithog yn cyfeirio at ddefnyddio un iaith ar gyfer mewnbwn (gwrando / darllen) ac iaith arall ar gyfer allbwn (trafod / ysgrifennu), mae disgyblion mewn gwirionedd yn defnyddio eu *repertoire* ieithyddol cyfan i drawsieithu. Er enghraifft, mae disgyblion yn casglu gwybodaeth o ffynonellau Cymraeg a Saesneg, yn trafod y cynnwys yn Gymraeg a Saesneg ac yn cwblhau gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg (a allai gynnwys peth geirfa a therminoleg Saesneg). Esboniodd García (2009 304) nad yw trawsieithu yn ymwneud â threfnu mewnbwn iaith ac allbwn; mae trawsieithu yn digwydd yn naturiol mewn dosbarthiadau dwyieithog ac amlieithog lle mae disgyblion yn symud rhwng eu hieithoedd yn ddigymell ac yn bragmatig:

> *…although teachers may carefully plan when and how languages are to be used, children themselves use their entire linguistic repertoires flexibly. Often this language use appropriation by students is done surreptitiously.* (García, 2009:304)

Dywedodd Jones & Lewis (2014) bod arferion trawsieithu mewn ystafelloedd dosbarth yng Nghymru yn cael ei nodweddu yn bennaf gan ddisgyblion yn defnyddio ffynonellau Saesneg (iaith fwyafrifol) i ddatblygu eu hyfedredd iaith yn y Gymraeg (iaith leiafrifol), a'i bod yn llai cyffredin i weld disgyblion yn defnyddio ffynonellau Cymraeg i ddatblygu eu sgiliau iaith Saesneg (Tabl 11). Mae hyn yn cyferbynnu â thrawsieithu mewn gwledydd eraill, er enghraifft, trawsieithu o Sbaeneg i ddatblygu Saesneg mewn ystafelloedd dosbarth yn Ninas Efrog Newydd (García, 2009).

Tabl 11: Trawsieithu yn y dosbarth mewn ysgolion dwyieithog yng Nghymru (addasiad o Jones, 2017)

Trawsieithu yn y dosbarth	
Mewnbwn (medrau iaith goddefol: gwrando / darllen)	Allbwn (medrau iaith gweithredol: siarad / ysgrifennu)
Saesneg (Iaith 1) Saesneg (Iaith 2) iaith fwyafrifol	Cymraeg (Iaith 2) Cymraeg (Iaith 1) iaith leiafrifol
Cymraeg (Iaith 1) Cymraeg (Iaith 2) iaith leiafrifol	Saesneg (Iaith 2) Saesneg (Iaith 1) iaith fwyafrifol

Mae trawsieithu wedi derbyn sylw cynyddol mewn ysgolheictod a gynhaliwyd mewn gwahanol ddisgyblaethau academaidd a meysydd cymdeithasol. Mae Li Wei (2015: 178) yn cynnig bod trawsieithu yn deillio o'r cysyniad o '*languaging*' ym maes seicoieithyddiaeth, sy'n cyfeirio at y broses o ddefnyddio iaith er mwyn ennill gwybodaeth, i fynegi ein meddyliau, i greu synnwyr ac i gyfathrebu. Honnodd Othegy et al. (2015: 303) bod trawsieithu'n golygu defnyddio ein *repertoire* ieithyddol unigryw (*idiolect*) yn hytrach nag cyfeirio at ieithoedd yn y ffordd gymdeithasol a gwleidyddol arferol.

Mae Paulsrud (2014) wedi cymhwyso'r model o 'drawsieithu dan reolaeth yr athro' a 'thrawsieithu dan reolaeth y disgybl ' i gyd-destun addysgu cyfrwng Saesneg o fewn ysgolion uwchradd yn Sweden. Cyflwynodd Paulsrud (2014: 182) y cysyniad o *drawsieithu pedagogaidd* a *thrawsieithu heb fod yn bedagogaidd* . Yn seiliedig ar y dosbarthiad triphlyg o drawsieithu gan Lewis et al, (2012a) a model Paulsrud (2014) o drawsieithu pedagogaidd a thrawsieithu heb fod yn bedagogaidd, cyflwynodd Jones (2017) deipoleg o drawsieithu (Ffigwr 10) ar gyfer cyd-destunau y tu mewn a'r tu allan i gyd-destunau addysgol. O fewn y categori 'trawsieithu yn y dosbarth' mae'n bosibl adnabod *trawsieithu pedagogaidd* (ar gyfer addysgu a dysgu dan reolaeth yr athro neu'r disgybl), a *thrawsieithu heb fod yn bedagogaidd* (h.y. trawsieithu mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn gysylltiedig ag addysgu a dysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth). Honnodd Paulsrud (2015: 187) bod *trawsieithu heb fod yn bedagogaidd* yn amlwg o fewn cyd-destunau defnyddio iaith yn gymdeithasol a rheoli'r ystafell ddosbarth, gan fod y disgyblion a'r athrawon yn gwneud defnydd o'u *repertoire* ieithyddol mewn cyd-destun dwyieithog. Mae Jones (2017) yn cynnig bod modd cyfeirio at drawsieithu heb nod dysgu penodol fel 'Trawsieithu

Rhyngbersonol Sylfaenol' (*Basic Interpersonal Translanguaging*), a thrawsieithu ar gyfer addysgu a dysgu fel 'Trawsieithu Academaidd Gwybyddol' (*Cognitive Academic Translanguaging*).

Yn y cyd-destun hwn, mae'n addas i gyfeirio at ddamcaniaeth BICS a CALP a gyflwynwyd gan Cummins (1979, 2000) i wahaniaethu rhwng y defnydd o iaith mewn cyd-destunau cymdeithasol ac academaidd. Cyfeiriodd at Sgiliau Cyfathrebu Rhyngbersonol Sylfaenol (*Basic Interpersonal Communication Skills*) sef sgiliau iaith o ddydd i ddydd sydd eu hangen mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, i ryngweithio'n gymdeithasol â phobl eraill. Nid ydynt yn gofyn llawer iawn yn wybyddol. Defnyddiodd Cummins y term CALP (*Cognitive Academic Language Proficiency*) i gyfeirio at iaith academaidd sydd yn digwydd mewn sefyllfaoedd academaidd ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys gwrando, siarad, darllen, ac ysgrifennu am y pwnc. Mae'r lefel hon o ddysgu ieithoedd yn hanfodol os yw disgyblion i lwyddo yn yr ysgol. Mae angen amser a chefnogaeth i ddisgyblion i ddod yn hyfedr mewn meysydd academaidd sydd yn golygu defnyddio sgiliau megis cymharu, dosbarthu, syntheseiddio, gwerthuso, a chasglu gwybodaeth.

Cyfeiriodd Williams (2002:51) at bum defnydd o iaith yn yr ystafell ddosbarth sef:

i. mewn sefyllfa **ymarferol;**
ii. i esbonio pwyntiau ieithyddol a gramadegol sef gwybodaeth am iaith–**ieithyddol;**
iii. **cyfathrebol**–h.y. i gyfathrebu yn y dosbarth (BICS);
iv. **cyfarwyddiadol,** h.y. i gyfarwyddo gwaith y dosbarth, cyflwyno a chwestiynu ar lefel lythrennol a syml (BICS y arwain at CALP);
v. **gwybyddol** lle disgwylir i blentyn feddwl ac ystyried yn ddwfn er mwyn deall neu cyn ymateb (CALP).

Mae Williams wedi cyfeirio at y defnydd cymdeithasol/rhyngbersonol o iaith (BICS) yn ogystal â'r defnydd gwybyddol/academaidd o iaith (CALP) o fewn ei ddosbarthiad o ddefnydd iaith yn y dosbarth, ac mae hyn yn berthnasol yng nghyd-destun trawsieithu. Mae modd adnabod trawsieithu ar lefel BICS a CALP, a hyn sydd yn sail i ddefnydd yr awdur o'r termau BIT a CAT (Ffigwr 10).



Ffigwr 10: *Teipoleg trawsieithu* (yn seiliedig ar Lewis et al., 2012a; Paulsrud, 2014; Jones, 2017)

Cyfeiriodd Jones (2017) at y nodiadau canlynol i egluro'r gwahaniaeth rhwng BIT *(Basic Interpersonal Translanguaging*) a CAT (*Cognitive Acaemic Translanguaging*):

Notes:

i. Universal translanguaging refers to translanguaging practices in diverse social contexts;

ii. BIT (Basic Interpersonal Translanguaging) refers to non-pedagogic or everyday translanguaging for personal interaction, social cohesion, classroom management etc.

iii. CAT (Cognitive Academic Translanguaging) refers to pedagogic translanguaging with emphasis on academic language and subject-specific terminology.

Mae trawsieithu yn y dosbarth yn rhagdybio nad oes ffiniau clir rhwng BIT a CAT; mae llawer o orgyffwrdd a gallant gydfodoli yn yr un lle, yn wir, mae angen i athrawon sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd i drawsieithu mewn cyd-destunau dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Eglurodd Thomas a Roberts (2011) mai un o'r prif heriau sy'n wynebu addysg ieithoedd lleiafrifol yw amharodrwydd disgyblion i drosglwyddo eu sgiliau ieithyddol y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn y cyd-destun

cymdeithasol ehangach. Er mai Cymraeg yw iaith yr addysg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru, nid yw'n gyfrwng cyfathrebu rhyngbersonol i lawer o ddisgyblion. Yn aml, mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn iaith addysg ond nid yw'n trosglwyddo i'r cyd-destunau mwy anffurfiol (Thomas & Roberts, 2011). Yn y cyd-destun hwn, cyfeiriodd Baker (1993:28) at y perygl o'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn iaith addysg yn unig, a'r Saesneg yn iaith cyfathrebu bob dydd:

> *Rather than Welsh being a school-only phenomenon, it needs to penetrate an individual's whole way of life...and be present in everyday active, participatory culture.*

Mae disgyblion yn aml yn gyfarwydd â therminoleg academaidd ddwyieithog ond yn llai cyfarwydd â therminoleg ac ymadroddion Cymraeg mewn cyd-destunau nad ydynt yn academaidd. Eglurodd pennaeth mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Ddwyrain Cymru fod y disgyblion yn gymwys wrth ddefnyddio terminoleg academaidd yn y Gymraeg, ond yn llai cymwys gyda thermau Cymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol (Jones, 2017). Sylweddolodd y pennaeth fod y disgyblion yn gymwys i drawsieithu ar lefel wybyddol, academaidd ond roedd diffyg cyfleoedd i ymarfer eu sgiliau trawsieithu rhyngbersonol sylfaenol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r sylw gan Lywodraeth Cymru (2016b) nad yw disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol y tu allan i addysg ffurfiol:

> Cafwyd tystiolaeth i awgrymu nad yw'r sector addysg cyfrwng Cymraeg yn cynnig digon o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu sgiliau llafar ar hyn o bryd. Dengys y dystiolaeth bwysigrwydd ysgolion wrth ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i addysg ffurfiol, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes canran uchel o siaradwyr Cymraeg. Dylid cynnig rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer sgiliau llafar mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol. (Llywodraeth Cymru, 2016b: 8)

Prin iawn yw'r ymchwil i drawsieithu y tu allan i'r ystafell ddosbarth (Trawsieithu Cyffredinol / *Universal Translanguaging*) yng Nghymru , ac mae'n rhaid edrych y tu draw i Gymru i weld enghreifftiau o hyn. Mae'r prosiect TLANG (*Translation and Translanguaging*) yn ymchwilio i drawsieithu mewn pedair dinas yn y Deyrnas Unedig, sef Llundain, Caerdydd, Birmingham a Leeds. Nod y prosiect yw deall sut mae pobl yn cyfathrebu amlieithog ar draws ieithoedd a diwylliannau amrywiol:

> *This 4-year (2014-2018) AHRC funded research project known as TLANG is a collaboration between academic researchers, non-academic partners, and community stakeholders. It is also a partnership between four UK universities and the private, public, and third sectors. This interdisciplinary research programme will develop new understandings of multilingual interaction in cities in the UK, and communicate these to policy-makers and communities locally, nationally, and internationally.* (http://www.birmingham.ac.uk/generic/tlang/index.aspx)

Mae Jones (2017) yn cynnig bod trawsieithu yn y dosbarth yn gallu cynnwys nifer o drefniadau iaith fel cyfnewid cod a chyfieithu ar gyfer y mewnbwn (e.e. gwaith trafod) ac allbwn (e.e. gwaith ysgrifennu). Honnodd García (2011: 147) bod trawsieithu yn gallu cynnwys cyfnewid cod a chyfieithu ar brydiau, ond bod trawsieithu yn cyfeirio at broses addysgu ehangach:

Translanguaging includes code-switching, the shift between two languages in context, and it also includes translation; however it differs from both of these simple practices in that it refers to the process by which bilingual students perform bilingually in the myriad ways of classrooms – reading, writing, taking notes, discussing, signing etc.

Cyflwynodd Jones (2017) '*Instances of classroom translanguaging*' (Ffigwr 11) i gyfleu'r gwahanol drefniadau iaith sydd yn gallu bodoli yng nghyd-destun trawsieithu yn y dosbarth.



Ffigwr 11: Enghreifftiau o drawsieithu yn y dosbarth (yn seiliedig ar Jones, 2017)

Yn y cyd-destun hwn, mae cyfnewid iaith ar gyfer mewnbwn ac allbwn yn cyfeirio at ddamcaniaeth gychwynnol Williams (1994, 2002) o drawsieithu fel arf addysgol lle mae'r mewnbwn (medrau iaith goddefol) mewn un iaith, ac mae'r allbwn (medrau iaith gweithredol) mewn iaith arall. Mae enghreifftiau o gyfnewid cod a chyfieithu yn cael eu hystyried drwy 'lens trawsieithu' h.y. o safbwynt adnoddau cyfathrebu'r siaradwr dwyieithog ac amlieithog, yn hytrach na'r ddamcaniaeth draddodiadol o gyfnewid cod a chyfieithu fel dwy iaith ar wahân.

Cyfeiriodd Jones (2017) at enghreifftiau o drawsieithu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru sydd yn berthnasol i gyd-destun addysgu dwyieithog pan ddefnyddir iaith leiafrifol (Cymraeg) ac iaith fwyafrifol (Saesneg) ar y cyd. Cyfeiriodd Jones (2017) at wers daearyddiaeth ac ADCDF (Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang) ar gyfer disgyblion Cymraeg Iaith 1 (Cymraeg iaith gyntaf) ac Iaith 2 (Cymraeg ail iaith) rhwng 7-9 mlwydd oed, i enghreifftio arferion trawsieithu yn y

dosbarth cynradd. Roedd trawsieithu'r athro a'r disgyblion yn cwmpasu ystod o drefniadau iaith, gan gynnwys cyfnewid cod (er enghraifft, Exports bananas, *be ydy'r gair Cymraeg*?, cyfieithu (*pris teg* /fair price) a chyfnewid iaith ar gyfer mewnbwn (er enghraifft, gwrando a darllen yn Saesneg), ac allbwn (siarad ac ysgrifennu'n Gymraeg a Saesneg). Ystyriwyd cyfnewid cod a chyfieithu fel enghreifftiau o drawsieithu yn hytrach nag enghreifftiau o ddefnyddio dwy iaith ar wahân (Ffigwr 12).

- The teacher reminded the pupils (in Welsh) about previous work completed about Fair Trade and the implications of buying Fair Trade products.
- The teacher explained that the lesson would be about purchasing Fair Trade bananas and questioned whether this would impact on the farmer's standard of living.
- **Teacher:** *Oes pwrpas inni brynu bananas masnach deg? Ydy o wedi gwella ansawdd bywyd y ffermwr?* [What's the purpose to buy fair trade bananas? Has this improved the farmer's quality of life?]
- **Teacher:** *Byddwn ni'n edrych ar ba effaith mae bod yn aelod o grŵp Masnach Deg yn ei gael ar y ffermwr* [We will look at what the impact of being a member of the group Fair Trade group has on the farmer].
- **Teacher:** *Rydan ni'n edrych ar safwe Oxfam* [We're looking at the Oxfam website].
- **Pupil 1:** *Mae siop Oxfam fel siop* charity [Oxfam shop is like a charity shop]
- **Teacher:** *Be ydy pwrpas siop elusen?* [What's the purpose of a charity shop?]
- **Pupil 2:** *Mae nhw fel ailgylchu* [It's like recycling].
- The teacher ask all the pupils to read the internet information (Figure 5) about Fair Trade (in English) and then asks the pupils to explain some terminology in Welsh.
- **Teacher:** What does benefit mean?
- **Pupil 3:** It helps them.
- **Teacher:** George works for the company that exports bananas from the Windward Islands. Exports bananas, *be ydy'r gair Cymraeg*? [George works for the company that exports bananas from the Windward Islands. Exports bananas, what's the Welsh word?]
- **Pupil 4:** *Allforio* [export].
- **Teacher:** Farmers do plant other crops. What does crops mean?
- **Pupil 5:** *Maen nhw'n planu ffrwythau eraill* [They plant other fruits].
- **Teacher:** *Beth ydy'r gair Cymraeg am* environment? [What's the Welsh word for environment?]
- The teacher asked the pupils to complete a worksheet '*Bananas Blasus Masnach Deg. Prynwch rai! Pam*? [Tasty Fair Trade bananas. Buy some! Why?] to explain the benefits of buying Fair Trade bananas.
- Key terminology was provided bilingually to support the writing activity e.g. *cefnogi ffermwyr* [to support farmers], *pris teg* [fair price], *ehangu'r farchnad* [to expand the market].

Ffigwr 12: Trawsieithu mewn dosbarth ysgol gynradd (Cyfnod Allweddol 2)

Mae Jones (2017) yn cynnwys enghreifftiau o dermau dwyieithog a gyflwynwyd i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn cwblhau tasgau trawsieithu yn y dosbarth. Mae disgyblion angen gafael ar derminoleg pwnc er mwyn cwblhau tasgau trawsieithu yn llwyddiannus. Weithiau bydd athrawon yn cyfeirio at dermau dwyieithog i gefnogi datblygiad gwybyddol y disgyblion. Er enghraifft, mewn gwers fathemateg ar ganrannau ar gyfer disgyblion 7-11 oed, cyflwynodd yr athro wybodaeth am ganrannau ar y rhyngrwyd yn y Saesneg, ac eglurodd mai 'canran' oedd y term Cymraeg am '*percentage*'. Eglurodd yr athro ymhellach bod modd adnabod y geiriau 'cant' a 'rhan' o fewn y term 'canran', a bod cyfeirio at 'rhan o gant' yn gallu helpu'r disgyblion i ddeall ystyr '*percentages*' yn y Saesneg.

5.1.1 Trawsieithu o fewn addysg ôl-16

Mae'r adroddiad ymchwil, 'Barn athrawon a darlithwyr addysg ôl-16 oed Gwynedd a Môn am ddarpariaeth addysg Gymraeg a Dwyieithog ôl-16' (Roberts et al., 2015) yn tynnu sylw at farn athrawon / darlithwyr unigol ynglŷn â'u profiad o gynllunio a darparu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddisgyblion / myfyrwyr 16-19 oed, yn ystod y flwyddyn academaidd rhwng Medi 2013 a Gorffennaf 2014. Derbyniwyd 38 o ymatebion i holiadur gan aelodau staff ar draws 11 o sefydliadau addysgol gan gynnwys 11 o ymatebion gan 1 ysgol, 6 ymateb o 1 ysgol, 4 ymateb o 3 ysgol, 3 ymateb o 1 ysgol, 1 ymateb gan 4 ysgol a 2 ymateb o un Coleg Addysg Bellach. Nid chafwyd ymateb gan 3 sefydliad. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa strategaethau iaith a ddefnyddiwyd ganddynt yn y dosbarth i hyrwyddo dwyieithrwydd (Tabl 12).

Tabl 12: Strategaethau defnyddio dwy iaith yn y dosbarth (Roberts et al. 2015)

Strategaethau defnyddio dwy iaith yn y dosbarth	Nifer o ymatebion
Termau dwyieithog	26
Grwpiau cymysg Cymraeg Iaith 1 ac Iaith 2	13
Defnydd cyfochrog o iaith (e.e. trawsieithu).	12
Cyfieithu	11
Arall	10
Cefnogaeth ieithyddol ar gyfer dysgwyr Cymraeg.	4
Gwahanu ieithoedd	2

Fel y dangosir yn Nhabl 12, y strategaethau mwyaf cyffredin yn y dosbarth dwyieithog yw cyflwyno terminoleg ddwyieithog ac i raddau llai, trawsieithu a chyfieithu. Dyma enghreifftiau o'r ymatebion a dderbyniwyd ar gyfer y categori 'arall':

- Mae nodiadau cyfrwng Saesneg a'r Gymraeg yn cael eu cynnig i fyfyrwyr yn ôl eu dewis, ond gan fod pawb yn deall Cymraeg, mae'r gwersi yn cael eu cyflwyno / cynnal yn y Gymraeg.
- Saesneg yw iaith y wers - os oes angen, bydd ychydig o dermau yn cael eu cyflwyno yn ddwyieithog.
- Cymraeg yw iaith yr ystafell ddosbarth, ond mae'r termau yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog.

Mae Roberts et al. (2015) yn amlygu bod gan athrawon brofiad cyfyngedig iawn o elwa o hyfforddiant cychwynnol / mewn-swydd yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y dosbarth. Yr oedd yn arwyddocaol nad oedd 71% o athrawon a darlithwyr wedi cael unrhyw hyfforddiant cychwynnol / mewn-swydd o ran y defnydd o'r ddwy iaith yn y dosbarth. Mae'r angen i lunio a gweithredu polisi iaith Gymraeg cadarn ym mhob sefydliad yn amlwg, yn enwedig ar sail diffyg hyfforddiant o safbwynt addysgu dwyieithog, a phrinder cyngor ac arweiniad ar lefel genedlaethol, ranbarthol a sirol. O ran nodi blaenoriaethau i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, cyfeiriodd Roberts et al. (2015) at yr angen am hyfforddiant i athrawon addysgu'n llwyddiannus mewn ystafelloedd dosbarth dwyieithog, cael adnoddau addysg cyfrwng Cymraeg, a meithrin cysylltiadau agosach gyda'r sector addysg uwch.

5.1.2 Mae angen ymchwil pellach i drawsieithu (Jones, 2010; Jones & Lewis, 2014; Lewis, Jones & Baker 2012a, 2012b, Jones, 2017).

Er bod Estyn (2002:2) wedi honni bod llythrennedd deuol 'yn cynorthwyo datblygiad deallusol unigolion trwy wella eu gallu i feddwl, deall a mewnoli gwybodaeth mewn dwy iaith' eglurodd Lewis, Jones & Baker (2012b) a Jones & Lewis (2014) bod angen ymchwil pellach i fanteision honedig trawsieithu y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, beth ydy gwerth trawsieithu i ddisgyblion byddar sy'n defnyddio iaith arwyddion a llythrennedd mewn iaith arall? Sut mae cyflwyno trawsieithu ar gyfer disgyblion gyda gwahanol fathau o anghenion dysgu ychwanegol? Sut mae cyflwyno trawsieithu mewn ystafelloedd dosbarth amlieithog yng Nghymru? Sut mae defnyddio trawsieithu ar gyfer pawb ar y continwwm dwyieithog? Honnodd Lewis, Jones & Baker (2012b, 2013) bod ymchwil niwrowyddonol yn cynnig posibiliadau diddorol a gwerthfawr o safbwynt canfod os oes cysylltiad rhwng trawsieithu a datblygiad gwybyddol ac ieithyddol yn yr ysgol a thu hwnt. Roedd y grŵp niwroieithyddiaeth yng Nghanolfan Ymchwil ESRC i Ddwyieithrwydd mewn Theori ac Ymarfer yn canolbwyntio ar sut mae dwyieithrwydd yn datblygu yn yr ymennydd dynol; mae angen mewnbwn o'r fath i gefnogi ymchwil i addysg ddwyieithog yng Nghymru, ac adnabod gwir effaith trawsieithu ar ddatblygiad addysgol/deallusol disgyblion.

Prin yw'r ymchwil i drawsieithu o fewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg a'r sector addysg uwch yng Nghymru. Yn ôl Lewis, Jones & Baker (2013); Jones & Lewis (2014) a Roberts et al. (2015), prin yw'r defnydd o drawsieithu fel y'i diffinnir gan Williams (1996, 2002) mewn dosbarthiadau uwchradd dwyieithog yng Nghymru. Mae'r adroddiad '*Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyie*ithog' (Estyn**,** 2014) yn seiliedig ar ymweliadau i ddeg ysgol uwchradd yn AALl Caerfyrddin, Ceredigion, Ynys Môn a Gwynedd. Pwrpas yr adroddiad ydoedd adrodd ar ddilyniant ieithyddol disgyblion Cyfnod Allweddol 4 o ran astudio Cymraeg fel iaith gyntaf, ac adnabod a rhannu arfer dda o ran addysg ddwyieithog. Dywedwyd mai dim ond mewn ychydig o wersi mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau trawsieithu:

> Dim ond mewn ychydig o wersi mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau trawsieithu. Mae'r tasgau gorau yn gosod her i'r disgyblion, er enghraifft trwy aralleirio neu addasu testun ar gyfer cynulleidfa wahanol, crynhoi gwybodaeth, neu ddefnyddio gwefannau penodol i gyfieithu testun ac wedyn cywiro'r gwallau ieithyddol. Mewn ychydig iawn o wersi, mae athrawon yn tynnu sylw'r disgyblion at darddiad ieithyddol geiriau technegol ac yn gofyn iddynt esbonio'r cysylltiad rhwng y termau Saesneg a'r rhai Cymraeg. Dywedir bod yr arfer hon yn cael effaith gadarnhaol ar afael y disgyblion ar dermau pynciol yn y Gymraeg a'r Saesneg (Estyn, 2014: 18).

Trafodwyd trawsieithu yng Nghymru yng nghyd-destun y Gymraeg a'r Saesneg gan Williams (1996, 2002); Baker (2011) a Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b), ond bellach mae angen ystyried trawsieithu mewn sefyllfaoedd amlieithog (Bretnall, 2009). Awgrymodd Jones & Lewis (2014) bod modd cyflawni hyn yn seiliedig ar fodel trawsieithu Williams (1996, 2002), er enghraifft, darllen deunydd yn y Saesneg a'r Ffrangeg a thrafod / ysgrifennu'r cynnwys yn y Gymraeg. Mae'r math yma o drawsieithu yn nodweddiadol o 'ddwyieithrwydd deinamig' ac yn ôl García (2011: 148) sef '*the most coveted language ability in the twenty-first century.*'

Ystyria'r awdur bod yr ymchwil i drawsieithu a drafodwyd yn Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b, 2013) a Jones & Lewis (2014) wedi codi ymwybyddiaeth o sut y cyflwynir tasgau trawsieithu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru. Serch hynny, mae Canagarajah (2011:8) yn datgan fod angen ymchwil pellach i drawsieithu yn y dosbarth:

> *The pedagogical side is underdeveloped in general. While we have studied the practice of translanguaging in social life i.e., in urban youth encounters, linguistic landscapes, and the Internet-we haven't figured out how to develop such proficience among students in the classrooms…*

Cyfeiriodd Paulsrud (2014) at bwrpas trawsieithu yn y dosbarth, er enghraifft, codi ymwybyddiaeth o iaith (*language awareness*), cynnig eglurhad (*explanation*), ac mae'n cyflwyno enghreifftiau o'r hyn arsyllwyd mewn ysgolion uwchradd yn Sweden. Mae angen ystyried perthnasedd y categorïau hyn yng nghyd-destun dosbarthiadau dwyieithog yng Nghymru, ac adnabod y rhesymau pam fod athrawon yn cyflwyno trawsieithu yn y dosbarth.

5.2 Polisi Addysg Ddwyieithog: Cynllunio dyraniad iaith ar draws y cwricwlwm (Jones, 2010, 2017).

Crybwyllodd Jones (2010) bod angen polisi iaith ysgol gyfan yn egluro sut y dyrannwyd (cynlluniwyd) dwy iaith i hyrwyddo dwyieithrwydd y disgyblion. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2010: 2.15) un o'r ystyriaethau allweddol yw natur y cydbwysedd ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, a dwyster y mewnbwn cyfrwng Cymraeg sydd ei angen er mwyn i ddisgyblion fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg dros amser. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2010: 2.13) dywedwyd mai:

> Un o'r ystyriaethau allweddol yw natur y cydbwysedd ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, a dwyster y mewnbwn cyfrwng Cymraeg sydd ei angen er mwyn i ddysgwyr fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg dros amser. Derbynnir yn gyffredinol y dylai o leiaf tua 70% o amser y cwricwlwm fod drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn i ddysgwyr feistroli'r iaith yn ddigon cadarn i'w galluogi i'w defnyddio mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau yn hyderus ac yn rhugl.

Er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr egwyddor ganolog hon ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg ar lefel gynradd ac uwchradd, mae angen ymchwil pellach i'r modd mae ysgolion yn dyrannu iaith, a faint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg sydd ei angen er mwyn i ddysgwyr fod yn rhugl yn y ddwy iaith. Er enghraifft, yn ôl Cyngor Gwynedd (2015) mae angen diffinio'n eglur yr hyn ydyw dysgu ac addysgu dwyieithog gan fanylu ar faint o'r Gymraeg a'r Saesneg y dylid ei ddefnyddio i addysgu, cyfrwng iaith ysgrifennu disgyblion mewn gwersi dwyieithog a beth yw'r disgwyliadau o safbwynt defnyddio'r Gymraeg / Saesneg mewn sgyrsiau a thrafodaethau dosbarth. Mae Cyngor Gwynedd (2015) wedi cyflwyno carfannau iaith sydd yn diffinio datblygiad ieithyddol disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth iddynt weithio tuag at y nod o ddwyieithrwydd, ac mae'n ofynnol bod pob ysgol yn tracio a mesur datblygiad ieithyddol y disgyblion yn ôl y Carfanau Iaith (Tabl 13), gyda'r nod o sicrhau bod pob disgybl yn symud tuag at Garfan A.

Tabl 13: Carfanau Iaith Cyngor Gwynedd (Cyngor Gwynedd, 2015)

CARFAN	DIFFINIAD O'R MATH O DDISGYBL YN ÔL EI ALLU IEITHYDDOL
A	Disgyblion â hyfedredd oed-berthnasol yn y Gymraeg a'r Saesneg
B	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Gymraeg, ond sydd angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg
C1	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg ond sydd angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg
C2	Disgyblion â hyfedredd priodol yn y Saesneg, ond sydd heb y sgiliau oed-berthnasol priodol yn y Gymraeg
CH	Disgyblion heb sgiliau oed-berthnasol priodol yn y naill iaith na'r llall

Yn achos disgyblion carfanau A a B bydd o leiaf 70% o'r cwricwlwm (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) trwy gyfrwng y Gymraeg ond bydd hyn yn gostwng i 50% yn achos disgyblion carfan C1, ac yn gostwng ymhellach i 30% yn achos disgyblion carfan C2 sydd â sgiliau priodol yn y Saesneg ond nid yn y Gymraeg. Mae angen ymchwil i ganfod sut mae ysgolion yn darparu ar gyfer hyn, yn arbennig mewn dosbarthiadau sydd yn cynnwys disgyblion Cymraeg I1 ac I2, a'r angen i'r athro ddarparu'n wahaniaethol ar gyfer ystod ieithyddol eang. Nid oes cyfeiriad at drawsieithu yn y carfanau iaith, a'r modd y gellir defnyddio trawsieithu i hyrwyddo dwyieithrwydd y disgyblion sydd mewn mannau gwahanol ar y continwwm ieithyddol. Bydd cydbwysedd y disgyblion Cymraeg Iaith 1 (iaith gyntaf) a Chymraeg Iaith 2 (ail iaith) o fewn ystafell ddosbarth yn golygu bod angen i athrawon wahaniaethu tasgau trawsieithu. Er enghraifft, mae disgyblion (Carfan B) sy'n siarad Cymraeg angen cymorth ychwanegol gyda sgiliau ieithyddol yn y Saesneg, tra bod disgyblion (Carfan C1 & C2) angen cymorth ychwanegol gyda'u sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg.

5.3 Teipoleg Trefniadau Iaith mewn Dosbarthiadau Dwyieithog yn Ysgolion Cymru

(Lewis, Jones & Baker, 2012b, 2013; Jones & Lewis, 2014).

Nododd Estyn (2014) bod amryw o strategaethau addysgu ar waith mewn ysgolion uwchradd dwyieithog, a bod modd categoreiddio dulliau addysgu athrawon yn ôl patrwm trefniadaeth y cwricwlwm dwyieithog fel a ganlyn:

(i) Cyflwyno drwy un iaith yn unig, ond deunyddiau ar gael yn y ddwy iaith;

(ii) Cyflwyno'n bennaf yn y Gymraeg ond yn aralleirio syniadau creiddiol neu gymhleth drwy'r Saesneg;

(iii) Ailadrodd popeth gair-am-air yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r categorïau uchod yn adleisio rhai o'r trefniadau iaith (er enghraifft, defnyddio un iaith ar gyfer dwyieithrwydd, cyfieithu) a gyflwynwyd gan Lewis, Jones & Baker (2012b) a Jones & Lewis (2014). Cyfeiriodd Estyn (2014:17) at anawsterau sydd yn gysylltiedig ag ambell drefniant ieithyddol mewn dosbarth dwyieithog:

> Mewn ychydig o wersi, yn bennaf yn yr ysgolion â chyfrannau uchel o ddisgyblion yn dilyn y Gymraeg fel ail iaith, mae'r athrawon yn ailadrodd popeth gair-am-air yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er bod hyn yn rhoi cyfle i'r disgyblion glywed y ddwy iaith, mae'r arddull hon yn arafu tempo'r wers ac nid yw o reidrwydd yn datblygu medrau ieithyddol disgyblion gan eu bod yn gwrando'n fwy astud ar yr iaith sydd fwyaf cyfarwydd iddynt.

Yn ôl Lewis (2011), Lewis & Andrews (2014) a Jones (2017) mae un trefniant ieithyddol a elwir 'cydieithu' (*co-languaging*) yn nodwedd o'r ddarpariaeth ddwyieithog mewn ysgolion a cholegau addysg bellach/uwch yng Nghymru. Cydieithu yw'r arfer o drefnu grwpiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar wahân o fewn yr un dosbarth, a chyflwynir y wers mewn un iaith i un grŵp ac mewn iaith wahanol i'r grŵp arall, er enghraifft, grŵp yn dilyn cwrs TGAU Hanes yn y Gymraeg yn yr un dosbarth â grŵp yn sefyll yr un arholiad yn y Saesneg.

Awgryma'r awdur bod modd mireinio'r deipoleg '*Language arrangements within bilingual classrooms in Wales'* a gyflwynodd Jones & Lewis (2014), a'r addasiad a ymddangosodd yn Lewis et al.(2013) o dan y teitl 'Teipoleg Trefniadau Iaith mewn Dosbarthiadau Dwyieithog yn Ysgolion Cymru' (Tabl 14). Mae modd ystyried y ddarpariaeth ddwyieithog yn ysgolion Cymru ar dair lefel fel a ganlyn:

(i) Addysg Ddwyieithog, - defnyddio UN iaith yn y dosbarth (e.e. un pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg a phwnc arall drwy gyfrwng y Saesneg);

(ii) Addysg Ddwyieithog, - defnyddio DWY iaith yn y dosbarth (e.e. trawsieithu);

(iii) Addysgu a Dysgu mewn Sefyllfa Ddwyieithog (e.e. cydieithu).

Mae 'Teipoleg Trefniadau Iaith mewn Dosbarthiadau Dwyieithog yn Ysgolion Cymru' (Tabl 14) yn cwmpasu ystod eang o sefyllfaoedd dwyieithog, ac yn amlygu'r gwahaniaeth allweddol rhwng 'Addysgu a dysgu dwyieithog' ac 'Addysgu a dysgu mewn sefyllfa ddwyieithog' yn ôl diffiniad gwreiddiol Williams (2002).

Tabl 14: Teipoleg Trefniadau Iaith mewn Dosbarthiadau Dwyieithog yn Ysgolion Cymru (Jones, 2016)

Trefniant Iaith yn y Dosbarth	Iaith yn y Dosbarth	Deilliant Ieithyddol Disgwyliedig i'r Disgybl
ADDYSG DDWYIEITHOG **-Defnyddio UN iaith yn y dosbarth** Gwahanu ieithoedd e.e. Un Pwnc Un Iaith Un Modiwl Un Iaith	Athro: Defnyddio un iaith Disgybl: Defnyddio un iaith	Dwyieithrwydd pob disgybl
ADDYSG DDWYIEITHOG **- Defnyddio DWY iaith yn y dosbarth** Cyfieithu: athro'n cyfieithu ar gyfer y dosbarth cyfan athro'n cyfieithu termau i'r dosbarth cyfan athro'n cyfieithu i gefnogi dysgwr Cymraeg/Saesneg I2 Trawsieithu: dan reolaeth yr athro dan reolaeth y disgybl Cyfnewid cod: wedi'i gynllunio e.e. athro'n cyfnewid iaith yn fwriadus i egluro cynnwys y wers heb ei gynllunio e.e. athro'n ymateb ar hap i iaith y disgybl	Athro: Defnyddio dwy iaith Disgybl: Defnyddio dwy iaith	Dwyieithrwydd pob disgybl
ADDYSGU A DYSGU MEWN SEFYLLFA DDWYIEITHOG Dosbarthiadau ieithyddol gwahanol o fewn yr ysgol e.e. dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg o fewn ysgolion dwyieithog Cydieithu: -grwpiau ieithyddol gwahanol o fewn yr un dosbarth	Athro: Defnyddio un iaith Disgybl: Defnyddio un iaith Athro: Defnyddio dwy iaith Disgybl: Defnyddio un iaith	Amrywio yn ôl cefndir ieithyddol y disgyblion Amrywio yn ôl cefndir ieithyddol y disgyblion

Mae'r adroddiad hwn wedi cynnig trosolwg o drefniadau iaith mewn dosbarthiadau dwyieithog ledled Cymru, ond mae angen ymchwil cyfredol i ganfod pa drefniadau sydd fwyaf addas ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion yn ôl y diffiniadau ieithyddol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2007).

5.3.1 Teipoleg addysg ddwyieithog yng Nghymru heddiw

Er bod Ffigwr 13 yn ymgais i gyflwyno teipoleg o drefniadau iaith mewn dosbarthiadau dwyieithog yng Nghymru, mae'n rhaid pwysleisio bod y cymhlethdod ieithyddol amlwg mewn dosbarthiadau dwyieithog yn golygu bod cynhyrchu teipoleg derfynol yn hynod o anodd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010: 9) yn cydnabod y bydd canlyniadau ieithyddol y gwahanol fathau o ddarpariaeth ddwyieithog yn amrywio'n sylweddol.



Ffigwr 13: *Teipoleg Addysg Ddwyieithog yng Nghymru* (yn seiliedig ar Lewis et al., 2012b; Jones, 2017)

Mae’r gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn colli nifer o ddysgwyr wrth iddynt drosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn ôl Gwerthusiad o’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2016b):

> Dengys y data bod nifer o ddysgwyr yn trosglwyddo o addysg cyfrwng Cymraeg gan symud i astudio mewn ffrydiau Saesneg neu ddwyieithog ac yn dilyn cyrsiau Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Ceir amrywiaeth o fodelau darpariaeth dwyieithog mewn ysgolion lle y defnyddir y Gymraeg i raddau gwahanol wrth gyflwyno’r cwricwlwm. Mae’r amrywiaeth hon yn ffactor pwysig yn y patrymau dilyniant, gyda’r cyfraddau dilyniant isaf yn yr ardaloedd lle mae’r nifer uchaf o ysgolion dwyieithog (Llywodraeth Cymru, 2016b:5).

Mae’r pwyslais ar wahanu ieithoedd yn yr ysgolion uwchradd wedi cyfrannu at y gostyngiad o ddisgyblion sydd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai defnyddio dulliau o gyflwyno ieithoedd yn gyfochrog (er enghraifft, trawsieithu) yn annog disgyblion i ddatblygu eu dwyieithrwydd.

Mae gwahaniaethau nodedig rhwng awdurdodau addysg yng Nghymru o ran polisïau iaith a CSGA (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg) a roddwyd ar waith i hyrwyddo a datblygu medrau dwyieithog disgyblion. Gall cyfeiriadau at drawsieithu fodoli mewn polisi ysgol ond cyfyngedig yw’r sylw at addysgeg addysgu dwyieithog mewn dogfennaeth ganolog gan Lywodraeth Cymru, a pholisïau iaith yr awdurdod lleol. Serch hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010: 8-9) yn cydnabod bod angen llunio polisi fydd yn rhoi cyfleoedd digonol i’r dysgwyr fod yn rhugl yn y Gymraeg a’r Saesneg:

> Mae’n bwysig bod datblygiadau polisi yn cael eu cynllunio ar sail dealltwriaeth fanwl o’r amrywiaeth eang o ddeilliannau a gaiff dysgwyr drwy ddarpariaeth ddwyieithog. Dylai lleoliadau dwyieithog geisio darparu cymaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ag y bo angen er mwyn i ddysgwyr fod yn rhugl yn y ddwy iaith (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010:9).

Bydd y deilliannau ieithyddol yn amrywio yn sylweddol, ac nid yw darpariaeth ddwyieithog bob amser yn sicrhau bod unigolyn yn dod yn siaradwr dwyieithog. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010: 2.13) yn pwysleisio bod natur y cydbwysedd ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, a dwyster y mewnbwn cyfrwng Cymraeg sy'n ofynnol er mwyn i ddysgwyr fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg dros amser yn ystyriaeth allweddol mewn cynllunio ieithyddol ar lefel ysgol.

Bydd yr adran nesaf yn crynhoi prif negeseuon yr adroddiad hwn, ac yn awgrymu meysydd i’w hymchwilio ymhellach o fewn y maes.

6. Clo

6.1 Sylwadau cyffredinol.

Mae'r adroddiad hwn wedi cyfeirio'n feirniadol at yr ymchwil i addysg ddwyieithog yn ysgolion Cymru rhwng 2007 a 2012 a gyhoeddwyd gan Jones (2010, 2017), Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b, 2013) a Jones & Lewis (2014). Wrth drafod pennod Jones & Lewis (2014) cyfeiriodd Thomas & Mennen (2014: xxii) at rôl ymchwil i werthuso dulliau addysgu dwyieithog, a'r angen i ddefnyddio'r canfyddiadau ymchwil i gefnogi anghenion ieithyddol disgyblion mewn dosbarthiadau dwyieithog:

> *The chapter demonstrates quite clearly the need for evaluative research in relation to current practices in bilingual classrooms in order to produce well-defined policy and practice that best serve the variety of speakers attending bilingual schools* (Thomas & Mennen, 2014: xxii).

Mae Amcan Strategol 4.5 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) yn cyfeirio at rôl allweddol ymchwil i addysg cyfrwng Cymraeg, a'r angen i gysylltu ymchwil gydag arfer dda a hyfforddiant:

> Datblygu ymhellach ymchwil ac ysgolheictod yng Nghymru ar draws amrywiaeth eang o feysydd sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn addysg, gan gynnwys methodolegau addysgu a dysgu, a chysylltu ymchwil a hyfforddiant ac arfer gorau.

Mae'n anodd gwybod os gwireddwyd hyn gyda'r cyhoeddiadau dan sylw, er enghraifft, nid yw'r awdur yn ymwybodol os cyflwynwyd yr ymchwil i drawsieithu ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru a thu hwnt. Cytuna'r awdur gydag arfarniad Jones (2013:4) bod gweithgareddau ymchwil yng Nghanolfan Ymchwil ESRC i Ddwyieithrwydd mewn Theori ac Ymarfer (Prifysgol Bangor) wedi creu ardrawiad ar lefel genedlaethol ond bod modd cydweithio ymhellach ar lefel ryngwladol:

> *The Centre's contribution to academic research capacity building has been very effective. While there were examples of direct impact and relevance of some research to some policy-makers and practitioner groups in Wales, in particular, it was felt by some commentators that this could have been strengthened further and extended to engage with UK and EU agendas.*
>
> (Jones, 2013:4)

Yn yr adran nesaf awgrymwyd meysydd i'w hymchwilio ymhellach yn sgil canfyddiadau'r Prosiect Ymchwil i Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru a drafodwyd gan Jones (2010; 2017); Jones & Lewis (2014) a Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b, 2013).

6.2 Diffinio addysg ddwyieithog.

Yn sgìl y Prosiect Ymchwil i Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru rhwng 2007 a 2012 lluniwyd y deipoleg gyntaf o addysg ddwyieithog sydd yn berthnasol i Gymru heddiw (Lewis et al., 2012b, Jones & Lewis, 2014). Eglurwyd termau allweddol fel 'addysg ddwyieithog' ac 'addysgu mewn sefyllfa ddwyieithog' ac amlygwyd nad oes cysondeb o ran dehongliadau o fewn na rhwng ysgolion (Jones, 2010; Lewis, Jones & Baker 2012a).Trafodwyd cwestiynau allweddol a godwyd fel, 'Ydy addysg ddwyieithog yn golygu defnyddio dwy iaith ymhob gwers?', 'Beth ydy ystyr sefyllfaoedd dwyieithog?', 'Beth ydy ystyr ysgol ddwyieithog?' a 'Sut mae diffinio disgybl dwyieithog?'

Mae tystiolaeth ansoddol o'r fath yn bwysig gan nad oes llawer o dystiolaeth gyffelyb ar gael yn y maes. Serch hynny, mae'r angen i ddiffinio addysg ddwyieithog yn parhau, er enghraifft, dyma a nodwyd fel un o argymhellion Adroddiad Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg gan Gyngor Gwynedd (2015: Adran 8):

> Er mwyn cryfhau a chysoni Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, dylai'r Cyngor ddiffinio'r hyn ydyw dysgu dwyieithog, gan gydweithio gydag ysgolion a sefydliadau hyfforddi athrawon i sefydlu addysgeg ddwyieithog gadarn sy'n addas ar gyfer holl ysgolion a disgyblion yr Awdurdod a meithrin sgiliau trawsieithu ymysg y staff.

Cefnogodd Jones & Lewis (2014) ymchwil blaenorol Baker (2010a) ynglŷn â'r ffactorau (amlwg ac ymhlyg) sydd yn dylanwadu ar y ddarpariaeth ddwyieithog mewn ysgolion, er enghraifft, cefndir ieithyddol athrawon, hyfforddiant athrawon a staff ategol, ethos ysgolion, cefndir ieithyddol disgyblion, agweddau rhieni/gwarcheidwaid, athrawon a disgyblion, gofynion y cwricwlwm ac asesu, polisïau AALl, a ffactorau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol. Mae'r ffactorau hyn yn dylanwadu ar y math o raglen ddwyieithog a gyflwynwyd mewn ysgolion, er enghraifft, mae iaith y gymdeithas a chefndir ieithyddol y disgyblion yn golygu nad yw dosbarth dwyieithog yng Nghaernarfon yr un peth â dosbarth dwyieithog yng Nghaerdydd. Mae angen gwerthuso modelau gwahanol, ac adnabod arferion da sydd yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n ddwyieithog yn ôl deilliannau oed disgwyliedig (Llywodraeth Cymru, 2010). Honnodd Brooks (2014:12) bod polisi iaith ysgolion uwchradd dwyieithog yn y bröydd Cymraeg yn aneffeithiol:

> A siarad yn blaen, mae'r gyfundrefn addysg yn y sector uwchradd yn yr hen Fro Gymraeg mewn anhrefn llwyr. Teflir canrannau o gwmpas: heura'r naill bolisi mai ystyr addysg Gymraeg yw cael llai nag 20% o'r addysg mewn Saesneg; yn ôl polisi arall, y rhicyn priodol yw 30%; mewn polisi gwahanol eto, ceir cyfeiriad at 50%. Sonnir wedyn y dylid addysgu hyn a hyn o bynciau trwy'r naill iaith neu'r llall, ac unwaith eto ceir anghysondebau amlwg rhwng gwahanol bolisïau, diffiniadau a chyfarwyddiadau.

Nid ydyw ysgol ddwyieithog yn gyfystyr ag addysg ddwyieithog, ac efallai mai'r cwestiwn allweddol i'w ofyn yn y cyd-destun hwn fyddai, Ydy pob ysgol ddwyieithog yn creu disgyblion dwyieithog?

Nodwyd droeon (er enghraifft, Lewis 2008, 2016) mai un o'r prif heriau sy'n wynebu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yw'r diffyg dilyniant ieithyddol rhwng y cyfnodau allweddol, a chyfeiriwyd at hyn yn un o nodau strategol y *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010):

> Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010:15).

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n berthnasol ystyried sut mae hyrwyddo trawsieithu ar draws y cwricwlwm, yn arbennig yn achosion disgyblion dwyieithog (datblygol a hyfedr) sydd yn dewis addysg cyfrwng Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4.

6.3 Trefniadau iaith mewn dosbarthiadau dwyieithog.

Yn sgìl y Prosiect Ymchwil Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru (rhwng 2007 a 2012) amlygwyd amrywiaeth o drefniadau iaith mewn cant o wersi mewn dosbarthiadau cynradd ac uwchradd, er enghraifft, cyfieithu, sgaffaldio ar gyfer disgyblion nad ydynt yn rhugl, cyflwyno geirfa/termau, trawsieithu, a chyfnewid iaith (yn cynnwys 'cyfnewid iaith mewn-frawddegol' a 'chyfnewid iaith rhyng-frawddegol'). Cyflwynwyd tystiolaeth yn nodi pa drefniant oedd y mwyaf a lleiaf cyffredin, ond mae angen ystyried manteision ac anfanteision gwahanol drefniadau iaith ymhellach er mwyn canfod pa drefniant sydd fwyaf addas ar gyfer dysgwyr dwyieithog. Er enghraifft, bydd dysgwyr dwyieithog datblygol angen eglurhad ynglŷn â thermau dwyieithog ar gyfer cwblhau tasgau trawsieithu.

Serch hynny, gellir dadlau bod y drafodaeth a gyflwynodd Jones (2010), Jones a Lewis (2014) a Lewis, Jones & Baker (2012a, 2012b) ynglŷn â tharddiad a'r defnydd o drawsieithu yn y dosbarth wedi bod yn gyfraniad allweddol i'r maes. Bellach mae'r term 'trawsieithu' wedi'i addasu a'i gymhwyso i sefyllfaoedd amrywiol ledled y byd. Er enghraifft, cyfeiriodd García (2010) mewn e-bost at aelodau'r tîm Prosiect Ymchwil i Addysg Ddwyieithog mewn Ysgolion yng Nghymru at y modd roedd hi wedi ymestyn y term trawsieithu, a bod athrawon yn dehongli trawsieithu yn ôl sefyllfaoedd sydd yn gyfarwydd iddyn nhw:

> *I clearly extend the meaning that Williams gave to "translanguaging." …For me, translanguaging is not a pedagogy, but a sense-making languaging in the classroom, different from the sense that Williams gave it, I think. (I say I think only because it is difficult to find his work in English, and thus, I have to rely on you and what I have from Lewis. It would be great to read more). So, although I always give credit to Williams for coining the term, the issue is what happens when others extend it, appropriate it, etc. …And I would hope that people appropriate translanguaging in classrooms, giving it further meaning, according to their own realities.*

Nid yw García wedi egluro'r ymadrodd '*a sense-making languaging'* yn llawn yng nghyd-destun trawsieithu yn y dosbarth. Yn gyffredinol, defnyddiwyd y term 'trawsieithu' yn llac iawn i ddisgrifio trefniadau iaith amrywiol e.e.'cyfnewid-cod' (*code-switching*) a chyfieithu (Lewis, Jones & Baker*,* 2012b; Jones, 2017). Bathodd Jones (2017) dermau newydd i gydnabod bod gwahanol fathau o drawsieithu'n bodoli y tu fewn a thu allan i'r ystafell dosbarth, sef 'Trawsieithu Academaidd Gwybyddol' (*CAT- Cognitive Academic Translanguaging*) a 'Trawsieithu Rhyngbersonol Sylfaenol' (*BIT-Basic Interpersonal Translanguaging).* Mae angen cyflwyno cyfleoedd i drawsieithu o fewn cyd-destunau academaidd ac anffurfiol, ac bydd hyn efallai yn sicrhau nad ydy rhai disgyblion yn gweld y Gymraeg fel iaith addysg yn unig.

Cyflwynodd Lewis, Jones & Baker (2012a) ddosbarthiad triphlyg i gyfleu'r defnydd eang o drawsieithu mewn sefyllfaoedd amrywiol sef 'Trawsieithu yn y dosbarth' (*Classroom translanguaging*), 'Trawsieithu cyffredinol' (*Universal translanguaging*) a 'Thrawsieithu niwroieithyddol' (*Neurolinguistic translanguaging*). Gellir dadlau mai damcaniaethol yw'r dosbarthiad triphlyg hwn, ac mae angen manylu ymhellach ar y categorïau ac ystyried sgôp y gwahanol fathau o drawsieithu. Mae *Iaith fyw: iaith byw* (Llywodraeth Cymru, 2012a) yn pwysleisio'r angen i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd, a chodi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o werth yr iaith yn y gymuned ac yn y gweithle, ac mae angen ystyried gallu pob carfan o'r gymdeithas i ddatblygu ac ymarfer trawsieithu fel un strategaeth bosibl i wireddu hyn. Er bod Jones (2010) a Lewis (2008) wedi cyflwyno dosbarthiad o fewn trawsieithu yn y dosbarth sef 'trawsieithu o dan reolaeth yr athro' a 'thrawsieithu o dan reolaeth y disgybl', mae angen ymchwilio ymhellach i'r defnydd o drawsieithu mewn amrywiaeth o ysgolion ledled Cymru a thu hwnt, er enghraifft, mae angen ystyried ffwythiant (pwrpas) trawsieithu (Paulsrud, 2015), ac addasrwydd gwahanol fodelau o drawsieithu ar gyfer datblygu dwyieithrwydd disgyblion sydd ar wahanol gamau o'r continwwm ieithyddol. Mae cynllunio ieithyddol ar wahanol lefelau, gan gynnwys llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol, yn ogystal â lefel yr ysgol a'r ystafell ddosbarth yn hanfodol i sicrhau bod cyfleoedd priodol yn bodoli i hyrwyddo sgiliau dwyieithog disgyblion y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth (Jones, 2017).

